

# Rhaglen Gyflawn



Cydweithio · Dysgu · Llwyddo  
Collaborating · Learning · Succeeding



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL



CONWY  
CYNGOR SWAIDESTRAF SIROL  
COUNTY BOROUGH COUNCIL



CYNGOR  
Sir Ddinbych  
Denbighshire  
COUNTY COUNCIL



CYNGOR  
Sir y Fflint  
Flintshire  
COUNTY COUNCIL



wrexham  
COUNTY BOROUGH COUNCIL  
CYNGOR SWAIDESTRAF SIROL  
wrecsam

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR GWE**

Dyddiad ac Amser

**1.30 y.h., DYDD MERCHER, 22AIN MEDI, 2021**

Lleoliad

**Zoom**

Cysylltwch am fynediad i'r cyhoedd

Pwynt Cyswllt

**Natalie Lloyd Jones**

**NatalieLloydJones@Gwynedd.Llyw.Cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mawrth, 14 Medi 2021)

# CYD-BWYLLGOR GWE

## Aelodau a phleidlais

### Y Cynghorwyr

Cynghorydd Julie Fallon	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cynghorydd Meirion Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts	Cyngor Sir Ddinbych
Cynghorydd Ian Roberts	Cyngor Sir y Fflint
Cynghorydd Phil Wynn	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cynghorydd Cemlyn Rees Williams	Cyngor Gwynedd

## Aelodau cyfetholedig heb Bleidlais

Rosalind Williams	Eglwys yng Nghymru
Claire Armitstead	Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd
Richard Collet	Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd
Jonathan Morgan	Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig
Alison Fisher	Cynrychiolydd Llywodraethwr

## Swyddogion Heb Bleidlais

Dr Lowri Brown	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Claire Homard	Cyngor Sir y Fflint
Garem Jackson	Cyngor Gwynedd
Rhys Howard Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn
Karen Evans	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Geraint Davies	Cyngor Sir Ddinbych

## Swyddogion yn bresennol

Dafydd L. Edwards	Awdurdod Lletyol
Sion Huws	Awdurdod Lletyol
Annwen Morgan	Cyngor Sir Ynys Môn
Arwyn Thomas	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE
Alwyn Jones	Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE

## Erail a wahoddiwyd

Gareth Williams	Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol GwE
-----------------	---------------------------------

## Sylwedydd

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I nodi unrhyw ymddiheuriadau.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYN

I nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryn ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 5 - 9

(Amgaedig)

## 5. CYLLIDEB GWE 2021-2022 - ADOLYGIAD CHWARTER 1 10 - 14

Diweddarau aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol diweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2021/22.

## 6. CYNLLUN BUSNES RHANBARTHOL 2021-2022 GWE - ADRODDIAD MONITRO CHWARTER 1 15 - 48

Cyflwyno adroddiad monitro chwarter 1 - Cynllun Busnes Rhanbarthol 2021-2022 GwE i'r Cyd-Bwyllgor.

## 7. ADRODDIADAU HUNAN ARFARNU YSGOLION 49 - 67

Cyflwyno'r adroddiad i aelodau'r Cyd-bwyllgor.

## 8. PROSESAU A STRWYTHURAU RHANBARTHOL AR GYFER CEFNOGI A HERIO YSGOLION SY'N DESTUN PRYDER 68 - 76

Rhannu gwybodaeth ag aelodau'r Cyd Bwyllgor am esblygu strwythurau a phrosesau rhanbarthol i gefnogi ysgolion sy'n destun pryder.

## 9. STRATEGAETH RHANBARTHOL - ADNEWYDDU A DIWYGIO: 77 - 92

## **CEFNOGI LLES A CHYNNYDD Y DYSGWYR**

Cyflwyno gwybodaeth, ac i aelodau'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo ein 'Strategaeth ranbarthol - Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr'.

### **10. Y GYMRAEG - CYNLLUNIAU CLWSTWR A PHROSIECT 93 - 98 LLAFAREDD 'EIN LLAIS NI'**

Rhannu gwybodaeth am y trefniadau a'r cynlluniau ar gyfer dau brif ffrwd gwaith y cynllun busnes ar gyfer y Gymraeg eleni – trefniadau ar gyfer y Cynlluniau Clwstwr a Phrosiect Llafaredd 'Ein Llais Ni'.

### **11. DYSGU DIGIDOL 99 - 103**

Rhannu gwybodaeth ag aelodau'r Cyd-bwyllgor ynglŷn â'r maes gwaith 'Dysgu Digidol'.

### **12. TREFN YMDRIN A PHRYDERON A CHWYNION GWE 104 - 110**

Derbyn a chymeradwyo'r drefn o ymdrîn â phryderon a chwynion GwE.

---

## CYD-BWYLLGOR GWE – 14/07/2021

---

### Yn bresennol:

**Y Cynghorwyr:** Phil Wynn (Cadeirydd – Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Meirion Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Huw Hilditch-Roberts (Cyngor Sir Ddinbych), Cemlyn Williams (Cyngor Gwynedd).

**Aelodau Cyfetholedig heb bleidlais:** Jonathan Morgan (Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig), Richard Collet (Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd), Claire Armitstead (Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd).

**Swyddogion yn bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr - Corfforaethol, Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol), Lowri Brown (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Garem Jackson (Cyngor Gwynedd), Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr GwE), Karen Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Susan Owen Jones (Rheolwr Busnes GwE), Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE), Claire Homard (Cyngor Sir y Fflint), Hywyn Jones (Cyfrifydd Grŵp, Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol), Gwion Jones (Uwch Gyfrifydd, Cyngor Gwynedd - Yr Awdurdod Lletyol), Bethan Roberts (Rheolwr Rheoli Perfformiad, GwE), Sioned Mai Jones a Natalie Lloyd Jones (Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth, Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol).

**Eraill a wahoddwyd:** Gareth Williams (Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol GwE)

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y canlynol; Annwen Morgan (Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ynys Môn, Rhys Howard Hughes (Cyngor Sir Ynys Môn), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint).

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

### 3. MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw fater brys.

### 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cadarnhawyd fod y cofnod a gyflwynwyd o'r cyfarfod ar yr 26ain o Fai, 2021 yn gywir.

### 5. DATGANIAD O'R CYFRIFON 2020/21

PENDERFYNIAD:

Derbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon GwE (yn amodol ar archwiliad) amflwyddyn 2020/21.

#### TRAFODAETH:

Cyflwynwyd y Datganiad o'r Cyfrifon, ar ffurf 'statudol', wedi'i ardystio gan y Swyddog Cyllid Statudol i'r Cydbwyllgor er gwybodaeth

Cyfeiriwyd at y ffigyrau yr adroddwyd yn y Cydbwyllgor blaenorol ynglŷn â thanwariant a'r cyfansymiau ym mhob colofn.

Eglurwyd sefyllfa ariannol GwE gan nodi bod £811,000 i'w gweld yn y gronfa.

Ategwyd mai er gwybodaeth yw'r cyfrifon yma a byddai fersiwn ôl-archwiliad yn dod gerbron y Cydbwyllgor yn yr Hydref er mwyn i'r cydbwyllgor eu derbyn a'u fabwysiadu.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:-

- Diolchwyd am broffesiynoldeb y tîm am gyflwyno'r cyfrifon mewn amser priodol.
- Gofynnwyd a oedd gan yr aelodau unrhyw beth i'w boeni amdano o safbwynt y cyfrifon.
- Diolchodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE i'r Pennaeth Cyllid a'r Cyfrifwyr am eu gwaith technegol i gefnogi GwE. Ategwyd y diolch i'r Rheolwr Busnes a'r Tîm Busnes sydd wedi sicrhau bod y gwasanaeth yn unioni'r gyllideb o un flwyddyn i'r llall.

Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cyllid:

- Nad oedd unrhyw beth i boeni amdano, a bod tystiolaeth o reolaeth gadarn gydag unrhyw danwariant neu orwariant o fewn ffiniau rhesymol.

## 6. DATGANIAD LLYWODRAETHU

#### PENDERFYNIAD:

Derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21.

#### TRAFODAETH:

Tywyswyd y Cydbwyllgor drwy'r adroddiad sy'n cynnwys gwybodaeth ynghylch yr egwyddorion a'r weledigaeth. Eglurwyd bod y datganiad yn rhoi trosolwg o sut mae'r gwasanaeth wedi bod yn ymddwyn a beth yw'r camau nesaf yn y flwyddyn i ddod.

Mynegwyd diolch i Dewi Morgan (Cyngor Gwynedd) am ei gyngor o safbwynt llywodraethu wrth lunio'r Datganiad Llywodraethu.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Nodwyd ei fod yn ddogfen ddefnyddiol i gyfeirio ato ac yn cynnig lefel uchel o sicrwydd i aelodau'r Cydbwyllgor.
- Diolchwyd am yr adroddiad.

## **7. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020/21**

PENDERFYNIAD:

Derbyn a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2020/21 ar yr amod o ychwanegu blaenoriaeth sy'n ymdrin ag ymateb i effeithiau ôl-covid yng nghydestun y gwasanaeth.

TRAFODAETH:

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol GwE ac amlinellwyd sut mae GwE wedi ail-bwrpasu yn ystod y cyfnod pandemig. Ategwyd bod y Cydbwyllgor wedi cael eu diweddarau ar y gwaith yma yn ystod y flwyddyn a bod yr adroddiad yma yn grynodedb o hyn.

Amlygwyd bod yr adroddiad yn amlinellu sut mae ysgolion yn cael eu cefnogi i weithredu'r daith ddiwygio a pharatoi am y cwricwlwm newydd ac mae'n nodi'r blaenoriaethau strategol a rhanbarthol ar gyfer 2021-22 a gytunwyd arnynt yn y cyfarfod blaenorol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:-

- Diolchwyd i Gyfarwyddwr Cynorthwyol GwE a'r tîm am eu gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- Cyfeiriwyd at Bwynt 8 - blaenoriaethau ar gyfer 21/22 gan nodi bod bwlch yna sef nad oes cyfeiriad at sut mae GwE am ymateb i effeithiau ôl-covid yng nghydestun Addysg.

Mewn ymateb nododd Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE:-

- Y bydd trosolwg o'r cynlluniau sy'n ystyried effeithiau ôl-covid i yn yr adroddiad monitro yn yr hydref
- Ategwyd y bydd modd ychwanegu effeithiau Covid fel rhan o'r adroddiad neu, nodwyd bod posibilrwydd i'w ychwanegu fel blaenoriaeth 7.

## **8. STRATEGAETH I GEFNOGI RHIENI/GOFALWYR**

PENDERFYNIAD :

Nodi a derbyn yr adroddiad a chefnogi'r strategaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion mewn perthynas ag ymgysylltiad rhieni/gofalwyr yng ngogledd Cymru.

#### TRAFODAETH:

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol GwE gan nodi mai un o flaenoriaethau'r cynllun busnes yw cynorthwyo rhieni/ gofalwyr i fedru helpu eu plant i ddysgu.

Ategodd bod grŵp rhanbarthol eisoes wedi ei sefydlu sydd wedi cyfarfod dwywaith i osod cyfeiriad strategol i'r gwaith. Soniwyd am becyn i helpu plant rhwng 5-12 oed i ddysgu, sydd wedi rhannu efo'r ysgolion cynradd . Cyfeiriwyd at y rhaglen gan nodi bod doler yn y fersiwn ar-lein i aelodau'r Cydbwyllgor ei weld.

Eglurodd bod Penaethiaid eisoes wedi cael cyflwyniad i'r adnodd a bod y grŵp rhanbarthol wedi adnabod yr angen i gael pecyn ar gyfer dysgwyr 13-16 oed. Ategodd bod penaethiaid Uwchradd yn gefnogol ac yn awyddus i gael y pecyn yn ogystal â phecyn ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Nododd aelod bod wir angen am hyn a bod yr adnodd yn cael ei werthfawrogi.
- Gofynnodd aelod a yw'r adnodd yn berthnasol ar gyfer rhieni di-gymraeg sydd â phlant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Mewn ymateb:

- Nododd Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE bod angen i GwE arddangos eu cyfraniad iCSGA yr Awdurdodau Lleol.
- Ategodd bod y mater o gynorthwyo rhieni di-gymraeg yn un lled Cymru a bod angen trafodaethau yn y Bwrdd Rheoli er mwyn adnabod sut i lenwi'r bwlch.

## 9. MENTER TEDXGWE

#### PENDERFYNIAD:

Cymeradwyo'r adroddiad a Menter TEDxGwE Gogledd Cymru ac edrychir ymlaen at dderbyn diweddariad yn yr Hydref.

#### TRAFODAETH:

Rhodddwyd trosolwg o'r menter newydd gan ategu ei fod yn ddarn o waith fydd yma yng ngogledd Cymru am flynyddoedd.

Eglurwyd bod GwE wedi cofrestru ac wedi cael trwydded ar gyfer TEDxGwE ble bydd plant yn cyfrannu at y drafodaeth o ran sut i fynd i'r afael â, a chynnig datrysiadau i'r argyfwng newid hinsawdd. Ategwyd y bydd modd mynd a barn a llais plant y gogledd ymlaen at COP26 sydd yng Nglasgow eleni a bod ysgolion wedi derbyn gwybodaeth am hyn.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Gofynnwyd a oedd amserlen ar gyfer dychwelyd i'r Cydbwyllgor gydag adroddiad pellach ar y fenter yma.



- Cytunwyd bod y fenter yn amserol iawn ar gyfer dibenion y cwricwlwm newydd a gallai ysgolion fabwysiadu'r fenter yn flynyddol.
- Diolchwyd i GwE am ymdrechu i sicrhau'r fenter yma fel yr unig gonsortia rhanbarthol i wneud hynny.

Mewn ymateb nododd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE:

- Ei ddiolchiadau ar ran y Cydbwyllgor i Gavin Cass am sicrhau bod pobl ifanc y gogledd ar y blaen efo'r cyfleoedd yma.
- Bod angen sicrhau bod gan y fenter yma cyswllt clir gyda blaenoriaethau'r ALI.

### **Materion yn codi**

I gloi, ffarwelwyd â Rheolwr Busnes GwE. Estynnwyd diolch iddi am ei holl waith a chefnogaeth dros y blynyddoedd ers sefydlu GwE. Nodwyd bod y gwasanaeth yn gwerthfawrogi ei chyfraniad, ei deallusrwydd dwfn, a'i chynghor dros ei hamser yno.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 11:23yb.

---

**CADEIRYDD**

# Eitem 5

GwE: Cydbwyllgor 22/09/21

---



Cydweithio · Dysgu · Llwyddo  
Collaborating · Learning · Succeeding

<b>CYFARFOD</b>	<b>Cydbwyllgor GwE</b>
<b>DYDDIAD</b>	22 Medi 2021
<b>TEITL</b>	<b>Cyllideb GwE 2021/22 – Adolygiad Chwarter 1af</b>
<b>PWRPAS</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Diweddarau aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol diweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2021/22.</li><li>• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn.</li></ul>
<b>ARGYMHELLIAD</b>	Derbyn yr adroddiad.
<b>AWDUR</b>	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd.

## 1. CASGLIAD

- 1.1 Ar sail gwariant ac incwm y chwarter cyntaf ac amcangyfrifon yn seiliedig ar eglurhaon rheolwyr, mae'r adolygiad cychwynnol yma yn rhagweld tanwariant net o (£48,805) erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2021/22.
- 1.2 Mae effaith Covid-19 yn parhau i effeithio ar benawdau unigol, ac mae'r rhan ddilynol o'r adroddiad yma'n egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau a ragwelir.

## 2. AMRYWIADAU ARIANNOL

### 2.1 **Adeilad:**

#### **Chwarter 1: gorwariant £24,514.**

Mae'r gyllideb yma yn ddibynnol ar incwm allanol a defnydd adeiladau GwE gan brosiectau penodol fel rhan ohono. Yn sgil y pandemig mae ffyrdd newydd o weithio wedi cael eu mabwysiadu, gyda llawer mwy o weithio o bellter, a chyfarfodydd rhithiol.

Nid yw swyddogion GwE yn ôl yn y swyddfa ar hyn o bryd, ond mae'n bosib bydd hyn yn newid cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Fel man cychwyn ar y pennawd hwn, disgwylir diffyg incwm ar gyfer 5 mis cyntaf y flwyddyn ariannol, gan nad oes unrhyw ddefnydd o ystafelloedd GwE wedi ei gwneud o Ebrill hyd at Awst. Mae posib i'r diffyg incwm gynyddu os na fydd staff yn gwneud defnydd o'r swyddfeydd yn ystod y flwyddyn.

### 2.2 **Cludiant:**

#### **Chwarter 1: tanwariant (£73,319).**

Mae ymweliadau ag ysgolion wedi ailgychwyn erbyn hyn ond ddim i'r un raddfa a chyn yr argyfwng Covid-19. Bydd y pennawd hwn yn destun adolygiad ar ffyrdd newydd o weithio.

### 2.3 **Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol (GGYCR)**

#### **Chwarter 1: niwtral.**

Yn sgil yr argyfwng Covid-19 fe roddwyd hawl un-tro gan Llywodraeth Cymru i gario unrhyw danwariant yn erbyn grant 2020/21 ymlaen i'w wario hyd at 31/08/2021. Fe drosglwyddodd £997k o grant o'r flwyddyn 2020/21. Mae hwn bellach wedi ei wario o fewn y cyfnod.

### **3. CRONFA TANWARIANT**

3.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn gyllidol 2021/22 oedd £563,530.

3.2 Amcangyfrifir bydd cyfanswm y gronfa yn £612,335 ar ddiwedd 2021/22, wedi ystyried y tanwariant a ragwelir uchod.

### **ATODIADAU**

Atodiad 1: Cyllideb GwE 2021/22 – Adolygiad Chwarter 1af.

### **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

#### **Y Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

#### **Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Cyd-awdur yr adroddiad.

## CYD-BWYLLGOR GwE - CYNGHORAU GOGLEDD CYMRU - Adolygiad Cyllid 2021/22 : Chwarter Cyntaf Ebrill - Mehefin 2021

	Cyllideb Agoriadol £	Addasiadau £	Cyllideb Diwygiedig £	Gwariant Rhagwelir £	Gor / (Tan) Wariant Net £
<b>Gwariant</b>					
Gweithwyr					<b>Adroddiad</b>
Cyflogau					
- Rheolaeth, Broceru, Safonau a Gweinyddiaeth	924,341		924,341	924,341	0
- Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant	3,860,941		3,860,941	3,860,941	0
- Staff ar Secondiad	22,108	21,472	43,580	43,580	0
- Trosglwyddo yn erbyn 'Prosiectau Penodol'	(1,820,533)		(1,820,533)	(1,820,533)	0
Hyfforddiant, hysbysebu a costau gweithwyr eraill	42,588		42,588	42,588	0
Adeilad					
Rhent (yn cynnwys gwasanaethau)	173,245		173,245	173,245	0
Ad-daliad Defnydd 'Prosiectau Penodol' o'r ystafelloedd	(58,833)		(58,833)	(34,319)	24,514
Cludiant					
Costau Teithio	137,264		137,264	63,945	(73,319)
Cyflenwadau a Gwasanaethau					
Dodrefn, offer, argraffu, post, ffôn, hurio stafelloedd ayb	72,980		72,980	72,980	0
Technoleg Gwybodaeth (cyfraniad i gronfa adnewyddu)	16,496		16,496	16,496	0
Ffioedd archwilio	11,454		11,454	11,454	0
Broceru	288,698		288,698	288,698	0
Costau Gwasanaethau Cefnogol Awdurdod Lletyol Cyngor Gwynedd					
Cyfreithiol	5,726		5,726	5,726	0
Adnoddau Dynol	9,818		9,818	9,818	0
Cyllid	42,456		42,456	42,456	0
Technoleg Gwybodaeth	46,957		46,957	46,957	0
Ymrwymadau Model Cenedlaethol	469,948		469,948	469,948	0
Prosiectau Penodol					
Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol	7,828,872	2,423,126	10,251,998	10,251,998	0
Grant Datblygu Disgyblion - Plant Mewn Gofal	1,030,400	1,354	1,031,754	1,031,754	0
Grant Datblygu Disgyblion - Cynghorydd Strategol	100,000	2,787	102,787	102,787	0
Grant Datblygu Disgyblion - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm	148,678	6,964	155,642	155,642	0
Athrawon Newydd Gymhwysu (ANG)	346,769		346,769	346,769	0
Trawsnewid Y System Ady	75,295		75,295	75,295	0
Rhaglen defnydd anffurfiol o'r Gymraeg (3-18 oed)	0	207,720	207,720	207,720	0
Ein Llais Ni – Cynllun Llafaredd	0	210,900	210,900	210,900	0
<b>Cyfanswm Gwariant</b>	<b>13,775,668</b>	<b>2,874,323</b>	<b>16,649,991</b>	<b>16,601,186</b>	<b>(48,805)</b>

	Cyllideb Agoriadol £	Addasiadau £	Cyllideb Diwygiedig £	Gwariant Rhagwelir £	Gor / (Tan) Wariant Net £
<b><u>Incwm</u></b>					
Cyfraniadau ar gyfer costau rhedeg y gwasanaeth craidd					
- Cyngor Ynys Môn (20/21: 10.15% - 21/22: 10.16%)	(429,053)		(429,053)	(429,053)	0
- Cyngor Gwynedd (20/21: 17.63% - 21/22: 17.63%)	(744,676)		(744,676)	(744,676)	0
- Cyngor Conwy (20/21: 15.30% - 21/22: 15.28%)	(645,228)		(645,228)	(645,228)	0
- Cyngor Dinbych (20/21: 15.30% - 21/22: 15.36%)	(648,731)		(648,731)	(648,731)	0
- Cyngor Fflint (20/21: 22.68% - 21/22: 22.72%)	(959,441)		(959,441)	(959,441)	0
- Cyngor Wrecsam (20/21: 18.94% - 21/22: 18.86%)	(796,417)		(796,417)	(796,417)	0
Prosiectau Penodol					
Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol	(7,828,872)	(2,423,126)	(10,251,998)	(10,251,998)	0
Grant Datblygu Disgyblion - Plant Mewn Gofal	(1,030,400)	(1,354)	(1,031,754)	(1,031,754)	0
Grant Datblygu Disgyblion - Cynghorydd Strategol	(100,000)	(2,787)	(102,787)	(102,787)	0
Grant Datblygu Disgyblion - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm	(148,678)	(6,964)	(155,642)	(155,642)	0
Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG)	(346,769)		(346,769)	(346,769)	0
Trawsnewid Y System Ady	(75,295)		(75,295)	(75,295)	0
Rhaglen defnydd anffurfiol o'r Gymraeg (3-18 oed)	0	(207,720)	(207,720)	(207,720)	0
Ein Llais Ni – Cynllun Llafaredd	0	(210,900)	(210,900)	(210,900)	0
Incwm Secondiadau	(22,108)	(21,472)	(43,580)	(43,580)	0
<b>Cyfanswm Incwm</b>	<b>(13,775,668)</b>	<b>(2,874,323)</b>	<b>(16,649,991)</b>	<b>(16,649,991)</b>	<b>0</b>
<b>Cyfanswm Cyllideb Net</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>(48,805)</b>	<b>(48,805)</b>
<b><u>Memorandwm -</u></b>					
<b><u>Y Gronfa Tanwariant</u></b>					
				<b>Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill 2021</b>	<b>(563,530)</b>
				<b>Ychwaneger/Llai - (Tan)/Gorwariant am y flwyddyn gyllidol 2021/22</b>	<b>(48,805)</b>
				<b>Llai - Defnydd o'r Gronfa</b>	<b>0</b>
				<b>Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth 2022</b>	<b>(612,335)</b>



## ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

22 MEDI 2021

---

**Adroddiad gan:** Arwyn Thomas , Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Testun:** Cynllun Busnes Rhanbarthol 2021-2022 GwE – Adroddiad monitro chwarter 1

---

### 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno Adroddiad monitro chwarter 1 - Cynllun Busnes Rhanbarthol 2021-2022 GwE i'r Cyd-Bwyllgor.

### 2.0 Cefndir

2.1 Mae'r Cynllun Busnes yn amlinellu ein gweledigaeth, ein gwerthoedd a'n hymddygiad, y meysydd gwelliant â blaenoriaeth ar draws y rhanbarth.

2.2 Mae ein blaenoriaethau strategol yn arddel y blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol presennol. Adnabuwyd y prif feysydd i'w datblygu drwy broses hunan werthuso'r gwasanaeth. Cytunwyd ar y blaenoriaethau trosfwaol am 2021-2022 â'r Cyd-Bwyllgor ar 24 Chwefror 2021. Cytunwyd ar y cynllun busnes hwn yn ffurfiol gan Brif Swyddogion Addysg pob Awdurdod Lleol, y Cyd-Bwyllgor a'r Prif Weithredwr Arweiniol yng nghyfarfod y Cyd-Bwyllgor ar 26 Mai 2021.

2.3 Adroddir yn chwarterol ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes Rhanbarthol i'r Cyd-bwyllgor. Ynglwm mae'r adroddiad monitro ar gyfer chwarter 1.

### **3.0 Ystyriaethau**

**3.1** Y Rheolwr Gyfarwyddwr a Chadeirydd y Bwrdd Rheoli sydd â chyfrifoldeb am gyflawni'r Cynllun Rhanbarthol fel swyddogion atebol. Y Cyd-bwyllgor sydd yn atebol yn y pen draw am gyflwyno'r cynllun.

**3.2** Mae Fframwaith Cynllunio Busnes GwE yn sicrhau eglurder a chytgord strategol wrth gyflawni blaenoriaethau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Drwy gydol y flwyddyn, bydd adroddiadau yn ymwneud â'n ffrydiau blaenoriaeth yn y Cynllun Busnes yn cael eu bwydo drwy ein grwpiau llywodraethu.

**3.3** Cefnogir y blaenoriaethau yma gan gynlluniau manwl y gwasanaeth sy'n nodi'r cymorth a'r ddarpariaeth sydd ar gael i bob ysgol yn y rhanbarth. Amlinellir sut a phryd y bydd pob blaenoriaeth yn cael ei chyflawni ac yn gosod disgwyliadau o ran y camau nesaf wrth gyflawni'r daith ddiwygio.

**3.4** Mewn perthynas â sut mae GwE am ymateb i effeithiau ôl-covid yng nghyd-destun Addysg, mae cynlluniau manwl y gwasanaeth yn cyfarch hyn, yn ogystal â'r Strategaeth Rhanbarthol 'Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr'. Drwy weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol a gwranddo arnynt, rydym wedi adnabod themâu penodol i gefnogi ein nod o sicrhau bod pob dysgwr yng ngogledd Cymru yn cael darpariaeth o'r safon uchaf. Mae eu hiechyd meddyliol a'u lles emosiynol, eu perthnasau a'u hiechyd corfforol oll yn alluogwyr hanfodol dysgu da. Byddwn yn cefnogi ysgolion i ganolbwyntio ar y meysydd hyn yn ogystal â datblygu'r sgiliau galluogi allweddol sy'n cynnwys llafaredd, llythrennedd, rhifedd, cynllunio, trefnu a meddwl yn feirniadol. Yn ogystal, bydd ymweliad cychwynnol yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant ar ddechrau'r flwyddyn yn ffocysu ar anghenion yr ysgolion, gan gymryd i ystyriaeth effaith Covid. Bydd gwybodaeth gyfansawdd yn deillio o'r ymweliadau yma yn bwydo cynlluniau cefnogi ysgolion, a byddwn yn mireinio ein cynlluniau busnes i adlewyrchu hynny.

### **4.0 Argymhellion**

**4.1** Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo a derbyn yr adroddiad monitro ar gyfer chwarter 1.



4.2 Penderfynu a oes unrhyw agweddau y dymunant eu trafod ymhellach mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

#### **5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

#### **6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

#### **7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

#### **8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghori â'r Bwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-Bwyllgor.

#### **9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad 1 - Adroddiad monitro chwarter 1

Atodiad 2 – Data Rhanbarthol

---

### **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

#### **Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

#### **Swyddog Cyllid Statudol:**

Rwy'n gwerthfawrogi'r Cynllun Busnes, sy'n nodi cyfrifoldeb clir am weithrediad priodol ym meysydd busnes, risg, a gwerth am arian, ymhlith eraill. Mae paragraff 5 o'r adroddiad blaen yn datgan bydd GwE yn ariannu unrhyw oblygiadau ariannol sy'n deillio o'r Cynllun Busnes o fewn ei gyllideb gyfredol.



Cydweithio · Dysgu · Llwyddo  
Collaborating · Learning · Succeeding

Atodiad 1



# Cynllun Busnes GwE 2021-2022 Adroddiad Cynnydd Chwarter 1



[www.gwegogledd.cymru](http://www.gwegogledd.cymru)



@GwEGogleddCymru



## CYNNWYS

### 1. Cynllun Busnes Rhanbarthol GwE 2021-2022

- **Blaenoriaethau rhanbarthol a darpariaeth sy'n cyfrannu at flaenoriaethau awdurdod lleol – Adroddiad Cynnydd Chwarter 1**

### 2. Atodiad: Data Rhanbarthol

**AMCAN 1 – CWRICWLWM AC ASESU**

**Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol gyda thegwch a rhagoriaeth wrth ei wraidd sy'n gosod safon uchel i bob dysgwr**

**CONTINWWM ADDYSG 3 I 16**

**Sicrhau cefnogaeth i bob ysgol wrth ymateb i'r daith ddiwygio addysg, gyda phwyslais cryf ar y pedwar diben, y 12 egwyddor addysgeg ac ymchwil gweithredol**

Mae hyfforddiant eang lefel uchel ar y Daith Ddiwygio wedi'i ddarparu i arweinwyr ysgol ar draws y rhanbarth a bydd yn parhau y tymor nesaf (cyfeiriwch at Wireddu'r Cwricwlwm). Mae pob arweinydd ysgol wedi cael cynnig gweithdai ar weledigaeth a chynllunio cwricwlwm ar gyfer Cwricwlwm i Gymru (CiG) sydd wedi cwmpasu meddwl cynnar ar gyfer cynllunio ar gyfer cynnydd a lle'r 12 egwyddor addysgeg yn y cwricwlwm.

Mewn ysgolion uwchradd, mae arweinwyr dysgu ac addysgu mewn ysgolion wedi bod yn rhan o drafodaethau trwy fforymau ar yr hyn maent yn eu gweld yn gryfderau ac anghenion datblygu ar gyfer gwella addysgeg yn eu hysgolion, gaiff ei fwydo i mewn i'r cynnig o fis Medi ymlaen. Ar gais, mae rhai ysgolion wedi derbyn mewnbyn ar beth sy'n gwneud dysgu ac addysgu da ar gyfer cynnydd, gyda hyfforddiant wedi'i ddatblygu yn seiliedig ar y 12 egwyddor. Mae'r gwaith cynllunio ar gyfer y cynnig Dysgu ac Addysgu yn parhau.

**Sicrhau defnydd da neu well o strategaethau asesu ffurfiannol ym mhob ysgol**

**Prosiect Ymchwil Gweithredol GwE a Shirley Clarke – Haen 3**

Mae'r prosiect Ymchwil Gweithredol Asesu Ffurfiannol (GwE a Shirley Clarke) wedi bod yn weithredol yn y rhanbarth ers mis Hydref 2017. Mae'r prosiect yn datblygu'n effeithiol ac fe gaiff ei weithredu mewn patrwm o haenau, gan roi egwyddorion addysgeg ar waith mewn dosbarthiadau ar sail tystiolaeth gadarn.

Cynhaliwyd cyfres o 10 gweithdy adolygu rhithiol yn ystod mis Mawrth 2021 i ddiweddarau athrawon Haen 3 ac i:

- Adolygu'r cyfnod o fis Mawrth 2020 – agweddau o asesu ffurfiannol sydd wedi gweithio'n dda drwy ddysgu o bell a dysgu cyfunol, hefyd unrhyw agweddau sydd wedi bod yn heriol.
- Casglu barn athrawon ar eu hanghenion i'r dyfodol o ran cefnogaeth i esblygu gwaith y prosiect yng nghydestun CiG.

Nodwyd gan bron bob ysgol bod y gwaith a ymgymerwyd ar wahanol agweddau o'r prosiect wedi cael effaith gadarnhaol ar y cyfnod clo. Roedd arferion oedd wedi'u sefydlu a'u gwreiddio yn flaenorol mewn ysgolion wedi arwain at drawsnewid weddol esmwyth at ddysgu o bell a dysgu cyfunol. Er enghraifft, roedd ymwybyddiaeth o Feddylfryd Twf a Phwerau Dysgu wedi helpu i ysgogi dysgwyr a chynnal gwydnwch a hyder. Lle nad oedd strategaethau eisoes wedi bod yn rhan o ymchwil gweithredol athrawon a heb eu gwreiddio eto, nodwyd bod eu datblygu / gweithredu mewn sefyllfa dysgu o bell wedi bod yn heriol. Er enghraifft, roedd y dysgwyr yn ei gweld yn anodd dod o hyd i gymhelliant, dysgwyr ddim yn defnyddio Amcanion Dysgu a Meini Prawf Llwyddiant yn hyderus a llwyddiannus.

Adroddwyd cynnydd gan sawl ysgol yn nealltwriaeth ac ymwybyddiaeth rhieni o ddefnydd strategaethau asesu ffurfiannol yn ystod y cyfnod clo, gan eu bod yn rhan o'r broses o gefnogi dysgu o adref. Er enghraifft, roedd Meini Prawf Llwyddiant yn eu helpu i gefnogi eu plentyn, a rhoi iddynt well ddealltwriaeth o brosesau adborth yr ysgol.

Nodwyd bod gallu rhoi adborth llafar parhaol yn rheolaidd, fel sy'n digwydd yn naturiol ar lawr dosbarth, wedi bod yn anodd mewn sefyllfa dysgu o bell. Ond, mae datblygu addysgu o bell a defnydd o wahanol offer digidol dros y flwyddyn wedi bod o gymorth.

Yn ychwanegol at hyn, mae athrawon Haen 3 wedi'u gwahodd i gwblhau 2 holiadur i fesur effaith gweithredu'r prosiect ar agweddau o asesu ffurfiannol ac arferion gaiff eu llywio gan dystiolaeth. Bydd y darganfyddiadau ar gael erbyn diwedd chwarter 2.

## **Sicrhau cysondeb mewn negeseuon a chefnogaeth i ysgolion ynglŷn â'r 4 diben a'r 12 egwyddor addysgeg ar draws rhwydweithiau, ac mewn hyfforddiant a chefnogaeth gan GwE**

Mae tîm GwE wedi ymgymryd â Dysgu Proffesiynol y Daith Ddiwygio a chydweithio wythnosol dros y 6 mis diwethaf gyda'r Athro Graham Donaldson, ac mae hyfforddiant cymell diweddar wedi rhoi gwell dealltwriaeth i'r holl Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant o Gwricwlwm i Gymru (CiG) ynghyd â chyfres o sgiliau hyfforddi cadarn i allu cefnogi ysgolion wrth iddynt baratoi ar gyfer CiG o fis Medi.

Mae nodweddion allweddol o addysgeg lwyddiannus yn ystod y dysgu sy'n arwain at gam cynnydd 1 wedi'u rhannu gyda'r Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant. Mae hyn wedi gwella eu dealltwriaeth o ba mor effeithiol ydy addysgeg sy'n canolbwyntio ar y dysgwr a'i bod yn allweddol er mwyn gwireddu Cwricwlwm i Gymru.

## **Sicrhau cefnogaeth i bob ysgol wrth ymateb i'r daith ddiwygio addysg, gyda phwyslais cryf ar y pedwar diben, 12 egwyddor addysgeg ac ymchwil gweithredol**

Mae hyfforddiant eang lefel uchel ar y Daith Ddiwygio wedi'i ddarparu i arweinwyr ysgol - (cyfeiriwch at Wireddu'r Cwricwlwm).

Cefnogaeth Cynradd - cyfeiriwch at Amcan 2 - Cyfnod Sylfaen, Llythrennedd, Rhifedd, Digidol.

Cefnogaeth Uwchradd – mae pob arweinydd ysgol wedi cael cynnig gweithdai ar weledigaeth a chynllunio cwricwlwm ar gyfer CiG sydd wedi cwmpasu meddwl cynnar ar gyfer cynllunio ar gyfer cynnydd a lle'r 12 egwyddor addysgeg yn y cwricwlwm. Mae arweinwyr Dysgu ac Addysgu mewn ysgolion wedi bod yn rhan o drafodaethau trwy fforymau ar yr hyn maent yn eu gweld yn gryfderau ac anghenion datblygu ar gyfer gwella addysgeg yn eu hysgolion, gaiff ei fwydo i mewn i'r cynnig o fis Medi ymlaen. Ar gais, mae rhai ysgolion wedi derbyn mewnbwn ar beth sy'n gwneud dysgu ac addysgu da ar gyfer cynnydd, gyda hyfforddiant wedi'i ddatblygu yn seiliedig ar y 12 egwyddor.

## **Asesu: Sicrhau cysondeb yn nealltwriaeth yr ysgolion o egwyddorion allweddol y canllaw asesu newydd – tri diben asesu – o ddydd i ddydd, adnabod a dal cynnydd a deall cynnydd grŵp**

Fel rhan o weithdai wythnosol GwE i'r Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant, cyflwynwyd yr elfennau allweddol o Ganllaw Asesu newydd Cwricwlwm i Gymru i Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant GwE, gan roi cyfle iddynt ymfyfarwyddo gydag elfennau allweddol y canllaw cenedlaethol. Fel rhan o gyflwyniadau rhanbarthol i arweinwyr ysgolion yn y chwe Awdurdod Lleol, cyflwynwyd yr elfennau allweddol o'r canllaw asesu newydd mewn sesiynau i ddalgychoedd / clystyrau gydag esiamplau posibl o sut gall edrych o fewn ysgol.

## **Trawsnewid: Cefnogi a chyd-gynllunio dulliau trawsnewid ar gyfer haf 2021 gyda'r clystyrau. Datblygu cydweithio traws-sector ar drawsnewid a rhannu arfer dda**

Mae bron pob ysgol wedi bod ar hyfforddiant sydd wedi mynd i'r afael ag agweddau o drawsnewid. Mae tîm GwE wedi'u huwchgilio mewn agweddau o drawsnewid fel strategaethau llwyddiannus ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth ansoddol. Mae camau cychwynnol wedi'u dilyn i fynd i'r afael â'r meini prawf llwyddiant, fodd bynnag, bydd angen rhoi sylw pellach ar y rhain yn nhymer yr Hydref 2021 er mwyn sicrhau effaith ar y dysgwyr, trwy ysgolion yn rhannu a modelu arferion llwyddiannus a thrwy waith rhanbarthol y MDPH.

### **GWIREDDU'R CWRICWLWM (CWRICWLWM I GYMRU)**

## **Sicrhau cefnogaeth i ysgolion mewn cysylltiad â Chynllun Cwricwlwm ysgol gyfan ac o fewn Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDPh)**

### **Cefnogi'r ysgolion ar hyd y daith at 2022 gan ddarparu dysgu proffesiynol ar gyfer y cwricwlwm newydd**

Fel rhan o'r gefnogaeth i ysgolion ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru, mae GwE wedi gweithio gyda'r consortia rhanbarthol eraill i ddatblygu cynnig dysgu proffesiynol cenedlaethol sy'n cyfuno pob agwedd o'r diwygio ehangach gan gynnwys Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu, Y Gymraeg (tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050) a Bil Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae'r cynnig traws-ranbarthol hwn yn anelu at gefnogi pob ymarferydd ysgol, ac yn canolbwyntio yn y lle cyntaf ar Uwch arweinwyr gyda'r themâu canlynol:

- Arwain Newid
- Arweinyddiaeth ar gyfer y cwricwlwm newydd
- Datblygu Cyd-weledigaeth
- Cynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm – i gynnwys cynllunio cwricwlwm, cynnydd ac asesu
- Arwain Addysgeg

- Amser a Lle ar gyfer Dysgu Proffesiynol

Roedd y cynnig dysgu proffesiynol hwn wedi'i drefnu yn wreiddiol i ddechrau yn nhymor y gwanwyn 2020, fodd bynnag cafodd ei oedi'n naturiol oherwydd blaenoriaethau pandemig Covid-19. Mewn trafodaethau gyda Phenaethiaid ar draws GwE, bu i'r dysgu proffesiynol aildechrau yn rhithiol ym mis Ionawr 2021 gyda'r sesiwn Arwain Newid. Mae'r sesiynau hyn ar draws y rhanbarth yn seiliedig ar glystyrau ac yn galluogi grwpiau llai o ysgolion cynradd a'u hysgol uwchradd leol i drafod y Cwricwlwm newydd i Gymru ar draws y continwmm 3-16. Ar draws y rhanbarth, aeth 832 o Uwch arweinwyr i'r sesiynau Arwain Newid hyn. I gydnabod bod ysgolion yn ail-agor i'r holl ddysgwyr ym mis Mawrth a mis Ebrill, bu oedi unwaith eto gyda'r sesiynau Arwain Newid ym mis Mawrth 2021. Yn dilyn trafodaethau gyda'r Cyfarwyddwyr Addysg trwy Fwrdd Rheoli GwE, cynhaliwyd cyfres o weithdai ymgynghorol ym mis Ebrill 2021 ym mhob Awdurdod Lleol i wrando ar adborth gan Benaethiaid ar y cynnig dysgu proffesiynol a sut oedd ail-ymgysylltu orau. Roedd dros 300 o benaethiaid yn rhan o'r ymgynghoriadau.

I gefnogi ail-ymgysylltu gyda'r gwaith Cwricwlwm i Gymru, mae sesiwn cynllunio arweinyddiaeth pellach wedi'i drefnu ar gyfer pob clwstwr unigol ar draws y rhanbarth i adeiladu capasiti o glystyrau i gydweithio ar draws anghenion y daith ddiwygio fel un a llunio cynllun gweithredu cytunedig ar gyfer pob clwstwr. Fel rhan o hyn, mae pob Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant wedi hwyluso sesiynau lle mae gan ysgolion o fewn clwstwr gyfle i gydweithio i gynllunio'n strategol ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm. Mae mabwysiadu dull hyblyg a sensitif at amseru'r sesiynau hyn wedi bod yn elfen allweddol o'r trafodaethau rhwng GwE, yr awdurdod lleol ac ysgolion. Mae gweithgareddau i gefnogi paratodau ar gyfer y cwricwlwm newydd ar lefel ysgol a chlwstwr wedi'u hadnabod o fewn Cynlluniau Datblygu Ysgol.

Mae'r defnydd o dechnoleg i gyd-ddatblygu cynlluniau clwstwr a gwefannau yn sicrhau bod y ddeialog yn un barhaus ac mae Uwch arweinwyr yn gallu parhau gyda'r gwaith hwn, yn dilyn trafodaethau yn ôl ar lefel ysgol unigol. Yn ychwanegol at y cynnig Dysgu Proffesiynol, mae cefnogaeth ychwanegol ar gael gan GwE i ysgolion wrth iddynt baratoi ar gyfer Cwricwlwm i Gymru. Bydd y gefnogaeth ar gael ar lefel clwstwr yn ogystal â lefel ysgol unigol, gan gynnwys cefnogaeth wedi'i theilwra lle bo angen.

Mae cefnogaeth bellach sydd ar gael i ysgolion hefyd yn cynnwys cyfres o 'Papurau Procio' wedi'u hysgrifennu gan dîm GwE fel rhan o'r sesiynau diwygio wythnosol gyda'r Athro Graham Donaldson. Mae'r papurau hyn, sy'n mynd i'r afael ag elfennau allweddol o daith ddiwygio'r cwricwlwm gan gynnwys arweinyddiaeth, gweledigaeth, addysgeg, asesu a chynllunio cwricwlwm, wedi'u rhannu a'u mireinio drwy ymgynghoriad gyda phartneriaid ehangach yn yr Awdurdodau Lleol, Estyn a Phrifysgol Bangor. Cafodd yr holl uwch arweinyddion eu gwahodd i fynychu gweminar ym mis Mai 2021 i egluro a rhannu'r gwaith hwn ar y Darnau Meddwl.

#### TIMAU MEYSYDD DYSGU A PHROFIAD (MDPh)

##### **Darparu cynnig dysgu proffesiynol i'r 6 MDPH**

Elfen allweddol wrth symud ymlaen fydd cefnogi ysgolion i ddatblygu rhwydweithiau ar draws y chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh). Fel rhan o flaenoriaethau'r cynllun busnes, bydd GwE yn gwahodd ac yn hwyluso cyfleoedd i ymarferwyr ysgolion ymgysylltu gyda chyfoedion i ystyried cynllunio cwricwlwm o fewn ac ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad i gwrdd ag anghenion pob dysgwr i wireddu pedwar diben y cwricwlwm newydd.

Bydd unigolion yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Athro Graham Donaldson, GwE a'r chwe Awdurdod Lleol yng ngogledd Cymru i ddatblygu arfer MDPH effeithiol fydd yn helpu ysgolion ar y Daith Ddiwygio. Y bwriad ydy sefydlu 'timau datblygu lleol' ym mhob ALI fydd yn cyfrannu at gynllunio rhanbarthol a rhannu arferion cwricwlwm. Bydd hwn yn gyfle i ymarferwyr o bob sector gydweithio yn eu maes o ddiddordeb am hyd at uchafswm o 15 diwrnod o ddatblygu proffesiynol rhwng heddiw a mis Ebrill 2022 i ddechrau.

#### AMCAN 2- DATBLYGU PROFFESIWN ADDYSG O SAFON UCHEL

##### Gwella'r dysgu ac addysgu yn ein hysgolion

#### IEITHOEDD TRAMOR MODERN (ITM)

Cydweithio'n effeithiol gyda gwahanol bartneriaid i hyrwyddo ieithoedd yn y sector cynradd ac uwchradd ar draws y rhanbarth.

## **Hyrwyddo dysgu ac addysgu ieithoedd rhyngwladol.**

### **Darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol i uwchsgilio'r gweithlu.**

#### **Sector cynradd:**

Ysgolion arweiniol / pecynnau cychwyn - mae'r 9 ysgol arweiniol gynradd ar drac wrth gwblhau eu fideo/tiwtorial i gefnogi ysgolion i gyflwyno ieithoedd rhyngwladol yn eu cwricwlwm. Caiff y rhain eu rhannu ar Ganolfan Cefnogaeth GwE yn barod ar gyfer mis Medi 2021.

Caiff dysgu ac addysgu ieithoedd rhyngwladol ei hyrwyddo trwy gyhoeddi'r cynnig ar fwletin GwE a'r Cylchlythyr ITM a thrwy nifer o gyflwyniadau yn y sector cynradd. Hyd yma, mae 14 ysgol wedi cofrestru ar gyfer yr adnoddau Power Language ar gyfer mis Medi 2021. Roedd 5 wedi cofrestru a mynychu ail rownd o hyfforddiant Cerdd Iaith ar Fehefin yr 22ain 2021. Golyga hyn, ynghyd â'r hyfforddiant ym mis Tachwedd / mis Rhagfyr, bod 20 o athrawon ar draws y rhanbarth wedi'u hyfforddi i ddefnyddio'r adnoddau Cerdd Iaith.

Mae 5 ysgol wedi mynegi diddordeb yng nghwrs Athrawon yn Dysgu i Addysgu Ieithoedd (TELT) y BA ar gyfer mis Hydref 2021. Mae 14 o athrawon yn cwblhau cwrs TELT y BA ac mae cyfarfodydd dilynol wedi'u trefnu i rannu profiadau a chynllunio'r camau nesaf i ddatblygu ieithoedd rhyngwladol yn eu hysgolion ac i gefnogi athrawon eraill yn y rhanbarth.

#### **Sector uwchradd:**

Mae cefnogaeth a hyfforddiant parhaus wedi'u darparu i'r 7 ANG ITM yn y rhanbarth trwy gyfarfodydd rheolaidd. Mae cefnogaeth barhaus wedi'i darparu i 4 ysgol unigol yn dilyn ceisiadau gan Benaethiaid. Mae'r gefnogaeth yn canolbwyntio ar gynllunio, asesu a chynnydd, marcio a chymedroli asesu a Graddau a bennir gan y Ganolfan (CDG). Darparwyd hyfforddiant i athrawon dan hyfforddiant ITM; roedd y canolbwynt ar wahanol agweddau o ddysgu ITM a'r Cwricwlwm i Gymru. Darparwyd cefnogaeth i ysgolion / adrannau unigol wnaeth gysylltu gyda thîm GwE.

#### **Prosiect Creu ar draws Ieithoedd (Barddoniaeth Greadigol):**

Mae'r gwaith a'r cydweithio gyda Phrifysgol Bangor yn mynd yn ei flaen yn dda. Mae fideos o weithdai gyda beirdd ledled y byd wedi'u cwblhau a bydd yr holl adnodd wedi'i gwblhau ym mis Gorffennaf gan y tîm. Bydd ysgolion yn treialu a datblygu'r adnoddau ymhellach ac yn gweithio gyda'r tîm o fis Medi 2021 ymlaen.

## **CALU - LIDCD**

**Cynnal datblygiad proffesiynol cymorthyddion dysgu drwy weithredu'r rhaglen hyfforddiant ar draws y rhanbarth.**

**Cynnal datblygiad proffesiynol cymorthyddion dysgu profiadol drwy weithredu'r rhaglen CALU ar draws y rhanbarth.**

### **Cymorthyddion addysgu sydd newydd eu penodi**

Monitrowyd effeithiolrwydd y rhaglen 'Ymsefydlu' digidol a weithredwyd yn ystod 2020-2021 gan ei addasu yn unol â'r adborth ac unrhyw ddiweddariadau ar gyfer 2021-22. Cwblhaodd 103 cymhorthydd y pedwar modiwl yn ystod 2020-21 ac oherwydd y darparwyd mynediad at y rhaglen ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd, gwelwyd bod cymorthyddion yn cofrestru ar gyfer yr hyfforddiant ar wahanol adeg o'r flwyddyn academaidd. Bu i dri cymhorthydd gofrestru yn ystod tymor yr haf 2021. Derbyniwyd adborth cyffredinol positif iawn i'r hyfforddiant hwn yn ystod y flwyddyn gyda'r mwyafrif yn nodi bod yr hyfforddiant wedi cael effaith uchel ar eu hymarfer.

### **Cymorthyddion addysgu wrth eu gwaith**

Bu i'r rhaglen hyfforddiant ar gyfer cymorthyddion profiadol gael ei rewi o Fawrth 2020 hyd at ddiwedd haf 2021 oherwydd y pandemig. Yn dilyn trafodaethau cenedlaethol, penderfynwyd addasu'r rhaglen wreiddiol ar gyfer y llwyfan digidol. Bydd y rhaglen hon ar gael i'w chynnig ym Medi 2021. Bydd angen hyfforddi'r hwylyswyr i gyflwyno'r rhaglen ar lwyfan digidol a bydd angen cytuno dyddiadau ar gyfer cynnal yr hyfforddiant ar gyfer y rhanbarth, ynghyd a chysylltu gyda'r clystyrau oedd yn awyddus i gynnig yr hyfforddiant i'w cymorthyddion er mwyn trefnu dyddiadau newydd.

## **Darpar CALU**

Darparwyd hyfforddiant ar gyfer 29 cymhorthydd ar y rhaglen Darpar CALU Cylch 1, gyda 26 (90%) ohonynt wedi cwblhau y rhaglen hyfforddi gyflawn, sef 1 diwrnod wyneb yn wyneb ac 8 sesiwn ddigidol. Cyn cychwyn sesiynau digidol, bu i 3 cymhorthydd benderfynu trosglwyddo i Cylch 2 oherwydd newid swydd a salwch.

Oherwydd nad oedd rhaid cyfyngu ar niferoedd wrth gyflwyno'r rhaglen Darpar CALU yn ddigidol, darparwyd hyfforddiant ar gyfer 50 cymhorthydd ar y rhaglen Darpar CALU Cylch 2. Derbyniwyd 49 cais yn ogystal ar gyfer Cylch 3 sy'n dangos niferoedd iach ar draws y rhanbarth. Bydd y 4 sesiwn olaf o hyfforddiant ar gyfer CALU Cylch 2 yn cael ei gynnal yn ddigidol yn ystod mis Hydref/Tachwedd 2021.

Cynhaliwyd 19 cyfarfodydd dewisol unigol gyda'r Cydlynnydd CALU ar gyfer cymorthyddion Cylch 2 yn ystod y tymor er mwyn gwneud yn iawn am ddiffyg cyswllt wyneb yn wyneb. Cafodd hyn effaith cadarnhaol iawn ar y cymorthyddion gyda llawer wedi gwella safon eu myfyrdodau dysgu proffesiynol yn dilyn y cyfarfodydd hyn. Mae'r sylwadau a dderbyniwyd gan gymorthyddion, hwyluswyr ac aseswyr yn nodi llawer gwell dealltwriaeth gan gymorthyddion o'r Safonau Proffesiynol a Cwricwlwm i Gymru yn dilyn yr hyfforddiant. Gwelwyd hefyd bod cymorthyddion wedi gwerthfawrogi cael cyd-weithio gyda chymorthyddion eraill ar draws y rhanbarth ac yn genedlaethol a bod eu sgiliau digidol wedi datblygu gyda'r sesiwn dechnegol wedi bod o gymorth mawr gyda hyn.

### **Statws CALU**

Yn dilyn mynychu 8 sesiwn ddigidol Darpar CALU, bu i 89% o gymorthyddion Darpar CALU Cylch 1 wneud cais am asesiad statws CALU. Roedd 11%, nad oedd wedi llwyddo i gael digon o brofiad addysgu dosbarth, neu na lwyddodd i ennill cymhwyster Llythrennedd/Rhifedd lefel 2 oherwydd effaith Covid. Bydd y rhain yn derbyn asesiad gyda chymorthyddion Cylch 2.

Recruiwtwyd a hyfforddwyd 21 o aseswyr ar draws y rhanbarth ar gyfer Cylch 1. Cymedrolwyd pob asesiad yn rhanbarthol a sampl o chwech yn genedlaethol. Bodlonwyd 22/23, gydag 1/23 yn derbyn barn 'ni fodlonwyd eto' oherwydd diffyg profiad yn arwain dosbarthiadau cyfan o ganlyniad i Covid.

## **Y Gymraeg**

### **Gwaith Clwstwr**

Mae nifer o gyfarfodydd wedi eu cynnal gyda'r Awdurdodau Lleol, ac o ganlyniad, llwyddwyd i gytuno ar egwyddorion ar gyfer y rhaglen waith am y flwyddyn. Mae hyn wedi arwain at gysondeb gweithredu cychwynnol ar draws y gogledd. Crëwyd taenlen 'dashfwrdd' newydd ar gyfer y Gymraeg mewn ymgynghoriad â'r Awdurdodau er mwyn coladu'r holl wybodaeth am gynllunio, costau, ac adrodd ar gynnydd - bydd yn cael ei gyflwyno i'r ysgolion ym Medi 2021. Yn ychwanegol i'r grŵp rhanbarthol, mae pob Awdurdod wedi cyfarfod yn rheolaidd gyda'r YCG cyswllt a'r cyfarfodydd yma yn gyfle i wyntyllu amrywiaethau, anghenion a thrafod datrysiadau lleol. Bydd angen ail-afael â'r trafodaethau yn fuan ym mis Medi er mwyn sicrhau fod y cynlluniau yn bwrpasol ac yn eu lle i wneud defnydd effeithiol o'r gwariant. Bwriedir sicrhau momentwn i'r gwaith drwy gyfres o gyfarfodydd rhithiol dilynol.

### **Datblygu'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg - 'Siarter Iaith' a 'Cymraeg Campus'.**

Mae'r Cydlynwyr Siarter Iaith (SI) wedi cwblhau adroddiadau cynnydd ac mae adroddiad cyfansawdd yn y broses o gael lunio a'i rannu gyda Llywodraeth Cymru (LIC). Mae cyllid i bob clwstwr wedi ei glustnodi er mwyn cefnogi gweithgareddau Siarter Iaith a Cymraeg Campus, â'r Cydlynwyr Siarter Iaith yn rhan o'r trafodaethau gyda'r clystyrau i bwrpas cynllunio'r gwariant yn effeithiol. Mae trafodaethau lleol hefyd wedi eu cynnal ynglŷn â sut mae'r gweithgareddau yma yn cyfrannu tuag at weithrediad CSGA yr Awdurdodau (Deilliant 3 a 5). Mae cyfres o gyfarfodydd wedi eu cynllunio gyda LIC er mwyn sicrhau cysondeb gweithredu ar draws Cymru a bydd trafodaethau ar rolau'r Cydlynwyr SI ar draws y rhanbarth a dechrau cynllunio ar gyfer Ebrill 2022 yn cael eu cynnal y tymor nesaf.

### **Datblygu cynnig proffesiynol i'r Iaith Gymraeg sy'n rhan o Strategaeth Dysgu Carlam y rhanbarth**

Mae trafodaethau yn parhau o ran cydweithio gydag Awdurdodau Lleol i ddarparu cynnig proffesiynol ar gyfer adfer yr iaith Gymraeg sy'n rhan o Strategaeth Dysgu Carlam y rhanbarth (addysgeg ac adnoddau ymyraethau i gefnogi dysgwyr ar draws yr ystod gallu). O ran y camau nesaf, byddwn yn amlygu'r ddarpariaeth a'r camau datblygu proffesiynol nesaf i ysgolion gan sicrhau fod sylw pwrpasol yn cael ei roi i'r ddarpariaeth uwchradd – trochi a defnydd o'r Gymraeg mewn meysydd a phynciau eraill. Bwriedir darparu cyfres o weithdai gan ddyfnhau'r gwaith ymhellach wrth ymgorffori egwyddorion 'Ein Llais Ni' sef cynllun cwbl unigryw i hyrwyddo sgiliau llafaredd ein dysgwyr yng Ngogledd Cymru (gweler isod).



### **Datblygu sgiliau iaith y gweithlu**

Derbyniwyd data gan y Ganolfan Iaith Genedlaethol o ran hyfforddiant ar-lein Croeso: Ymarferwyr mewn Addysg (Rhan 1 a Rhan 2 tua 5 awr yr un). Mae 94 wedi cofrestru; 52 wedi cwblhau Rhan 1 (uned 1 – 5); a 43 wedi cwblhau Rhan 2 (uned 6 – 10).

Cynlluniau Sabothol – mae cwrs Cymraeg mewn blwyddyn yn cael ei gynig mewn 2 ran yn y Gogledd eleni.

- 12 wedi'u derbyn i wneud Rhan 1 (Medi – Rhagfyr)
- 9 yn parhau i Rhan 2 (Ionawr – Ebrill) efo 8 ychwanegol yn ymuno efo nhw.
- 5 ar y rhestr aros ar gyfer Rhan 2.

I grynhoi:

- 12 ar y cwrs Sylfaen (rhan 1)
- 17 ar y cwrs Canolradd (rhan 2)
- 20 unigolyn yn cael mynediad i'r cyrsiau efo 5 wrth gefn

Cefnogaeth i staff GwE – mae 8 wedi bod yn ymgymryd â'r hyfforddiant dysgu Cymraeg gan wneud Uned 5 o'r cwrs Canolradd, ac yn ymarfer at yr arholiad. Mae 4 wedi ymrwymo â'r Cynllun Siarad trwy'r Ganolfan Genedlaethol sef sesiynau i gael cyfle i sgwrsio gyda partneriaid o fewn GwE yn Gymraeg am awr yr wythnos, fel arfer am oddeutu 10 sesiwn. Mae cais newydd ei gyflwyno 'Cymraeg Gwaith' am fynediad i hyfforddiant pellach drwy'r cynllun.

### **Hyrwyddo proffil y Gymraeg ymysg arweinwyr i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru a tharged Miliwn o Siaradwyr LIC:**

#### **Prosiect Ein Llais Ni (ELIN) - cynllun cwbl unigryw i hyrwyddo sgiliau llafaredd dysgwyr**

Bwriad y cynllun yma yw rhoi'r gyfle i aildanio a gwreiddio sgiliau gwranddo a siarad wrth gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer Cwricwlwm i Gymru gan ystyried strategaethau dysgu ac addysgu llafaredd rhyngwladol. Mae cydweithio grymus eisoes ar waith rhwng y Brifysgol a'r Tîm Prosiect wrth gynllunio ar gyfer dechrau'r gwaith ymchwil ym Medi 2021. Bydd y cynllun yn rhoi cyfle i ysgolion gydweithio fel tîm ymchwil gweithredol mewn cydweithrediad â Phrifysgol Bangor a GwE gyda'r gwaith wedi'i gyllido gan Lywodraeth Cymru.

Mae llwybr clir wedi ei ddatblygu ar gyfer y prosiect ac yn rhoi sail cadarn iawn ar gyfer datblygu'r gwaith ymchwil gweithredol. Mae'r adborth gan ysgolion yn amlygu fod angen gwirioneddol am y math yma o gefnogaeth, yn enwedig o ystyried effeithiau Covid ar fedrau llafar a hyder y dysgwyr.

O ran y camau nesaf, byddwn yn cwblhau'r gwaith cynllunio ar gyfer lansio'r gwaith ym mis Medi ac yn amlygu'r rhaglen waith ar gyfer y prosiect ar draws y rhanbarth.

### **Datblygu Arweinyddiaeth**

Mae mapio cychwynnol wedi bod ar gyfer cynnal rhwydweithiau llythrennedd cynradd, a chyda Rhwydweithiau Cymraeg yn cyfarfod o ran yr uwchradd – 27 (cyfuniad o rhanbarthol a lleol) (gweler Cynllun Busnes Y Gymraeg a Llythrennedd). Byddwn yn cyd-weithio i gynllunio'r gweithdai sy'n cyd-fynd â'r strategaeth DP i baratoi ar gyfer y CiG gan ystyried cynnwys y rhaglen arweinyddiaeth ar gyfer datblygu arweinyddiaeth mewn perthynas â'r Gymraeg.

### **Datblygu Partneriaethau**

Mae cyfarfodydd cynllunio wedi eu cynnal gyda'r Awdurdodau sydd wedi arwain at rymuso'r cyd-weithio a rhannu adnoddau ymhellach gan amlygu'r anghenion ar draws yr awdurdodau. Yn ogystal, mae'r cydweithio wedi bod yn effeithiol o ran rhannu gwybodaeth a dulliau gweithredu ar draws awdurdodau er mwyn lleihau baich cynllunio.

Mae'r gwaith cenedlaethol rhwng y 4 rhanbarth ymhob cyfnod allweddol wedi parhau sydd wedi arwain at ddatblygu adnoddau clodwiw ar gyfer y sectorau cynradd ac uwchradd. Mae'r cyfarfodydd yn fodd i ddatblygu rhwydweithiau defnyddiol ac i ddyfnhau cydweithio ar sail angen yn yr ysgolion.

## LEFEL A

### Lleoliad rhanbarthol ALPs

Mae'r cytundeb ar gyfer flwyddyn nesaf wedi'i gytuno a bu ychydig o hyfforddiant yn rhanbarthol ar ddefnyddio ALPs yn y broses Graddau a bennir gan y Ganolfan (CDG) (Ebrill 2021). Bydd ALPs ar gael i'r holl ysgolion yn rhanbarthol i fewnbynnu graddau ac ymgymryd â gwerthusiad mewnol os ydynt yn dymuno.

### Datblygu arweinwyr i'r dyfodol: Cwrs Arweinyddiaeth Ôl-16

Yn dilyn adolygiad o'r rhaglen gyda'r cynrychiolwyr consortia eraill, caiff y cwrs ei gynnnig eto yn rhanbarthol yn nhymor yr Hydref 2021.

### Datblygu gwydnwch ac annibyniaeth mewn dysgwyr

Hyfforddiant yn y rhaglen VESPA. Mae sesiynau datblygu pellach wedi'u rhaglennu ar gyfer mis Medi / mis Hydref ar gyfer penaethiaid 6ed Dosbarth a thiworiaid. Bydd datblygiadau pellach a ffurf y rhain yn dibynnu ar gapasiti ac anghenion ysgolion wrth symud ymlaen.

### Rhwydweithio a rhannu arferion ar draws penaethiaid 6ed Dosbarth

Mae hyn wedi digwydd ar draws y chwe ALL yn ystor y tymor hwn gan rannu syniadau ar bynciau fel UCAS a chyflwyniad i'r 6ed dosbarth. Caiff hyn ei ddatblygu ymhellach y flwyddyn nesaf.

### E-sgol

Mae cefnogaeth yn parhau ar gyfer y 6 e-sgol beilot ac yn ehangu eu cwricwlwm ym mlwyddyn 12. Mae'r amserlen a phynciau newydd wedi'u trefnu gyda'r 6 ysgol yn ogystal â'r darparwr allanol Mudiad Meithrin yn darparu cwrs Cam wrth Gam.

### Sefydlu a gweithio gyda'r Bwrdd Strategol Rhanbarthol a Bwrdd Gweithredol Rhanbarthol i weithredu camau, gaiff eu codi ar ôl cyfarfod gyda chyfarwyddwyr y 6 ALL i lunio themâu cyffredin

Mae'r cyfarfodydd wedi'u cynnal ar draws y 6 awdurdod. Mae'r Bwrdd Strategol wedi cyfarfod eto. Bwrdd Gweithredol Rhanbarthol - mae angen aelodau allweddol ym mhob awdurdod. Caiff hyn ei ddatblygu ymhellach ym mis Medi.

## YMCHWIL A GWERTHUSO

- **Gweithredu prosiectau cydweithredol rhwng GwE a Phrifysgol Bangor (CIEREI).**
- **Datblygu ymchwil ac ymholiad agos at ymarfer, cydweithredol ac ar raddfa fawr ar draws yr ysgolion rhanbarthol.**
- **Hyrwyddo'r defnydd o fwy o strategaethau gaiff eu llywio gan dystiolaeth ar draws rhanbarth GwE.**
- **Ehangu cysylltiad Clystyrau ysgol gyfan mewn Ymchwil ac Ymholiad.**

Mae GwE yn gweithio'n agos gyda Phrifysgol Bangor ar Brosiect y Sefydliad Cydweithredol dros Ymchwil Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI) i sicrhau systemau gwerthuso cadarn ar gyfer eu rhaglenni datblygu ac i fesur eu heffaith mewn ysgolion fel rhan o ddull rhanbarthol. Cyfeiriwch at Gynllun Busnes Ail gynnu Dysgu am wybodaeth bellach ar brosiectau penodol.

Mae GwE hefyd wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar gam cychwynol y Strategaeth Genedlaethol NSERE ym 2021, a lansiwyd hyn ym mis Gorffennaf 2021. Bydd GwE nawr yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i adnabod chwe ysgol yng Ngogledd Cymru i fod yn rhan o beilot 2021-22 y fenter NSERE hon. Mae'r gwaith hwn yn parhau ochr yn ochr â chydweithwyr o Brifysgol Bangor yn nhymor yr hydref.

## AGA

### Cydweithio gyda'r Prifysgolion i sicrhau bod addysg gychwynol athrawon a'u sefydliad yn broses esmwyth.

Mae'r 4 consortia a'r darparwyr AGA wedi cydweithio eleni ar brosiect gan Lywodraeth Cymru i wella sgiliau mentora'r AGA a'r Mentor Sefydlu. Caiff y gweithdai tridiau eu cyd-gyflwyno ym mis Medi, mis Rhagfyr a mis Mai 2022. Mae 4 cynrychiolydd consortia a chydweithwyr AGA wedi cyflwyno diweddariad ar gynnydd i Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2021.

**Sicrhau cefnogaeth gadarn i garfan ANG 2021/22 GwE.**

Mae'r gronfa ddata ANG genedlaethol 2021-22 wedi'i datblygu gyda llawer o fyfyrwyr yn cofrestru ar gyfer y rhanbarthau. Mae GwE hefyd wedi cefnogi cyflwyno'r cynllun lleoliad i Athrawon Newydd Gymhwysu sy'n rhoi cyfle i rai ANG CTB presennol a rhai myfyrwyr SAC fynd ar leoliad tymor cyfan mewn un ysgol wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

### **Cydweithio gyda Phrifysgol Bangor i ddatblygu a hyfforddi athrawon sy'n dysgu yn y sectorau cynradd ac uwchradd.**

Mae'r gwaith o recriwtio myfyrwyr athrawon yn uchel ar draws y rhanbarth ac wedi bod yn codi dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae ansawdd rhaglenni AGA yn gadarn ac yn cael eu diweddarau a'u hadolygu ar hyn o bryd. Mae cysylltiadau gyda GwE yn effeithiol wrth ddarparu cefnogaeth ac adnoddau i'r partneriaethau gyda'r BA a CaBan. Mae gan hyn effaith gadarnhaol gadarn ar ymchwil, mentora a darpariaeth mewn ysgolion arweiniol, cysylltiol a phartneriaeth.

### **Gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o effaith gadarnhaol darpariaeth AGA o safon uchel ar ysgolion yn y rhanbarth.**

Nid ydy rhannu gwybodaeth drwy fforymau a sesiynau rhannu arfer orau wedi dechrau eto – wedi'u cynllunio ar gyfer tymor yr Hydref 2021. Caiff adran AGA y wefan ei diweddarau'n rheolaidd. Mae staff GwE yn parhau i ddarlithio ar raglenni AGA – er enghraifft, sesiynau addysgeg parhaol, cynnwys cysylltiad ysgolion arweiniol i sicrhau rhannu sgiliau a gwybodaeth ar draws y rhanbarth. Gyda mwy o ymwybyddiaeth yn y rhanbarth o ffyrdd i mewn i ddysgu, bydd ysgolion yn gallu adnabod a chefnogi dilyniant gyrfa staff yn effeithiol a gwella safon darpariaeth AGA yn y rhanbarth.

## **DIGIDOL**

### **Cadernid digidol**

Mae podlediad cadernid digidol wedi cael ei recordio er mwyn treialu y dull hwn o rannu gwybodaeth ac rydym yn aros am adborth cyn ei ddatblygu ymhellach. Mae GwE wedi cydweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyd-gynllunio rhaglen o ddarpariaeth ar gyfer eleni a bydd yn weithredol o mis Medi 2021.

### **Datblygu arweinyddiaeth ddigidol**

Bydd y rhaglen hwyluswyr digidol yn ail gychwyn yn mis Medi 2021. Mae 45 clwstwr eisioes wedi dewis hwyluswr. Mae offeryn hunan adolygu dysgu digidol wrthi'n cael ei ddylunio gan Llywodraeth Cymru fydd ar gael i bob ysgol fel sylfaen i'r Daith Ddysgu Digidol Proffesiynol. Nid oes dyddiad wedi ei bennu eto ar gyfer lansio'r offeryn hwn ond y disgwyliad yw y bydd hyn yn digwydd yn ystod tymor yr Hydref.

### **Cyfleoedd dysgu proffesiynol**

Mae data defnydd ysgolion y rhanbarth o lwyfan Hwb yn galanogol gyda cyfartaledd o 98.3% yn ei ddefnyddio'n rheolaidd. Lluniwyd cyfres o gyrsiau ar lein sy'n canolbwyntio ar wneud defnydd effeithiol o wasanaethau sydd ar gael drwy Hwb; Google for Education, J2E, Flipgrid, Adobe Spark. Mae'r cyrsiau hyn wedi cael eu dyunio ar sawl lefel er mwyn sicrhau fod datblygiad ar gael i ddefnyddwyr newydd ac i ddefnyddwyr mwy profiadol. Mae'r hyfforddiant yma ar ffurf cwrs sydd ar gael ar alw er mwyn sicrhau fod athrawon a chymorthyddion yn gallu cael mynediad ar amser sy'n gyfleus iddyn nhw. Hyd yn hyn mae'r cynnwys wedi cael ei wyllo 4140 o weithiau.

### **Cefnogaeth o ran y cwricwlwm newydd**

Er mwyn cefnogi gweithgareddau rhaglennu ac i baratoi ysgolion i ateb gofynion cyfrifiaduro a rhaglennu yn y cwricwlwm newydd rydym yn bwriadu creu cynllun ble gall ysgolion fenthycu offer gyda cyfres o adnoddau cefnogol i gefnogi'r gweithgarwch. Mae'n anodd iawn cychwyn gweithredu'r cynllun oherwydd cyfyngiadau Covid-19. Rydym wedi creu nifer o adnoddau cefnogol i gefnogi'r cynllun ac wedi sicrhau fod set o ysgolion yn treialu'r offer a'r adnoddau.

## **MATHEMATEG A RHIFEDD**

### **Ysgolion sy'n Achos Pryder**

Cynradd ac Uwchradd: Mae cefnogaeth wedi'i theilwra wedi parhau i ysgolion y rhanbarth sydd wedi'u tybio 'mewn risg' neu mewn categori ESTYN. Mae hyn wedi arwain at gynllunio gwell ar gyfer dysgu ac addysgu Mathemateg a gwell dealltwriaeth o sut mae rhifedd yn cefnogi dysgu ar draws y cwricwlwm. Mae ymweliadau/cyfarfodydd niferus a rheolaidd gydag ysgolion wedi cynnwys hyfforddi staff, eu cyd-gefnogi i gynllunio ac asesu cynnydd y dysgwyr, sut i olrhain a defnyddio hyn i symud dysgwyr ymlaen a thrwytho eu

darpariaeth, monitro effaith gweithgareddau hyd yma ac adnabod a rhannu adnoddau sy'n berthnasol i anghenion yr ysgol/dysgwr o fewn y sefydliad.

Mae wedi bod yn bwysig sicrhau bod unrhyw welliannau a wnaed wedi bod at fudd y dysgwyr yn ystod y cyfnod clo ac yn ei sgil yn yr ysgol ac at fudd ysgolion wrth iddynt symud tuag at ddiwygiad Cwricwlwm i Gymru. Mae'r tair elfen hyn wedi bod yn neges gyson drwy gydol yr holl ymweliadau/cyfarfodydd cefnogi ysgolion.

### **Cefnogaeth ranbarthol**

Cynradd ac Uwchradd - Asesiadau Personol: Mae YCG Llythrennedd a Rhifedd wedi creu gweminar i hysbysu ysgolion yn llawn am ofynion a manylion yr Asesiadau Personol Cenedlaethol ar gyfer darllen, rhifedd a rhesymu rhifiadol. Caiff ei lansio ar wefan Canolfan Cefnogaeth GwE ym mis Medi 2021 fel ei fod yn barod i hysbysu ysgolion am yr Asesiad Rhesymu Rhifiadol newydd ac ail-gyfarwyddo ysgolion yn llawn gyda diben yr asesiadau hyn a'u perthnasedd ar gyfer agenda CiG, ar gyfer blynnyddoedd 2-9. Unwaith bydd yr adnodd wedi'i lansio, caiff data effaith, ar ffurf ymweliadau a lawrlwythiadau, ei goladu.

Cynradd ac Uwchradd - Mae'r 'Prosiect Braenaru ar gyfer Dysgu Proffesiynol ym maes Addysg Ariannol yng Nghymru' wedi'i gyflwyno ar y cyd gyda Ye/Prifysgol Caeredin ac wedi'i ariannu'n allanol gan MaPS, i gefnogi darpariaeth addysg ariannol ar draws y rhanbarth (e-ddysgu a hyfforddiant wyneb-i-wyneb). Mae datblygiad proffesiynol wedi rhoi cyfleoedd i ymarferwyr gefnogi gwybodaeth, sgiliau ac agweddau eu dysgwyr ym mhrif feysydd addysg ariannol, yn ogystal ag edrych ar y Cwricwlwm newydd i Gymru a sut mae addysg ariannol yn mynd ochr yn ochr gyda hyn. Mae hyfforddiant 'Hyfforddi'r Hyfforddwr' wedi'i ddarparu i 10 ymarferydd rhanbarthol (yn cynnwys staff GwE), i ddarparu hyfforddiant addysg ariannol proffesiynol i ymarferwyr eraill yn eu clwstwr ysgol. Caiff arferion/gweminarau effeithiol eu rhannu gan ysgolion y prosiect yn ystod tymor yr hydref/gwanwyn.

Cynradd ac Uwchradd - Addysgu Manwl a SAFMEDS: edrychwch ar gynllun busnes Ailgydio Mewn Dysgu.

Uwchradd: Caiff cefnogaeth wedi'i theilwra i ysgolion ei darparu yn ôl y galw. Mae sesiynau dysgu ac addysgu i athrawon newydd gymhwyso, dan arweiniad athro/athrawes profiadol ar ddefnydd trinolion wedi'u darparu. Caiff arloesedd ac arfer mewn ysgolion eu trwytho gan ymchwil perthnasol gyda rhai ysgolion yn y rhanbarth yn datblygu eu meysydd ymchwil / ymchwiliad eu hunain. Mae'r rhain yn cynnwys 'Dull ymchwilio at addysgu', 'Arferion Adfer' a 'Chwestiynu'. Mae effaith gadarnhaol i'w gweld ar gynnydd dysgwyr trwy ddefnydd addysgeg/ymyrraeth gaiff eu llywio gan dystiolaeth.

### **Cwricwlwm i Gymru**

Cynradd: Bu cyfarfod/gweminar rhwydwaith i ymglyfarwyddo athrawon gyda gofynion Llythrennedd a Rhifedd o fewn y fframwaith newydd. Oherwydd lansiad cenedlaethol y cynnig proffesiynol, cafodd holl hyfforddiant penodol MDPH Mathemateg a Rhifedd ei ohirio ar gyfer y chwarter hwn.

Uwchradd: mae'r gwaith yn parhau i sicrhau:

- Mwy o hyder gan athrawon wrth ddeall fframwaith y cwricwlwm newydd.
- Cynlluniau'r cwricwlwm yn datblygu gwerthoedd ac ymagweddau'r pedwar diben.
- Cydgynllunio ar draws gweddau i sicrhau cynnydd.
- Gwell dealltwriaeth o'r disgyblaethau penodol ym MDPH Mathemateg a Rhifedd.
- Gwell gwybodaeth a dealltwriaeth o'r medrusrwydd mathemategol ym MDPH Mathemateg a Rhifedd.
- Darparu cynnig proffesiynol CiG GwE yn effeithiol ac amserol.

## **SAESNEG A LLYTHRENNEDD**

### **Ysgolion sy'n Achosi Pryder**

Cynradd ac Uwchradd: Mae cefnogaeth wedi parhau ar gyfer ysgolion 'mewn risg' neu mewn categori Estyn. Mae hyn wedi arwain at gynllunio gwell ar gyfer dysgu ac addysgu Saesneg a gwell dealltwriaeth o sut mae llenyddiaeth yn cefnogi dysgu ar draws y cwricwlwm. Mae ymweliadau/cyfarfodydd niferus a rheolaidd gydag ysgolion wedi cynnwys staff hyfforddi, a'u cydgefngi i gynllunio ac asesu cynnydd y dysgwr, sut i olrhain a defnyddio hyn i symud dysgwyr ymlaen a thrwytho eu darpariaeth, gan fonitro effaith gweithgareddau hyd heddiw ac adnabod a rhannu adnoddau perthnasol i anghenion yr ysgol/dysgwr o fewn y sefydliad.

Mae adolygiadau thematig o safonau llenyddiaeth wedi'u harwain mewn pedair ysgol uwchradd sydd mewn Mesurau Arbennig. Mae'r adolygiadau hyn wedi cynnwys teithiau dysgu ac adolygu gwaith y dysgwyr. Mae cynllun gweithredu wedi'i lunio ar ôl yr adolygiadau hyn a chefnogaeth a hyfforddiant angenrheidiol wedi'u darparu.

Mae wedi bod yn bwysig sicrhau bod unrhyw welliannau a wnaed wedi bod at fudd y dysgwyr yn ystod y cyfnod clo ac yn ei sgil yn yr ysgol ac at fudd ysgolion wrth iddynt symud tuag at ddiwygiad Cwricwlwm i Gymru. Mae'r tair elfen hyn wedi bod yn neges gyson drwy gydol yr holl ymweliadau/cyfarfodydd cefnogi ysgolion.

### **Cefnogaeth ranbarthol**

Cynradd ac Uwchradd: Mae YCG Llythrennedd a Rhifedd wedi creu gweminar i hysbysu ysgolion yn llawn am ofynion a manylion yr Asesiadau Personol Cenedlaethol ar gyfer darllen, rhifedd a rhesymu rhifiadol. Caiff ei lansio ar wefan Canolfan Cefnogaeth GwE ym mis Medi 2021 fel ei fod yn barod i hysbysu ysgolion am yr Asesiad Rhesymu Rhifiadol newydd ac ailgyfarwyddo ysgolion yn llawn gyda diben yr asesiadau hyn a'u perthnasedd ar gyfer agenda CiG, ar gyfer blynyddoedd 2-9. Unwaith bydd yr adnodd wedi'i lansio, caiff data effaith, ar ffurf ymweliadau a lawrlwythiadau, ei goladu.

### **Cwricwlwm i Gymru**

Cynradd ac Uwchradd: Bu cyfarfod/gweminar rhwydwaith i ymgyfarwyddo arweinwyr canol ysgolion gyda gofynion Llythrennedd a Rhifedd o fewn y fframwaith newydd. (Oherwydd lansiad cenedlaethol y cynnig proffesiynol, cafodd holl hyfforddiant penodol y Meysydd Dysgu a Phrofiad ei ohirio ar gyfer y cyfnod hwn.)

## **Y GYMRAEG A LLYTHRENNEDD**

### **Cynnal a chodi safonau addysgu Cymraeg a llythrennedd ar draws y rhanbarth.**

#### **Targeddu cynhaliaeth i'r adrannau Cymraeg a'r adrannau o fewn y MDAph leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu mewn ysgolion sy'n achosi pryder.**

Cynhaliwyd cyfarfodydd rhwydweithiau penaethiaid adrannau Y Gymraeg yn ystod cyfnodau clo pandemig COVID yn bennaf er mwyn dod â'r adrannau at ei gilydd a rhoi cyfle iddynt drafod a goresgyn anawsterau ar y cyd. Trefnwyd nifer o'r cyfarfodydd hyn ar y cyd, fel rhanbarth cyfan yn ogystal ag mewn rhwydweithiau llai. Mynychodd bob pennaeth adran yn y rhanbarth naill ai'r cyfarfodydd ar y cyd fel rhanbarth neu'r rhwydweithiau llai. Pan ddaeth cyfnod pennau graddau gan ganolfannau cynhaliwyd cyfarfodydd rhwydwaith i gynnig cefnogaeth ar y fframweithiau asesu cymwysterau ac o ganlyniad i'r galw am ymyraethau Llythrennedd ysgol gyfan cynhaliwyd un cyfarfod i bob Cydlynnydd Llythrennedd a phennaeth adran yn y rhanbarth o dan y teitl 'Y Gymraeg ar Garlam' - bu'r cyfarfod hwn yn hynod lwyddiannus, gyda'r cydlynwyr a'r penaethiaid adrannau'n cydweithio i ddechrau rhannu adnoddau ac mae'n fwriad cynnal cyfarfod dilynol ym mis Medi 2021. Esgorodd cyfarfod 'Y Gymraeg ar Garlam' ar y syniad o sefydlu gweithgorau sgiliau ar draws y rhanbarth yn nhymor yr Hydref 2021 gyda thri gweithgor yn cyfarfod i ganolbwyntio ar drafod strategaethau a chasglu adnoddau ar gyfer ymyraethau llafaredd, darllen ac ysgrifennu yng NghA3 a bydd amserlen cyfarfodydd y gweithgorau hyn yn dechrau'n fuan yn nhymor yr Hydref 2021. Bwriedir sefydlu dau weithgor arall yn ogystal a fydd yn cyfarfod yn achlysurol yn ystod y flwyddyn nesaf, un i dargeddu strategaethau trochi dysgwyr a'r gweithgor arall yn cyfarfod i drafod pontio cynradd / uwchradd. Cyhaliwyd cyfarfodydd (a ddatblygodd yn weithdai) gydag ANG Y Gymraeg yn ystod y flwyddyn yn ogystal a bwriedir datblygu'r gynhaliaeth ar gyfer ANG Y Gymraeg 2021-22.

O ganlyniad i natur dysgu ac addysgu yn ystod cyfnodau clo y pandemig, datblygodd elfen o hyfforddiant gydag arfau llwyfannau digidol yn rhan o agenda cyfarfodydd rhwydwaith penaethiaid adrannau. Esgorodd hyn ar gyfres o weithdai o dan y teitl 'Be' sy'n bosib?' (GwE) er mwyn cynnig hyfforddiant penodol ar nifer o apiau *Google for Education*. Cofrestrodd bron i 150 o athrawon (cynradd ac uwchradd) y rhanbarth i fynychu'r gweithdai hyn ac ar gyfartaledd mynychodd dros 60 o athrawon bob gweithdy unigol. Sefydlwyd dosbarth Google Classroom a Microsoft Teams yn gartref i adnoddau'r gweithdai ac ystyrir cyflwyno ail gyfres o'r gweithdai hyn yn ystod y flwyddyn newydd gyda chynnwys hyfforddiant yr ail gyfres i'w benderfynu mewn ymgynghoriad â'r athrawon. Bu i Adran Y Gymraeg dwy o ysgolion y rhanbarth gyfrannu at adnodd a rannwyd yn genedlaethol ar addysgu o bell cydamserol ac anghydamserol.

Bydd ysgolion y rhanbarth yn rhannu adnoddau trwy rwydwaith cenedlaethol 'Y Pair' ar Hwb. Bellach, mae â bron i 350 o athrawon ar draws Cymru yn aelodau o'r rhwydwaith hwn a bydd adnoddau newydd yn cael eu hychwanegu ato'n rheolaidd. 'Y Pair' yw cartref yr adnoddau a gwyddir yn y gweithgorau Cenedlaethol (y pedwar consortia) ac

eleni ymunodd 9 o athrawon a phenaethiaid adrannau y rhanbarth â gweithgorau CA3, CA4 a 5 a chyfrannodd yr aelodau tuag at weminar byw lansiad cenedlaethol yr adnoddau arloesol hyn yn ogystal. Bydd gwaith y Gweithgorau Cenedlaethol dan arweiniad swyddogion Y Gymraeg y pedwar consortia yn parhau y flwyddyn nesaf gyda chynnydd i aelodau newydd ymuno â nhw. Bydd gwaith y Gweithgorau Cenedlaethol hyn yn cael ei rannu'n rhanbarthol trwy Ganolfan Gefnogaeth GwE ac mae cynlluniau ar y gweill i sefydlu cartref penodol i adnoddau'r Gymraeg o fewn Canolfan Cefnogaeth GwE o dan yr enw 'Y Stordy'. Mae gwefan 'Y Stordy' (GwE) wrthi'n cael ei hadeiladu ar hyn o bryd a bydd, maes o law, yn gartref hwylus, un lleoliad a llwyfan ar gyfer holl weithgareddau, adnoddau ac ymgyrchoedd Tîm Y Gymraeg GwE a'r gobaith yw y bydd yn cael ei boblogi gan holl ysgolion, clystyrau a rhwydweithiau Y Gymraeg y rhanbarth.

Bydd 'Y Stordy' uchod hefyd yn llwyfan i'r prosiect llafaredd rhanbarthol a chenedlaethol 'Ein Llais Ni' - prosiect arloesol yn hyrwyddo sgiliau siarad a gwrando sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Gwahoddir ceisiadau gan ysgolion a chlystyrau'r rhanbarth i ymuno â'r prosiect hwn a bydd y don gyntaf o ysgolion yn cydweithio â'r Athro Enlli Thomas a Rebecca Ward o Brifysgol Bangor i ymchwilio i effaith strategaethau addysgu llafaredd rhyngwladol yn ysgolion y rhanbarth

### **Cefnogi'r Gymraeg yn Nhaith Ddiwygio'r Cwricwlwm i Gymru yn ysgolion y rhanbarth.**

Yn ystod y tymor nesaf bydd Tîm Y Gymraeg GwE yn cynnig rhaglen o hyfforddiant penodol i adrannau Y Gymraeg ar eu Taith Ddiwygio tuag at gyflwyno Cwricwlwm i Gymru. Mae'r rhaglen hon yn gyfuniad o weminarau wedi'u recordio a chyfarfodydd wyneb yn wyneb (yn rhithiol, yn ogystal ag 'yn fyw' gobeithio) sy'n plethu â gwaith yr ysgolion ar ddatblygu'r cwricwlwm newydd ac yn arbennig ar gyfer holl athrawon ysgolion y rhanbarth sy'n addysgu'r Gymraeg o fewn 'Maes Dysgu a Phrofiad - Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu'.

## **GWYDDONIAETH**

### **Gwella ansawdd cynllunio ar gyfer dysgu ac addysgu**

#### **Datblygu'r proffesiwn addysg a chefnogi/gwella Dysgu ac Addysgu mewn ysgolion sy'n achosi pryder ac wrth baratoi ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru.**

Cynradd: Cynhaliwyd gweminar gwyddoniaeth gynradd ar yr 17eg o Fai 2021. Mynychodd tua 100 o athrawon ar draws y rhanbarth. Gweithiodd GwE yn agos gyda'r Ymddiriedolaeth Addysgu Gwyddoniaeth Gynradd (PSTT) i drefnu cyfarfod oedd yn cynnwys cyflwyniadau gan athrawes wyddoniaeth gynradd leol yn ogystal â chynrychiolydd o PSTT a chymrawd gwyddoniaeth PSTT o ysgol yng Nghaerdydd.

Roedd y cyflwyniadau wedi'u cynllunio i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf i athrawon ddarparu a gwella ansawdd eu dysgu gwyddoniaeth yn ogystal â rhannu syniadau ac arbrogion ymarferwyr go iawn yn ymwneud â MDPH newydd CiG. O'r adborth a dderbyniwyd ar y noson a'r nifer o e-byst a sgysiau yn dilyn y digwyddiad, roedd yr holl fynychwyr wedi gweld y gweminar yn ddefnyddiol iawn ac wedi croesawu sawl syniad i roi cynnig arnynt. Mae llawer o'r mynychwyr hefyd wedi defnyddio'r cyflwyniad i gynllunio'n strategol ar gyfer gwyddoniaeth yn eu hysgol ar gyfer y tymor byr y flwyddyn nesaf a drwy ddechrau cynllunio ar gyfer CiG ym mis Medi 2022. Yn dilyn y cyflwyniad mae llawer o ysgolion wedi dechrau arbrogio gyda'r syniadau CiG a rannwyd ac mae o leiaf 3 clwstwr wedi cysylltu gyda'r athrawes leol yn gobeithio y bydd hi'n gallu rhannu ei syniadau gyda nhw yn ystod y tymor nesaf. Hyrwyddwyd y Marc Ansawdd Gwyddoniaeth yn ystod y noson ac mae hyn wedi arwain at lawer o ysgolion bellach yn ymgeisio i ymuno â'r cynllun hwn gyda'r nod o wella ansawdd eu dysgu ac addysgu gwyddoniaeth. Gyda chymaint o adborth cadarnhaol byddwn yn trefnu gweminar gwyddoniaeth gynradd arall yn nhymor yr hydref.

Gyda'r PSTT rydym wedi parhau i gynnig y cylchlythyr gwyddoniaeth gynradd tymhorol. Caiff hwn ei baratoi yn bennaf gan y cynrychiolydd PSTT lleol gan ychwanegu unrhyw eitemau penodol GwE. Mae cynnwys y cylchlythyr yn rhoi i ysgolion yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch addysgu gwyddoniaeth gynradd, adnoddau digidol yn ogystal â'u cyfeirio at grantiau gwyddoniaeth a hyfforddiant.

Uwchradd: Oherwydd y sefyllfa gyfredol, nid ydym wedi bod mewn sefyllfa i gynnig y dysgu proffesiynol cynlluniedig sydd wedi'i nodi yn y cynllun busnes. Caiff y camau gweithredu felly eu symud ymlaen at y flwyddyn academaidd nesaf.

Mae cefnogaeth wedi'i theilwra i ysgolion yn ymwneud â dysgu ac addysgu ac arweinyddiaeth wedi'i darparu gan dîm GwE i'r ysgolion rheiny sydd wedi'u hadnabod gan YCG yr ysgolion a'r rheiny sydd wedi gwneud cais am gefnogaeth ychwanegol.

Mae cefnogaeth ysgol a chlwstwr hefyd wedi'i darparu (ar gais) i helpu datblygiad a chyfeiriad y Cwricwlwm newydd i Gymru, ac yn bennaf datblygu cwricwlwm sy'n seiliedig ar Wyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM). Mae hyn wedi cynnwys datblygu unedau o waith, cefnogi cyfleoedd cyfoethogi a chyfleoedd allgyrsiol a deall y fframwaith.

Bu cyfarfod rhwydwaith a dysgu proffesiynol ym mis Ebrill ar gyfer athrawon gyrfa gynnar ac ANG Gwyddoniaeth. Cafodd ei groesawu yn dda ac maent wedi gofyn i barhau i gyfarfod yn y flwyddyn academaidd nesaf.

### **Cefnogi athrawon a dysgwyr ar hyd y continwwm dysgu.**

Mae'r gwaith o ddatblygu gwefan TANIO ymhellach wedi parhau, ac mae gwaith ar fynd ar y platfform i gynnwys adrannau i gefnogi Ôl-16 a Chwricwlwm i Gymru. Mae'r gwaith o drosi'r ffolder HTML fel bod modd ei hagor ar wahanol ddyfeisiadau ar fynd. Dylai bod yr adnoddau rwlét adfer ar y wefan ar ddechrau'r tymor nesaf.

## **CYFNOD SYLFAEN**

### **Darparu cefnogaeth wedi'i theilwra i ysgolion sy'n achosi pryder, gan eu galluogi i yrru eu taith wella eu hunain**

Mae bron pob ysgol sy'n derbyn cefnogaeth wedi'i theilwra yn mynd i'r afael â chamau gweithredu sydd wedi'u hadnabod gan Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant y Cyfnod Sylfaen, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth a deilliannau. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi gweithredu'r camau gweithredu yn effeithiol i wella ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion gan leihau amrywiad ysgol mewn rhai ysgolion a gwella cysondeb mewn dysgu ac addysgu ar draws y rhanbarth. Mae cefnogaeth hefyd wedi sicrhau dealltwriaeth ddyfnach o egwyddorion ac addysgeg y Cyfnod Sylfaen sy'n cyd-fynd gyda'r addysgeg yng nghanllaw Agor Llwybrau Cwricwlwm i Gymru.

### **I wella'r ddarpariaeth a chynnydd disgyblion ymhellach ar draws holl ysgolion y rhanbarth mewn paratoad ar gyfer gweithredu Cwricwlwm i Gymru.**

**Sicrhau defnydd da neu well o strategaethau asesu ffurfiannol ym mhob ysgol**

**Datblygu cydweithio traws-sector a rhannu arfer asesu dda**

**Datblygu cydweithio traws-sector ar drawsnewid a rhannu arfer dda**

Mae cefnogaeth clwstwr wedi'i darparu ar draws y rhanbarth yn canolbwyntio ar elfennau penodol o addysgeg CiG a'r Meysydd Dysgu a Phrofiad. Mae'n rhy gynnar i fesur effaith ar ddarpariaeth a deilliannau, ond mae'r effaith yn cynnwys:

- Cysondeb mewn negeseuon i ysgolion ynglŷn â dysgu ac addysgu
- Gwella hyder ymarferwyr yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o fframwaith newydd y cwricwlwm.
- Ymarferwyr yn defnyddio cymysgedd o ddulliau addysgegol wedi'u datblygu'n addas sy'n ymateb i anghenion dysgwyr (gan gynnwys yn emosiynol a chymdeithasol).

Roedd cyfarfod Rhwydwaith tymor yr haf y Cyfnod Sylfaen yn canolbwyntio ar ddogfen ymgynghorol canllaw 'Agor Llwybrau' Llywodraeth Cymru, hynny ydy, y cyfnod o ddysgu sy'n arwain at Gam Cynnydd 1 (Cwricwlwm i Gymru). Mae hyn wedi galluogi ymarferwyr i ddatblygu gwell dealltwriaeth o sut mae'n llunio rhan o'r fframwaith Cwricwlwm i Gymru ac yn rhoi'r sylfaen gadarn sydd ei angen ar bob dysgwr i gefnogi datblygiad, yn eu hamser eu hunain, tuag at wireddu'r pedwar diben.

Mae sesiynau hyfforddi rhithiol wedi'u darparu yn ystod y chwarter hwn ar gyfer y Tîm Uwch Reoli, athrawon a chymorthyddion dysgu gan ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau allweddol a hanfodol ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad drwy addysgeg effeithiol a phrofiadau dysgu cyfoethog. Daeth llawer i'r sesiynau hyfforddi ac roedd yr adborth yn gadarnhaol. Mae recordiadau o'r holl sesiynau hyfforddi ac adnoddau ar gael ar Ganolfan Cefnogaeth GwE sy'n galluogi mwy o ymarferwyr i gael mynediad at gyfleoedd Dysgu Proffesiynol.

## **AMCAN 3 - ARWEINYDDIAETH**

**Cefnogi arweinwyr ysbrydoledig yn cydweithio i godi safonau. Yn cynnwys darpar arweinwyr a rhwydweithiau proffesiynol.**

### **ARWEINYDDIAETH**

**Parhau i gynnig amrediad eang o gyfleoedd Dysgu Proffesiynol mewn cysylltiad â rhaglenni datblygu arweinyddiaeth er mwyn datblygu arweinwyr presennol ac i'r dyfodol**

Mae pob modiwl o bob Rhaglen Arweinyddiaeth hyd yma (ac eithrio'r Rhaglen Datblygu Penaethiaid Profiadol) wedi'u cwblhau yn llwyddiannus o fewn yr amserlen a nodwyd yn y cynllun gwreiddiol. Rydym ar drac i gwblhau'r Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol (MLDP), a Rhaglen Datblygu Uwch Arweinwyr (SLDP) erbyn diwedd y flwyddyn galendr. Bydd y Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid (CPCP) yn cynnal y Ganolfan Asesu ym mis Chwefror 2022 a'r Rhaglen Penaethiaid Newydd ac Mewn Gofal erbyn diwedd y flwyddyn addysgol hon.

Roedd sylwadau anffurfiol a gasglwyd gan unigolion oedd yn cynnal a rhedeg y rhaglenni hyn yn nodi bod arweinwyr oedd yn cymryd rhan yn y rhaglenni yn dangos mwy o hyder a dealltwriaeth yn gyffredinol o arweinyddiaeth effeithiol wrth drafod eu rôl arweinyddiaeth yn ôl yn yr ysgol.

Roedd gwerthusiadau/sylwadau anffurfiol gan y rhai oedd yn cymryd rhan yn nodi bod defnyddio tasgau rhyng-sesiynol/rhyng-fodiwlaid yn cael eu gwerthfawrogi - yn arbennig er mwyn gwneud gwaith darllen ac ymchwil annibynnol cyn y sesiynau datblygu. Mae'r rhai oedd yn cymryd rhan yn teimlo'n fwy parod ar gyfer y sesiynau ffurfiol ac mae hyn wedi arwain at drafodaethau grŵp o safon ac wedi rhoi pwyslais pellach ar arfer myfyriol unigolion a pherchnogaeth o'u dysgu proffesiynol eu hunain.

Mae adborth ffurfiol gan y rhai sy'n cymryd rhan ar y rhaglen Datblygu Uwch Arweinwyr presennol wedi bod yn gadarnhaol iawn. Allan o 22 gwerthusiad dros dro hyd yma, mae 20 wedi dweud bod y rhaglen hyd yma yn dda iawn neu yn ardderchog. Yn gyffredinol, mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn dweud eu bod yn gwerthfawrogi'r cyflwyniadau manwl, diddorol, wedi'u llywio gan dystiolaeth, y cyfle i rwydweithio a chreu cymuned o bobl broffesiynol o'r un meddylfryd, agweddau rhithiol fel trafodaethau mewn grwpiau llai a sesiynau dwy awr hawdd eu rheoli. Maent wedi mwynhau'r sesiynau ac yn gwerthfawrogi'r cyfle i hunanfyfyrto, dysgu sut i arwain pobl a chanolbwyntio ar arwain tasg arweinyddiaeth ysgol gyfan. Maent hefyd wedi elwa o'r gefnogaeth gan yr Hyfforddwy'r sy'n arweinwyr ysgol effeithiol ac ymarferwyr presennol sydd wedi cyflwyno fel rhan o'r modiwlau datblygu. Mae meysydd i'w datblygu ymhellach yn cynnwys mwy o gyfleoedd i drafod mewn grwpiau llai/rhwydweithio. Hoffai'r rhai sy'n cymryd rhan hefyd rai sesiynau wyneb-i-wyneb, er eu bod yn gwerthfawrogi nad ydy hyn yn addas ar y funud oherwydd rheoliadau COVID.

Mae gwerthuso a mireinio cynnwys y rhaglenni yn barhaus a chyson wedi sicrhau'r gallu i addasu i anghenion perthnasol arweinwyr ysgol presennol, o ran yr Agenda Cenedlaethol, CiG yn arbennig. Mae hyn hefyd wedi ein caniatáu i fod yn ymwybodol o anghenion arweinwyr ysgol yn ystod y pandemig, gan sicrhau eu bod yn datblygu'r offer a'r gwydnwch i arwain mewn cyfnod heriol.

## LLYWODRAETHWYR

### **Mewn cytundeb â'r Awdurdodau Lleol, cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol yn y Diwygiad Addysg.**

Fel rhan o'r gefnogaeth barhaus i Ddysgu Proffesiynol Llywodraethwyr, mae nifer o gyflwyniadau wedi'u cyflwyno ar draws y rhanbarth gyda'r nod o gyflwyno Llywodraethwyr i'r fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Mae niferoedd da o lywodraethwyr wedi mynychu'r sesiynau hyn ym mhob Awdurdod Lleol gan alluogi'r llywodraethwyr hynny i fod â gwell dealltwriaeth o'r agweddau gaiff eu darparu, bod yn fwy hyderus wrth gefnogi eu hysgolion a gallu cyfrannu yn fwy strategol at drafodaethau'r corff llywodraethol.

### **Darparu hyfforddiant cyn-arolwg i Lywodraethwyr ar ddisgwyliadau Estyn yn ystod arolwg.**

Nid ydy hyfforddiant cyn-arolwg wedi bod yn angenrheidiol yn ystod y chwarter hwn. Mae cefnogaeth ychwanegol wedi bod ar gael i ysgolion mewn categorïau. Yn 2021 – 2022 bydd GwE yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod Llywodraethwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran paratoi ar gyfer arolwg yn ystod y 3 wythnos sy'n arwain at yr ymweliad.

### **Darparu cefnogaeth wedi'i thargedu i Lywodraethwyr o fewn ysgolion ar agweddau y mae eu Hunanwerthusiad wedi'i adnabod sydd angen gwella.**

Nid oes gofyn am unrhyw gefnogaeth wedi'i thargedu wedi bod yn ystod y chwarter hwn. Bydd GwE yn parhau i gefnogi llywodraethwyr i fod â gwell dealltwriaeth o'r agwedd sydd angen ei gwella a'r hyder i hunan wella.

## CYNGHREIRIAU / RHWYDWEITHIAU / CLYSTYRAU

Cydweithio gydag arweinwyr ysgol ar bob lefel i wella rôl a chyfraniad y clystyrau cynradd / uwchradd, y cynghreiriau uwchradd a'r gwahanol rwydweithiau rhanbarthol wrth fynd i'r afael â blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol.



Mae bron pob ysgol wedi ymgysylltu'n effeithiol gyda 'chynghreiriau' neu 'glystyrau' lleol lle maent wedi cydweithio gyda chyfoedion i adnabod, datblygu a rhannu adnoddau dysgu cyfunol. Mae'r nifer o adnoddau ysgol-i-ysgol sydd ar gael drwy Ganolfan Cefnogaeth GwE bellach dros 200 ac mae'r nifer o 'ymweliadau' ers ei lansio yn bron i 40,000 gyda'r nifer o adnoddau sydd wedi'u lawrlwytho ers ei lansio yn bron i 8,000.

I ysgolion uwchradd mae'r gwaith hefyd wedi cynnwys cefnogi partneriaid cynghrair gyda phrosesau yn ymwneud â pharatoi ar gyfer gwobrwyo graddau yn 2021.

Mae'r holl ysgolion uwchradd a chynradd yn rhan weithredol o gydweithio Clwstwr CiG. Yn ystod tymor y gwanwyn/haf maent wedi cymryd rhan mewn gweithdai CiG [Arwain Newid, Datblygu Cydweledigaeth a Newid Cwricwlwm - sesiynau 1,2,3]. Caiff cefnogaeth ei thargedu bellach i sicrhau y bydd gan bob ysgol gynllun clir sy'n adnabod camau gweithredu ar gyfer 2021-22 fel eu bod mewn sefyllfa i gwrdd â gofynion statudol newydd ar gyfer mis Medi 2022. Bydd pob cynllun yn adnabod sut bydd ysgolion yn mynd i'r afael ag agweddau penodol yn cynnwys dysgu proffesiynol i gefnogi'r holl staff; lleoli grantiau; treialu a gwerthuso dulliau o fewn cynllun y cwricwlwm ar draws y 6 MDPH ac ymgysylltu ehangach gyda rhanddeiliaid. Bydd cyswllt gyda'r YCG yn ystod hanner tymor cyntaf Hydref 2021 yn canolbwyntio ar sicrhau bod gan bob ysgol gynllun mewn lle.

I gefnogi ysgolion ymhellach gyda'r gwaith hwn, bydd Rhwydweithiau MDPH ar lefelau rhanbarthol a lleol yn weithredol o fis Medi. Cafodd yr holl arweinwyr ac athrawon ym mhob ysgol gyfle yn ddiweddar i fynegi diddordeb mewn cydweithio gyda GwE i ddatblygu arfer effeithiol ar draws 8 maes/agwedd allweddol, sef:

- Cynllunio Cwricwlwm Ysgol Gyfan
- Dadbacio potensial un o'r MDPH
  - ✓ Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (yn Gymraeg a Saesneg)
  - ✓ Mathemateg a Rhifedd
  - ✓ Gwyddoniaeth a Thechnoleg
  - ✓ Dyniaethau
  - ✓ Iechyd a Lles
  - ✓ Celfyddydau Mynegiannol
- Asesu

Mae'r lefel o ddiddordeb wedi bod yn uchel gyda bron i 300 o ymgeiswyr ac mae'r gwaith o sefydlu'r timau yn mynd rhagddi. Yn ystod tymor yr hydref a'r gwanwyn bydd gan aelodau'r tîm gyfle i:

- Gydweithio gyda grŵp o gyfoedion i gefnogi cynllunio'r cwricwlwm ar lefel leol a chefnogi datblygiad MDPH ar lefel ranbarthol.
- Cyfathrebu a rhaeadru dysgu ac arferion llwyddiannus ar draws yr ysgolion yn yr awdurdod lleol.
- Mynychu dysgu proffesiynol rhanbarthol a fforymau trafod wedi'u hwyluso gan yr Athro Donaldson
- Cyfrannu at ddatblygu modelau cynllunio i gefnogi ysgolion i dreialu, gwerthuso a pharatoi'r gweithlu ar gyfer y dysgu cyntaf

## AMCAN 4 – YSGOLION CRYF A CHYNHWYSOL

### Wedi ymrwmo i ragoriaeth, tegwch a lles

#### GDD PMG

**Datblygu ymhellach a gweithredu'r strategaeth GDD genedlaethol ar draws y rhanbarth.**

**Gwreiddio'r model clwstwr/cynghrair GDD PMG ar draws y rhanbarth.**

Mae'r ffocws y chwarter hwn wedi bod ar weithredu cynllun cyfathrebu clir a chyson ar gyfer y GDD PMG 2021/22 gyda'r holl YCG/Arweinwyr Craidd yn targedu holl glystyrau / fforymau penaethiaid yr ALL o ran y cynllun/dashfwrdd a lliniaru unrhyw brif bryderon.

Mae GwE wedi parhau i gyfrannu a dylanwadu ar grŵp cenedlaethol GDD LIC o ran cynllun cefnogaeth GDD.

Mae GwE wedi parhau i gefnogi ysgolion sydd wedi'u cyfeirio gan YCG/Arweinwyr Craidd o ran Iechyd a Lles/Cefnogi Dysgwyr Bregus/PMG/GDD yn ôl y gofyn. Yn ychwanegol, mae GwE wedi bod yn targedu ysgolion/clystyrau sydd â niferoedd uchel o Blant Mewn Gofal ac angen arweiniad pellach neu sy'n achosi pryder.

Mae Canolfan Cefnogaeth GwE yn parhau i fod yn fan cyfeirio i bob sefydliad ac mae'r gwaith o wella'r adnoddau ymhellach yn parhau.

Mae'r cynnig Dysgu Proffesiynol wedi'i gwblhau yn dilyn trafodaeth gyda phrif swyddogion yr ALL a rhai clystyrau i sicrhau ansawdd y cynnig penodol, er mwyn osgoi dyblygu ac i adnabod bylchau/anghenion.

Mae Diploma carfan 6 GwE mewn Ysgolion sy'n Ystyriol o Drawma yn llawn (27) gyda 2 aelod o dîm GwE ar y cwrs. Mae hwn yn un maes lle mae angen inni adeiladu capasiti ymhellach.

Mae'r grŵp/rhwydwaith nas gynhelir rhanbarthol ar gyfer GDD Blynnyddoedd Cynnar gyda'r 6 ALL wedi cyfarfod a'r amodau gorchwyl wedi'u cytuno.

Mae'r ffocws wedi bod ar weithio gydag Arweinwyr Lles ym mhob un o'r ALL ac Ysgolion Iach o ran dull yr ysgol gyfan a mapio lles ar draws y rhanbarth.

Mae'r rhwydwaith rhanbarthol APMG/GwE hefyd wedi cyfarfod, ac mae 6 cyfarfod unigol ychwanegol wedi'u cynnal gyda phob ALL i drafod anghenion/pryderon lleol.

### LLES Y GWEITHLU (GwE ac Ysgolion)

#### **Cefnogi lles emosiynol yr unigolyn yng nghyd-destun eu rôl broffesiynol.**

##### **Rhoi iechyd a lles wrth wraidd popeth a wnawn.**

Ein prif flaenoriaeth yn ystod y cyfnod hwn o newid heb ei debyg o'r blaen ac amhariad ydy diogelwch a lles ein plant a'n gweithlu, gan wneud popeth yn ein gallu i gefnogi lles corfforol a meddyliol ein plant, pobl ifanc a'n gweithlu trwy gydol y cyfnod hwn. Mae ffocws wedi bod ar amrywiaeth o agweddau o fewn yr agenda lles, er enghraifft, gwydnwch, addasu i amgylchedd sy'n newid, hunanfyfyrion, dysgu gweithredol ayb:

- Darparu 'Llefydd i Fyfyrio' – darparu bloc o sesiynau gyda Dr Coral Harper neu Mike Armiger. Mae Dr Coral Harper a Mike Armiger wedi ymrwymo i weithio ar draws y rhanbarth o fis Medi 2021 ac wedi dyblu'r capasiti o Lefydd i Fyfyrio sydd ar gael i Uwch arweinwyr.
- Sesiwn grŵp i ymarferwyr Ysgolion sy'n Ystyriol o Drawma gyda Coral Harper. 1 sesiwn y tymor. 6 grŵp trwy gydol y flwyddyn.

#### **Defnyddio fframwaith hyfforddi mewn sgysiau, cyfarfodydd ac arweinyddiaeth bob dydd i ddatgloi potensial ac annog twf unigolion.**

Mae hyn yn parhau gyda 12 staff yn dilyn cwrs ILM Hyfforddi a Mentora Gweithredol Lefel 7. O'r 12 sy'n dilyn y cwrs ILM, mae 4 wedi dechrau sesiynau fel rhan o'r peilot Cenedlaethol 'Llefydd i Fyfyrio' yn cefnogi cydweithwyr o'r Consortia eraill gyda'r sesiwn ar gael yn ddwyieithog.

### LLES YSGOL GYFAN (MDPh)

#### **Hyrwyddo 'Dinasyddion Egwyddorol Gwybodus yng Nghymru'**

##### **Datblygu Agwedd Ysgol Gyfan at les.**

##### **Cyd-greu adnoddau Lles Ysgol Gyfan gydag ysgolion ar draws y rhanbarth**

##### Menter TEDxGwE

Fel gwasanaeth, bu inni gysylltu gyda chynllun *Climate Neutral Now* y CU ddwy flynedd yn ôl er mwyn lleddfu allyriadau teithio GwE. Rydym wedi datblygu'r berthynas hon ymhellach drwy gefnogi'r 'Her 100 ysgol'. Wrth inni symud yn agosach at Gynhadledd Partion i Fframwaith y Cenedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd (COP26) yn Glasgow yn ystod mis Tachwedd 2021, penderfynon gymryd camau pellach drwy ddatblygu'r fenter TEDxGWE.

Mae TEDx yn fenter fyd-eang i hyrwyddo a chyflymu ffyrdd o ddatrys yr argyfwng hinsawdd, gan droi syniadau yn weithredoedd. Caiff cyfres o ddiwyddiadau gaiff eu harwain gan y gymuned eu cynnal ar draws y byd, rydym wedi cofrestru ac yn dal y drwydded ar gyfer TEDxGWE.

Bydd GwE yn cynnal digwyddiad TEDxGWE ar y 5ed o Dachwedd 2021 i blant a phobl ifanc ar draws gogledd Cymru. GwE fydd yn arwain ond rydym ar hyn o bryd yn datblygu partneriaeth gogledd Cymru a chysylltiadau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, Theatr Clwyd, Do Well Ltd, Tales to Inspire ac Adfywio Cymru.

Yng ngogledd Cymru rydym eisiau defnyddio TEDxGWE fel catalydd i ddechrau sgwrs gydag arweinwyr yn y sectorau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector, cymunedau a'n plant a phobl ifanc ynglŷn â'r her gyfunol rydym i gyd yn ei wynebu a throï'r syniadau gan y plant a'r bobl ifanc yng ngogledd Cymru yn weithredoedd. Ein cenhadaeth ydy uno ein rhanbarth i fynd i'r afael â newid hinsawdd gan ein bod yn gweld hyn yn ffordd berffaith o ddatblygu agwedd Dinasyddion Egwyddorol Gwybodus Cwricwlwm i Gymru.

Rydym eisiau gweithio gyda phlant a phobl ifanc, gan ddefnyddio eu llais i annog sgwrs ledled y rhanbarth i arwain gweithredoedd drwy ddod â phobl ynghyd i deall yr her ac edrych ar y datrysiadau mwyaf effeithiol sydd wedi'u cyd-greu a'u llywio gan dystiolaeth, gan sicrhau ein bod i gyd yn ymateb i'r her. Nod digwyddiadau byd-eang TEDx ydy ateb pum cwestiwn allweddol rhyng-gysylltiedig sy'n helpu i lunio cynllun at ddyfodol glanach:

- Egni – Pa mor sydyn gallwn newid i bŵer glân 100%?
- Cludiant – Sut allwn uwchraddio'r ffordd rydym yn symud pobl a phethau?
- Deunydd - Sut allwn ail-ddychmygu ac ail-wneud y pethau o'n cwmpas?
- Bwyd – Sut allwn annog newid byd-eang tuag at systemau bwyd iachach?
- Natur – Sut allwn warchod yn well ac ail-lasu'r ddaear?

Bydd modd i ysgolion gofrestru ar gyfer y digwyddiad a chyflwyno fideo 60 eiliad yn defnyddio FlipGrid. Caiff y fideos eu coladu a'u rhannu gyda chynulleidfa ehangach. Bydd ysgolion yn derbyn pecyn adnoddau i gefnogi'r rhai sy'n cymryd rhan i ddatblygu sgwrs TED fel eu bod yn gallu rhannu eu storïau, problemau, meddyliau a gweithredoedd sydd eu hangen i greu dyfodol gwell. Bydd Adfywio Cymru yn ariannu'r pecynnau adnoddau a'r mentoriaid.

#### STRATEGAETH I GEFNOGI RHIENI / GOFALWYR

**Arwain, rheoli a chydlynu'r maes o gefnogi rhieni a gofalwyr gyda dysg eu plentyn.**

**Sicrhau cyflwyno "Helpu eich plentyn i ddysgu" yn effeithiol i ysgolion a rhieni a gofalwyr ar draws Cymru.**

**Sicrhau cydlynoldeb a chapasiti addas i ddarparu adnoddau rhanbarthol o safon uchel yn y maes hwn.**

Mae'r grŵp rhanbarthol wedi'i sefydlu gyda chynrychiolaeth o GwE a phob ALL. Bu i'r grŵp gyfarfod yn ystod tymor yr haf. Cafodd yr adnoddau eu rhannu yn ogystal ag adnabod a chytuno ar gamau nesaf:

- Datblygwr yr adnodd i weithio ochr yn ochr gyda GwE wrth rannu gwybodaeth gyda'r ysgol i fonitro cynnydd a choladu adborth i adnabod y ffordd ymlaen.
- Edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu adnoddau i ddisgyblion gydag ADY.
- Cyflwyno'r adnoddau i Flynyddoedd 7 ac 8.
- Edrych ar hyfywedd datblygu adnoddau i ddisgyblion uwchradd. Datblygwr yr adnoddau i fynychu fforymau penaethiaid uwchradd.
- Datblygu adnoddau neu ddolenni cyswllt i hyrwyddo lles fel rhan o'r pecyn.
- Uwch Arweinydd GwE i drafod argaeledd codau i addysgwyr cartref gyda'r Bwrdd Rheoli.
- Creu pecyn cyfryngau cymdeithasol i ysgolion hyrwyddo'r adnodd i'w rhieni.

Cyflwynwyd yr adnoddau i Fforymau Penaethiaid Cynradd yn y 6 Awdurdod Lleol. Mae'r ymateb wedi bod yn gadarnhaol gan bawb.

Mae gan yr YCG y codau ar gyfer eu clystyrau a fideo eglurhaol. Mae'r fideo wedi'i rannu gyda 27 o'r 54 clwstwr, yr UCDAu ac ysgolion arbennig hyd heddiw.

Mae datblygwr yr adnodd wedi mynychu 3 allan o 6 o'r fforymau penaethiaid uwchradd ac mae'r ymateb wedi bod yn gadarnhaol. Mae gan 1 ALL bellach y codau ar gyfer blynyddoedd 7 ac 8.

Bydd gweddill y clystyrau cynradd wedi derbyn y fideo a'r codau erbyn diwedd tymor yr haf; clystyrau uwchradd erbyn hanner tymor (Hydref).

Mae'r pecyn cyfryngau cymdeithasol wedi'i gynhyrchu yn ddwyieithog ac fe gaiff ei rannu gydag ysgolion trwy'r YCG erbyn diwedd tymor yr haf. Mae datblygwr yr adnodd wedi cynhyrchu fideo hyrwyddo byr yn dilyn ceisiadau gan ysgolion, bydd y fersiwn dwyieithog ar gael erbyn mis Medi.

**Gweithredu rhaglenni sy'n ceisio lliniaru effaith cau ysgolion ar gyrhaeddiad darllen ac ysgrifennu disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg.**

**Strategaeth addysgu wedi'i llywio gan dystiolaeth wedi'i chynllunio i helpu disgyblion wella eu rhuglder a chynnydd mewn mathemateg.**

**Datblygu adnoddau ar-lein sy'n addas i staff ysgol a rhieni i alluogi defnydd o'r ymyriadau hyn i helpu gyda datblygiad darllen plant dros y flwyddyn ysgol nesaf.**

**Parhau i ddatblygu a chreu cyfres o ddeunydd cefnogi cyffredinol ar gyfer mathemateg uwchradd a llythrennedd uwchradd.**

**Dysgu Iaith a Llythrennedd o Bell (*Remote Instruction of Language and Literacy, RILL*) – GWEDD 2** – Dechreuodd tîm ymchwil RILL waith Gwedd 2 ddechrau mis Mai 2021. Maent bellach wedi cwblhau'r addasiadau i'r fersiwn anghydamserol/cydamserol gwreiddiol o RILL gafodd ei ddatblygu yn 2020, ac mae'r rhain bellach yn cynnwys fersiwn wedi'i addasu i'w ddefnyddio yn y dosbarth a hefyd i rieni a gofalgwyr. Cafodd gwahoddiadau i ysgolion fynychu hyfforddiant yn nhymor yr haf a thymor yr hydref 2021 eu cylchredeg ym mis Mehefin 2021. Bu i YCG GwE fynychu cyfarfodydd y fforwm penaethiaid rhanbarthol i egluro'r rhaglen. Cafodd RILL ei groesawu'n gadarnhaol iawn yn y cyfarfodydd hyn, yn arbennig y fersiwn Cymraeg newydd wedi'i deilwra. Mae'r tîm ymchwil wedi creu deunydd o safon uchel iawn i ysgolion. Mae'r niferoedd recriwtio cynnar yn dda iawn, ac rydym yn rhagweld bydd y niferoedd yn cynyddu'n raddol wrth i ysgolion gynllunio ar gyfer tymor yr hydref.

### **Addysgu Manwl a SAFMEDS**

Ni fydd astudiaeth ymchwil sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwn yn dechrau tan fis Medi 2021. Bydd hyn yn cynnwys:

- Sesiynau 'galw heibio' misol ar gael i bob ysgol yn y rhanbarth
- Hyfforddiant wedi'i theilwra i ysgolion y rhanbarth ac UC'Dau
- Hyrwyddo SAFMEDS trwy'r Bwletin a Chanolfan Cefnogaeth GwE
- Creu adnoddau dwyieithog yn barod i'w lansio yn fuan:
  - Tiwtorial ar-lein SAFMEDS
  - Gwefan SAFMEDS wedi'i theilwra ar-lein
  - Hyfforddiant SAFMEDS diwygiedig ar gyfer cardiau gafael
  - Rhagarweiniad i hyfforddiant Addysgu Manwl
  - Cardiau gafael gwedd ychwanegol SAFMEDS i ehangu ehangder y cynnwys o'r Fframwaith Rhifedd
  - Creadigaeth wedi'i chomisiynu o ddeunydd Dysgu newydd – mae modd defnyddio'r rhain fel darpariaeth benodol a chyffredinol, gan dargedu arfer adfer rheolaidd a datblygu rhuglder

Sesiynau galw heibio SAFMEDS – 6 sesiwn yn cynnwys sawl athro/athrawes.

Ffigyrau gwyllo ar gyfer gweminar SAFMEDS:

- Cymraeg – 100 (457)
- Saesneg – 171 (927)

### **Gwella Rhuglder Darllen Llafar (iFOR)**

Dechreuodd dîm ymchwil iFOR ar y gwaith ar ddechrau mis Mai 2021. Maent bellach wedi cwblhau'r addasiadau i'r deunydd gwreiddiol gafodd eu datblygu yn 2020, gan gynnwys storïau graddedig newydd yn y ddwy iaith a hefyd wedi addasu'r deunydd a chanllaw i rieni a gofalgwyr. Cafodd gwahoddiadau i ysgolion fynychu hyfforddiant yn nhymor yr haf a thymor yr hydref 2021 eu cylchredeg ym mis Mehefin 2021 a mynychodd RW a VL gyfarfodydd y fforwm penaethiaid rhanbarthol i egluro'r rhaglen. Cafodd y deunydd hyn eu croesawu'n gadarnhaol iawn yn y cyfarfodydd hyn, yn arbennig y fersiynau Cymraeg newydd wedi'u teilwra. Mae'r tîm ymchwil wedi creu deunydd o safon uchel iawn i ysgolion. Mae'r niferoedd recriwtio cynnar yn dda iawn, ac rydym yn rhagweld bydd y niferoedd yn cynyddu'n raddol wrth i ysgolion gynllunio ar gyfer tymor yr hydref.

### **Mathemateg Uwchradd**

Mae gwefan Maths.Cymru wedi'i datblygu i gynnwys adnoddau i gefnogi ymyriadau yn CA4 a CA3. Yn CA4, mae adnoddau ar gael i gefnogi'r haenau sylfaenol a chanolraddol, gyda'r haen uwch ar gael cyn mis Medi 2021. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys fideos cyfarwyddiadol, taflenni gwaith ac atebion sy'n addas ar gyfer dysgu TGAU ac esiampl o sut i gwblhau cwestiwn TGAU mewn clip fideo.

Yn CA3, mae'r adnoddau ar gyfer rhif wedi'u datblygu a byddant i gyd ar gael cyn mis Medi 2021. Mae'r rhain yn cynnwys pwynt pŵer cyn ac ar ôl asesu, adnoddau i gefnogi dysgu sy'n cynnwys dolenni cyswllt at glipliau fideo cyfarwyddiadol, esiampl o gwestiynau a thasgau i ddysgwyr eu cwblhau a'u marcio eu hunain.

Mae gwybodaeth am y wefan a'r adnoddau ar gyfer CA4 wedi'u rhannu gyda'r HOM yn rhanbarthol yn ystod 2020 ac ar gyfer CA3 wedi'u rhannu gyda'r Cydlynwyr Rhifedd yn rhanbarthol yn ystod 2020/21. Mae defnyddio'r fforymau sydd wedi'u sefydlu wedi profi'n effeithiol.

Mae ambell ysgol yn gweithio ar dreialu'r defnydd o adnoddau Maths.Cymru i gefnogi dysgwyr gyda'u rhaglenni RRRS. Mae cefnogaeth wedi'i darparu yn ôl y galw ac mae'r prosiectau hyn ar eu camau cychwynol ar hyn o bryd. Bydd angen adolygu'r cynnydd yn ystod tymor yr hydref. Mae dwy ysgol sy'n datblygu'r prosiect – y ddwy yn Sir Gwynedd.

### **Llythrennedd Uwchradd**

Mae datblygiadau wedi bod i adnoddau gwefan Herio i gefnogi sgiliau llythrennedd syml dysgwyr. Caiff y rhain eu defnyddio ar draws y rhanbarth. Mae 11 ysgol yn gweithredu'r rhaglen ymyrryd 'Adeiladu Pŵer Darllen'. Mae 5 sesiwn hyfforddi wedi'u cynnal ac mae pob ysgol wedi mynychu'r sesiynau hyn. Mae deunydd cefnogi wedi'u datblygu ac fe gaiff cynnydd ei adolygu yn ystod tymor yr haf.

## **AMCAN 5 – CEFNOGI SYSTEM SY'N HUNAN WELLA**

**cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r cyfrwng i ddysgu a gwella'u harferion yn barhaus.**

### **YMWNEUD GYDA CHYMHEIRIAID**

**Datblygu prosesau adolygu gan gymheiriaid ymhellach mewn ysgolion er mwyn cefnogi gweithrediadau hunanwerthuso cadarn a gwaith cynllunio gwelliant ar bob lefel.**

**Datblygu'r gallu i arwain ledled y system.**

**Gwreiddio adolygu gan gymheiriaid fel agwedd allweddol o wella ysgolion ledled y rhanbarth.**

**Parhau i ddatblygu'r systemau cydweithredol ynghlwm â'r G6 sy'n hwyluso prosesau ymwneud gyda chymheiriaid yr ysgolion.**

Cyn dyfodiad y pandemig COVID, bu inni a'r Penaethiaid gytuno ar gyfres o egwyddorion rhanbarthol ar gyfer ymwneud gyda chymheiriaid. At hyn, fe ddisbarthwyd model adolygu gan gymheiriaid (*Rhaglen Partneriaeth Ysgolion*) i randdeiliaid a gafodd ei ardystio gan y Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor ar y Cyd.

Bu i holl Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) GwE dderbyn hyfforddiant a chefnogaeth barhaus yn ymwneud ag adolygu gan gymheiriaid, hwyluso, mentora a hyfforddi. Mae 22 o Gynghorwyr wedi'u hyfforddi fel adolygwyr cyfoedion a hwyluswyr gwelliant fel rhan o'r *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion*. Mae chwech Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant wedi'u hyfforddi'n llawn fel cyflwynwyr rhaglen ac mae modd iddyn nhw gynnig yr hyfforddiant *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion* i ysgolion a chlystyrau. Bydd angen mynd ati i ddatblygu mwy o Ymgynghorwyr i gyflawni hyfforddiant yn y misoedd nesaf gan gynnwys staff yr ysgolion.

Mae deuddeg clwstwr (72 ysgol) wedi derbyn yr hyfforddiant *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion* ac maen nhw un ai wedi mynd ati eisoes neu maen nhw'n paratoi i gyflawni gwaith adolygu gan gymheiriaid yn ystod tymor yr haf / cychwyn tymor yr hydref 2021. Mae 97 o bennaethiaid / uwch arweinwyr wedi'u hyfforddi fel adolygwyr cymheiriaid ledled y rhanbarth. Mae 92 o uwch arweinwyr / arweinwyr canol ac athrawon medrus wedi'u hyfforddi fel 'hwyluswyr gwelliant'. Bu hyn yn fodd i'r arweinwyr a'r athrawon fanteisio ar addysg broffesiynol o safon a byddai'n cyfrannu tuag at wella'r gallu o ran arweinyddiaeth ledled y rhanbarth. Bu i'r holl ysgolion cynradd a'r clystyrau ynghlwm dderbyn yr hyfforddiant diweddaraf ar gychwyn tymor yr haf 2021. Mae'r hyfforddiant diweddaraf ar gyfer ysgolion uwchradd / clystyrau ynghlwm wedi'i drefnu ar gyfer cychwyn tymor yr hydref 2021. Bu i'r holl ysgolion arbennig yn y rhanbarth gyflawni hyfforddiant llawn yn ystod tymor yr haf 2021.

Mae rhaglen ar waith i gynnig hyfforddiant *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion* i garfan newydd o ysgolion a chlystyrau. Y diben ydy hyfforddi oddeutu 15 o glystyrau pob tymor yn ystod y flwyddyn academaidd 2021-22 fel bod pob un o'r 407 o ysgolion rhanbarthol a'r Unedau Cyfeirio Disgyblion yn cymryd rhan yn y rhaglen adolygu cymheiriaid

erbyn diwedd y flwyddyn. Bydd y rhaglen yn cyd-fynd â'r gwaith i ddatblygu cwricwlwm newydd er mwyn cefnogi ysgolion a chlystyrau i werthuso'u cynnydd wrth gyflawni'r gwaith diwygio.

## CYMELL A MENTORA

### Darparu hyfforddiant ar hyfforddi (*coaching*) a mentora

Mae Tîm Craidd o 12 aelod o staff GwE wedi derbyn yr 8 sesiwn hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster ILM Lefel 7 'Certificate for Executive and Senior Level Coaches and Mentors'. Mae aelodau'r tîm hefyd yn ymwneud a'u haseiniad ymarferol o gymell 2 aelod o Uwch Dimau gyda nifer helaeth o'r rhain yn ysgolion GwE. Bydd rhaglen o hyfforddiant ar gyfer y flwyddyn academaidd o Medi 2021 yn cael ei drefnu a'i ddarparu gan aelodau'r tîm craidd hwn. Er nad oes gwaith cymheiriol ar gyfer goruchwylio wedi digwydd eto mae'r tîm o 12 wedi ac yn parhau i gefnogi datblygiad ei gilydd fel cymhellwyr.

### Cefnogi dysgu proffesiynol mewn Hyfforddi a Mentora.

Gweithgarwch 'Reflective Space' Cenedlaethol wedi cychwyn. Mae pawb wedi derbyn enw cymhellai ar ddechrau'r hanner tymor hwn ac wedi gwneud cyswllt e-bost gyda nifer o sesiynau cymell wedi digwydd.

Mae ceisiadau am y cynllun Mentoriaid Sefydlu wedi eu derbyn; bydd 25 o'r ymgeiswyr yn mynd ymlaen i fynychu'r rhaglen genedlaethol. (Gorffennaf 2021).

## YSGOLION SY'N ACHOSI PRYDER

### Rhaglen Beilot Cenedlaethol

Bu'r rhanbarth yn cydweithio gyda Llywodraeth Cymru ac Estyn i sefydlu panel aml-asiantaeth ar gyfer y 4 ysgol sydd yn y categori Mesurau Arbennig. Byddai cyfarfodydd cychwynnol wedi digwydd yn y 4 ysgol erbyn Gorffennaf y 5ed. O fis Medi 2021, byddai pob ysgol yn elwa o gynllun cefnogi unigryw a 'chyfannol' drwy gytundeb aml-asiantaethau. Mae trafodaethau cychwynnol ar hyn o bryd ynghylch beth ddylid ei gynnwys yn y cynlluniau hynny. Mae GwE wedi cydweithio gydag Estyn yn dwy o'r ysgolion i adnabod cerrig milltir allweddol ar gyfer y daith welliant ynghyd â diffinio'r union welliant yn ystod pob carreg milltir. Bydd angen mabwysiadu dull gweithredu tebyg ar gyfer y 2 ysgol arall.

### Cryfhau strwythurau a phrosesau rhanbarthol i gefnogi a herio YAC (Ysgolion sy'n achosi consyrn)

Mewn ymateb i'r dull cenedlaethol ynghylch ysgolion yn y categori Mesurau Arbennig, fe gafodd prosesau rhanbarthol ar gyfer cefnogi, monitro a herio ysgolion sy'n achosi pryder eu hadolygu gan weithgor *Gorchwyl a Gorffen*. Ymhlith aelodau'r gweithgor oedd Ymgynghorwyr GwE ac uwch swyddogion o'r 6 Awdurdod Lleol. Hyd yn hyn bu 6 cyfarfod a dyma'r gweithrediadau:

- Adnabod sut gallai strwythurau a phrosesau wedi'u hadolygu wella ffrwd effeithiol yr wybodaeth rhwng yr amryw haenau a sicrhau bod y cyfrifoldebau ynghylch gwneud penderfyniadau yn eglur i bawb.
- Cytuno i sefydlu grŵp aml-asiantaeth i bob Rhaglen Her Ysgolion Cymru ym mhob un o'r 6 Awdurdod Lleol. Mae'r Canllawiau ar gyfer y cylch gorchwyl a'r aelodaeth wedi'u hamlygu.
- Cytuno ar *Drothwyon a Sbardunau* lefel uchel i adnabod Rhaglen Her Ysgolion Cymru [Llinyn 1 : *Safonau, D + A, Asesu ac Arwain*; Llinyn 2 : *Cyllid, AD, Gwasanaethau Rheoli*; Llinyn 3 : *Cynhwysiant, Presenoldeb, Lles ac ADY*]
- Cytuno bod yr holl Raglenni Her Ysgolion Cymru yn meddu ar gynllun cefnogi cyfannol 360.
- Cytuno y byddai'r grŵp aml-asiantaeth lleol yn cynnal trosolwg o'r cynnydd monitro ar gyfer pob ysgol a phan fyddai pryderon yn cynyddu, eu bod yn adrodd hyn i Fwrdd Ansawdd Lleol wedi'i gadeirio gan y Cyfarwyddwr Addysg / Pennaeth Gwasanaeth. Y Canllawiau o ran y cylch gorchwyl a'r aelodaeth i'w gytuno ar lefel leol.
- Cytuno ar werthoedd ac ymddygiadau cyffredinol a fyddai'n ategu'r gwaith ledled y rhanbarth
- Cytuno ar ddiffiniad i ysgolion gael eu hadnabod ar gontinwmm ymreolaeth tuag at ddod yn Ysgol sy'n gwella'i hun [gan osgoi'r stigma ynghlwm â chategoreiddio a 'iaith' Estyn].
- Cynnal gwaith cynllunio cychwynnol ar gyfer gweithdai rhanbarthol er mwyn i ymgynghorwyr a swyddogion sicrhau bod dulliau cyffredin a chysondeb o ran adnabod 'pryderon', mewn strategaethau cefnogi ac o ran ansawdd adroddiadau. Gweithdai i'w cynnal yn ystod tymor yr hydref.

**Sicrhau bod holl YAC yn ymwneud yn effeithiol gyda rhaglenni cefnogaeth cenedlaethol a rhanbarthol ar gyfer Cwricwlwm Cymru ac yn ymwneud ag ymgysylltu gyda chymheiriad, cynghrair/clwstwr a rhwydweithio ehangach.**

Mae'r holl YAC wedi cymryd rhan yng ngweithdai Cwricwlwm i Gymru ac wedi bod yn rhan o drafodaethau dilynol gyda'u Hymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant cyswllt. Bydd y gwaith cynllunio ar gyfer Cwricwlwm i Gymru ynghlwm â'u Cynlluniau Gweithredu Ar Ôl Adolygiad / Cynllun Datblygu'r Ysgol o fis Medi ymlaen. Bu'r holl ysgolion ynghlwm â 'chynghreiriau' lleol lle buon nhw'n cydweithio gyda chymheiriaid i adnabod, datblygu a rhannu adnoddau dysgu cyfunol a chefnogi partneriaid y cynghrair gyda phrosesau ynghylch : paratoi i gyflwyno graddau yn 2021. Bydd Rhwydweithiau Meysydd Dysgu a Phrofiad ar lefel rhanbarthol a lleol ar waith o fis Medi ymlaen. Bydd angen inni sicrhau bod yr holl ysgolion yn cydweithio gyda'r Rhwydweithiau Meysydd Dysgu a Phrofiad rhanbarthol a lleol.

### **YSGOLION A GWASANAETH FEL SEFYDLIADAU SY'N DYSGU (YSD)**

**Sicrhau bod GwE a'i weithlu yn parhau i ymateb i holl ofynion a gwerthoedd Sefydliad sy'n Dysgu. Cynorthwyo ysgolion ar draws y rhanbarth nad ydynt wedi rhoi sylw i YSD i ail-gydio yn y broses yn llwyddiannus ac felly cefnogi eu taith ddiwygio ar gyfer y CiG.**

Bwriedir trefnu dysgu proffesiynol ar gyfer holl staff y gwasanaeth er mwyn eu diweddarau o ran gofynion YSD yn ystod tymor yr Hydref 2021. Bydd arweinwyr y portffolio YSD yn dadansoddi ac adnabod y prif negeseuon sydd yn deillio o arolwg staff GwE ac yn adnabod agweddau pellach i weithio arnynt. Bydd y dadansoddiad a'r prif negeseuon yn cael eu rhannu gyda'r uwch dîm i gychwyn cyn eu rhaedru gyda gweddill staff y gwasanaeth. Bwriedir cynnal trafodaethau gyda'r Bwrdd Rheoli o ran cydweithio gyda'r awdurdodau lleol er mwyn sicrhau fod ymgysylltu yn yr agwedd yma gan yr ysgolion yn gwella gan hefyd rhoi'r cyfle i'r awdurdodau eu hunain gwblhau'r arolwg Sefydliadau sy'n Dysgu.

Bydd Gweminar dwyieithog byr yn cael ei gynnig i holl ysgolion y rhanbarth er mwyn codi ymwybyddiaeth o YSD a'i berthynas efo CiG a'r daith ddiwygio yn ystod tymor yr hydref.

Bydd YCG yn hybu'r defnydd o'r arolwg YSD fel man cychwyn i ysgolion adnabod eu anghenion o ran datblygu'r 7 dimensiwn ymhellach gan gyfeirio ysgolion at yr arolwg sydd bellach ar Hwb a chydweithio efo'r ysgol yn dilyn dadansoddi er mwyn adnabod dimensiynau sydd angen gweithredu pellach.

Mae hyfforddiant i lywodraethwyr i godi ymwybyddiaeth ynglŷn ac egwyddorion YSD ar gael yn yr arlwy ar gyfer Llywodraethwyr.

Cyflwynwyd yng nghynhadledd ryngwladol ICSEI ym mis Mawrth 2021 gyda chydweithwyr o Seland Newydd, British Columbia, Lloegr, yr Almaen ac Awstralia - symposiwm o'r enw: 'Harneisio ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu i wireddu newid system yn ystod a thu hwnt i amseroedd COVID19', gyda sesiynau dilynol i gyfrannu a rhannu arfer ar draws GwE mewn papur academaidd sy'n edrych ar YSD a'r 4 thema drawsliniol.

Hyrwyddo lawnsiad yr ACGG gyda holl ysgolion y rhanbarth - mae 6 ysgol o'r gogledd wedi ymwneud â pharatoi adnoddau ar gyfer yr adnodd cenedlaethol. Mae'r lawnsiad ffurfiol bellach wedi ei ohurio i fis Tachwedd. Mae Estyn a LIC angen adnabod 90 o ysgolion dros Gymru i dreialu ymhellach – bydd yn GwE yn coladu enwau'r ysgolion sydd â diddordeb.

Oherwydd y Pandemig mae'r gofynion ar ysgolion wedi bod yn orffwysol wrth iddynt ddelio gyda materion dydd i ddydd o ran yr agwedd weithredol o redeg ysgolion. Wrth i'r cyfnodau clo lacio, mae'r ysgolion wedi ymgysylltu yn dda iawn efo'r DP o ran y Daith Ddiwygio o amgylch Cwricwlwm i Gymru.

Efallai nad yw'r ysgolion wedi sylweddoli hynny ond mae eu datblygiad dros y cyfnodau clo fel YSD wedi bod yn sylweddol, yn enwedig wrth ystyried y 4 thema trawsliniol o Amser, Technoleg, Ymddiriedaeth a Meddwl gyda'n gilydd. Mae sawl un o'r dimensiynau wedi cael sylw da yn ogystal e.e. hyrwyddo dysgu mewn tîm, creu cyfleoedd dysgu parhaus, dysgu trwy'r amgylchedd allanol.

### **FFRAMWAITH GWELLA ANSAWDD**

**Datblygu defnydd yr ysgolion o'r Pedwar Diben fel rhan o'r Fframwaith Gwella Ansawdd i werthuso ymarfer a blaenoriaethau cyfredol.**

**Creu gwell synthesis yn ymwneud â'r blaenoriaethau ar gyfer y Pedwar Diben.**

**"Gwasanaeth Paru" i gyfuno meysydd arbenigedd gyda meysydd i'w datblygu.**

Gweithrediadau arfaethedig i'w cyflawni o dymor yr Hydref ymlaen: **Tud 39**

- Yr holl ysgolion i gyflawni gwerthusiad cychwynnol, gan ddefnyddio'r fframwaith, erbyn hanner tymor yr Hydref 2021. Yr Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant i hyrwyddo'r gwaith. Mae bwriad i gynnig y fframwaith yn holl ysgolion y rhanbarth erbyn hanner tymor cyntaf yr Hydref 2021 drwy gyflwyniadau gan yr Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant i glystyrau neu ysgolion unigol.
- Casglu'r wybodaeth o bob cwr o'r rhanbarth ac adnabod y blaenoriaethau rhanbarthol a'r rheiny sy'n benodol i'r awdurdod. Bydd defnyddio'r One Drive ar y cyd ar Office 365 i gynnal y Fframwaith hefyd yn fodd i'r uned data ddadansoddi canfyddiadau'r Awdurdod ynghyd â chanfyddiadau ledled y rhanbarth.
- Arweinwyr Craidd i hwyluso gwasanaeth paru ar gyfer ysgolion yn eu hawdurdod – y tîm data i gyflwyno trosolwg penodol i'r awdurdod i'r Arweinwyr Craidd fel bod modd iddyn nhw fynd rhagddi i baru'r Gwasanaeth fel sy'n briodol.
- Ysgolion sy'n defnyddio'r Cynghreiriau Rhaglen Partneriaeth Ysgolion a'r trefniadau Clwstwr i ymateb i'r ardaloedd blaenoriaeth – cyflawni'r gwaith ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Datblygu Addysg i sicrhau bod y fframwaith Rhaglen Partneriaeth Ysgolion yn cefnogi ymateb i heriau'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer ysgolion. Caiff y defnydd o'r fframwaith felly ei ymgorffori i'r ymarfer adolygu cymheiriaid a hwyluso gwelliant y Rhaglen Partneriaeth Ysgolion.

## AMCAN 6 – BUSNES

**Sicrhau bod GwE yn meddu ar drefn llywodraethu gryf a chefnogaeth busnes a gweithredol effeithiol sy'n cynnig gwerth am arian.**

### Rheoli Perfformiad ac Atebolrwydd

Mae'r fframwaith atebolrwydd eglur a chadarn yn gryfder allweddol gan GwE. Mae cynlluniau busnes manwl yn ymwneud â'r holl lefelau cynllunio yn mynd i'r afael â holl agweddau o waith GwE ac yn dangos cyfraniad y gwasanaeth i'r agenda trawsnewid yn glir. Mae'r cynlluniau wedi'u prisio'n gyfan gwbl gyda meini prawf o ran llwyddiant a cherrig milltir eglur ar gyfer cyflawni amcanion.

Mae yna drefniadau hunanwerthuso manwl. Caiff cynlluniau eu hadolygu'n chwarterol gan werthuso'r cynnydd a'r effaith. Mae'r staff ar yr holl lefelau'n deall eu cyfrifoldebau o ran gwelliant parhaus ac atebolrwydd.

Mae pob Awdurdod Lleol yn meddu ar gynllun busnes manwl sydd wedi'i gymeradwyo gan y pennaeth gwasanaeth a'r ymgynghorydd craidd. Caiff y cynnydd tuag at yr amcanion y cytunwyd arnyn nhw ar lefel awdurdod lleol eu monitro'n chwarterol. At hyn, byddai'r ymgynghorydd arweiniol a'r Awdurdod Lleol yn eu trafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd. Caiff problemau parhaus eu cyfeirio at Uwch Arweinwyr GwE yn amserol.

Mae hunanwerthuso'n nodwedd gref yng ngwaith GwE ac mae'r broses hunanwerthuso'n gylchol ac yn barhaus. Mae pwyslais sylweddol ar atebolrwydd ac adolygu parhaus ynghyd â phwyslais cyson ar gynydd yn unol â blaenoriaethau. O ganlyniad, mae arweinwyr GwE yn adnabod meysydd perfformiad da a meysydd i'w datblygu'n gywir, neu feysydd lle mae elfen o beryg o ran gwella profiadau a deilliannau addysgiadol i'r dysgwyr.

### Gwerth am Arian

Mae gan y consortiwm brosesau rheoli cyllid effeithiol ar waith. Mae'r gwaith cyfathrebu ac ymgynghori ynghylch trefniadau ariannol yn effeithiol ac mae staff GwE, yr awdurdod lleol penodol a'r Pwyllgor ar y Cyd yn adolygu'r cyllid craidd a'r gwariant o ran grantiau'n rheolaidd.

Mae dadansoddiad ariannol cadarn yn ategu'r gwaith i gyflawni'r cynllun busnes. Mae cynllun ariannol tymor canolig a chynllun gweithlu yn cyd-fynd gyda'r cynllun busnes. Yn sgil defnydd cynyddol effeithiol o'r data i adnabod y blaenoriaethau allweddol, caiff y cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a'r penderfyniadau ynghylch cynllunio ariannol ei gryfhau. Y rheswm dros hyn ydy gan fod y ffrydiau gwaith sy'n ategu'r cynllun busnes yn nodi'r adnoddau sydd i'w defnyddio'n amlwg.

Fe luniwyd fframwaith ffurfiol i asesu'r gwerth am arian ehangach gan GwE. Mae'r rhanddeiliaid i gyd o'r un farn erbyn hyn ynghylch sut i asesu gwerth am arian gweithgareddau GwE gan gyfeirio at strwythurau ac amcanion y cynllun busnes.

### Cofnod Risg



Mae trefniadau trylwyr a chynhwysfawr ar waith i adnabod a rheoli risgiau'n gywir ar lefel lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r cofnod risgiau yn ddogfen byw ac fe gaiff ei diweddarau'n rheolaidd er mwyn adnabod risgiau cynyddol neu risgiau na chaiff eu pennu'n risgiau lefel uchel mwyach. Caiff y ddogfen ei hadolygu pob mis mewn cyfarfod arweinyddiaeth uwch. At hyn, mae'r Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor ar y cyd yn adolygu'r cofnod pob chwarter.

Mae GwE yn rheoli risgiau'r rhanbarth yn effeithiol ac mae hyn yn ei dro yn sicrhau modd iddyn nhw gefnogi amcanion y rhanbarth, defnyddio'r adnoddau'n effeithiol a bodloni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

### **Systemau rhannu gwybodaeth**

Cafodd effeithiolrwydd Tableau /Analytics fel adnodd dadansoddi ar gyfer G6 ei rannu gyda'r Uwch Dîm Rheoli. Fe sefydlwyd cyfrifon ar gyfer aelodau'r Uwch Dîm Rheoli i gychwyn ac mae disgwyl y byddwn yn sefydlu cyfrifon ar gyfer yr Arweinwyr Craidd yn ystod tymor yr Hydref 2021. Caiff gwybodaeth o'r adnodd dadansoddi ei ddefnyddio'n effeithiol eisoes i lywio adroddiadau system fel y rhaglen trawsnewid ADY a hefyd ymgysylltiad ysgolion gyda chynnig dysgu proffesiynol Cwricwlwm i Gymru. Rydym yn bwriadu sefydlu dangosfyrddau ychwanegol i ddadansoddi canlyniadau TGAU a Safon Uwch i weinyddu a llunio adroddiadau ar y cyrsiau dysgu proffesiynol caiff eu cynnig yn rhanbarthol.

Bu i'r tîm ADY a'r Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant Cyswllt gyflawni gwaith effeithiol er mwyn sicrhau bod ysgolion yn mynd ati i ail-ymwneud gyda G6 yn dilyn y cyfnodau clo yn sgil y pandemig. Bu hyn yn canolbwyntio'n enwedig ar gerrig milltir yr ADY o ran trawsnewid gan arwain at gynydd mewn ysgolion yn ymwneud gydag ac yn cwblhau'r statws ar gyfer eu cynnydd cyfredol. Bu i hyn yn ei dro arwain at ddealltwriaeth fwy eglur o'r gofynion ar gyfer y meysydd lle mae angen cefnogaeth bellach.

Yn gyffredinol, mae lefel gweithgarwch yr ysgolion ynghlwm â G6 wedi lleihau yn sgil y pandemig ond bu i'r nifer o staff ysgolion wnaeth gadw lle ar gyrsiau gan GwE gynyddu'n sylweddol o 3735 o fynychwyr yn 2019/20 i 7819 yn 2020/21. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod cyrsiau ar-lein ar gael sy'n caniatáu mwy o hyblygrwydd ond mae hefyd yn adlewyrchu'r angen i gefnogi ysgolion gyda datblygiadau newydd gan gynnwys newidiadau i'r cwricwlwm, trawsnewid ADY, rheoli newidiadau a gwella sgiliau digidol.

Cafodd rhaglen dreiglol o gyflwyno a chefnogi ei gynnydd i Benaethiaid newydd ac aelodau'r Uwch Dîm Rheoli ledled y rhanbarth a hynny'n rhithiol a drwy ymweliadau wyneb yn wyneb. At hyn, mae mwyfwy o ysgolion wedi caffael hawliau gweinyddol dros eu cyfrifon staff G6 eu hunain. O ganlyniad, mae modd i'r ysgolion hyn reoli strwythurau eu cyfrifon eu hunain ar ran eu mudiad erbyn hyn.

Bu i unigolion arweiniol gydweithio'n effeithiol gyda'r tîm digidol i ddatblygu dichonolrwydd Canolfan Gefnogaeth GwE ymhellach. Bu i gyflwyniadau gwaith i'r ardal School to School leihau'n sylweddol yn dilyn llacio'r cyfnodau clo. Fodd bynnag mae'r gwaith ymgysylltu rhanbarthol gydag ardal Adnoddau GwE yn parhau i gynyddu'n raddol. Caiff grŵp llywio newydd ei ffurfio ym mis Medi 2021 i gynllunio datblygiadau pellach.

Bu i ysgolion ledled y rhanbarth barhau i wneud defnydd effeithiol o'r Dashfwrdd Grantiau yn y gyriant Office 365 ar y cyd. Ar hyn o bryd, mae bron i 75% o ysgolion wedi manteisio ar yr adnodd ar y cyd a byddwn yn ceisio cynyddu'r swm wrth inni ddatblygu a chynnig nodweddion newydd. Bydd Dashfwrdd newydd ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf ar gael yn fuan. Byddwn hefyd yn ychwanegu'r Fframwaith Gwella Ansawdd i'r gyriant ar y cyd yn Office 365 yn ystod tymor yr Hydref.

## **2. ATODIAD 1**

Data Rhanbarthol.



Cydweithio · Dysgu · Llwyddo  
Collaborating · Learning · Succeeding



## Atodiad 2: Data Rhanbarthol Chwarter 1



[www.gwegogledd.cymru](http://www.gwegogledd.cymru)



@GwEGogleddCymru



## CYNLLUN BUSNES 2021-2022

## BLAENORIAETHAU A DARPARIAETH RHANBARTHOL 2021-2022

## Data Rhanbarthol

AMCAN 1 - CWRICWLWM AC ASESU		
<b>Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol sydd wedi'i seilio ar degwch a rhagoriaeth sy'n gosod safonau uchel i bob dysgwr</b>		
CONTINWWM ADDYSG 3 I 16		
<b>Data Rhanbarthol:</b>		
<b>Prosiect GwE a Shirley Clarke – Haen 3</b>		
Cyfanswm ysgolion ar draws y rhanbarth yn Haen 1, 2, and 3		
	<b>Ysgolion</b>	<b>Athrawon</b>
Haen 1	27	54
Haen 2	193	386
Haen 3	140	261
<b>Cyfanswm</b>	<b>260</b>	<b>701</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• 89% ysgolion y rhanbarth</li> <li>• 96% Cynradd</li> <li>• 80% Uwchradd</li> <li>• 70% Arbennig</li> </ul>		
<b>Data Asesu</b>		
Cynhaliwyd cyfres o sesiynau hyfforddiant ar draws y rhanbarth fel rhan o arweiniad Cynllunio Cwricwlwm i Gymru ar gyfer arweinwyr ysgol. Mynychodd 243 o ysgolion y rhanbarth – 210 o ysgolion Cynradd, 28 Uwchradd a 5 Arbennig		
GWIREDDU'R CWRICWLWM (CIG)		
<b>Data Rhanbarthol:</b>		
<b>Gweithdai Cwricwlwm i Gymru</b>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>• % sydd wedi mynychu un sesiwn neu mwy - 80.3%</li> <li>• 54 sesiwn</li> <li>• 108 awr o Ddysgu Proffesiynol</li> <li>• 1155 wedi mynychu'r sesiynau = 2310 awr o Ddysgu Proffesiynol i arweinwyr ysgolion</li> </ul>		
TIMAU MDaPh:		
<b>Data Rhanbarthol:</b>		
Niferoedd sydd wedi datgan diddordeb mewn cyfrannu at y rhaglen gymorth barhaus ar gyfer Ysgolion mewn perthynas â'r Daith Ddiwygio:		
<b>Dylunio Cwricwlwm yr Ysgol Gyfan</b>	<b>Asesu</b>	<b>Datgloi potensial un o'r MDaPh</b>
154	118	204

**AMCAN 2 - DATBLYGU PROFFESIWN ADDYSG O SAFON UCHEL****Gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion****IEITHOEDD TRAMOR MODERN****Data Rhanbarthol:**

- Ysgolion sydd wedi eu hyfforddi / Cerdd Iaith: 5
- Adnoddau a tanysgrifadau newydd 'Power Language': 14
- Prifysgol Agored 2020-2021: 14 Athrawon wedi'u hyfforddi
- Cymorth parhaus i ysgolion uwchradd: 4
- Nifer ysgolion / Cyfarfod Rhwydwaith: 26 Ysgolion / 31 Athrawon

**CALU - LIDCD****Data Rhanbarthol:**

- Cymorthyddion addysgu sydd newydd eu penodi:
  - 2020-21: 110
  - Haf 2021-22: 3
- Darpar CALU Cylch 2: 50
- Statws CALU Cylch 1: 22
- Aseswyr CALU: 21
- Dosbarth Google i gymorthyddion: 1898 erbyn Haf 2021

**Y Gymraeg (DP)****Data Rhanbarthol:**

- Cynllun Sabothol, Cwrs Cymraeg mewn Blwyddyn 2020-21 (cwblhau Haf 2021): 11
- Hyfforddiant ar-lein Croeso: Ymarferwyr mewn Addysg:
  - Cofrestru: 94
  - Cwblhau Rhan 1: 52
  - Cwblhau Rhan 2: 43

**LEFEL A****Data Rhanbarthol:**

- Rhwydweithio a rhannu arfer dda: 20

**DIGIDOL****Data Rhanbarthol:**

- Ymgysylltiad Rhanbarthol Hwb yn Chwarter 1: 98.3%

**MATHEMATEG A RHIFEDD****Data Rhanbarthol:**

- Ysgolion cynradd ysgolion sy'n achosi pryder / cefnogaeth benodol: 7
- *Financial Education*
  - Nifer o athrawon sydd wedi cofrestru ar gyfer e-ddysgu: 87
  - Hyfforddiant wyneb yn wyneb: 56

**SAESNEG A LLYTHRENNEDD****Data Rhanbarthol:**

- Ysgolion sy'n achosi pryder: 5

**Y GYMRAEG A LLYTHRENNEDD****Data Rhanbarthol:**

- Cyfarfodydd rhwydweithiau ar y cyd ac mewn rhwydweithiau llai: 27
- Cyfarfod 'Y Gymraeg ar Garlam': 27 o ysgolion (cynrychiolwyr o'r ysgolion yn benaethiaid adrannau a chydlynwyr Llythrennedd)
- Gweithdai digidol 'Be' sy'n bosib?' (GwE): cofrestrodd 148 o athrawon (cynradd / uwchradd) y rhanbarth i fynychu'r gyfres o weithdai
- Gweithgorau Cenedlaethol CA3, CA4 a 5 2020-21: 9
- Cyfarfodydd ANG Y Gymraeg 2020-21: 9

**GWYDDONIAETH****Data Rhanbarthol:**

- Gweminar Gwyddoniaeth cynradd, 17 Mai 2021 - Mynychwyr Cofrestredig: 79  
Dyma'r nifer yr athrawon a gofrestrodd ar gyfer y sesiwn. Roedd y niferoedd ar y weminar ar y pryd oddeutu 100.

**CYFNOD SYLFAEN****Data Rhanbarthol:**

- Cymorth pwrpasol i ysgolion: 24
- Cymorth pwrpasol i glystyrau: 3
- Hyfforddiant a chyfarfodydd rhwydwaith y Cyfnod Sylfaen: 1,384

**AMCAN 3 - ARWEINYDDIAETH**

**Cefnogi arweinwyr ysbrydoledig yn cydweithio i godi safonau. Yn cynnwys darpar arweinwyr a rhwydweithiau proffesiynol.**

**ARWEINYDDIAETH****Data Rhanbarthol:**

1. Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol (RhDAG): 98

## Atodiad 2

2. Rhaglen Datblygu Uwch Arweinwyr: 61
3. Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid (paratoi ar gyfer CPCP): 71
4. Rhaglen Datblygu Penaethiaid Newydd a Phenaethiaid Dros Dro: 46
5. Rhaglen Datblygu Penaethiaid Profiadol: 17

**CYFANSWM: 294**

### CYNGHREIRIAU/RHWYDWEITHIAU/CLYSTYRAU

#### Data Rhanbarthol:

- Nifer ysgolion uwchradd sy'n cymryd rhan mewn cynghrair : 53
- Nifer ysgolion cynradd sy'n cymryd rhan mewn cynghrair: 331
- Nifer yr ysgolion uwchradd sy'n cydweithio mewn clwstwr CiG: 54
- Nifer yr ysgolion cynradd sy'n cydweithio mewn clwstwr CiG: 331
- Nifer o staff ysgolion uwchradd sy'n ymwneud â'r tîm rhanbarthol CiG [Dylunio, Asesu Cwricwlwm, MDaPhx6]: i'w gadarnhau
- Nifer o staff ysgolion cynradd sy'n ymwneud â'r tîm rhanbarthol CiG [Dylunio, Asesu Cwricwlwm, MDaPhx6]: i'w gadarnhau

### AMCAN 4 - YSGOLION CRYF A CHYHNHWYSOL

yn ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant

#### GDD PMG

#### Data Rhanbarthol:

- Ymweliadau / Cefnogaeth Ysgolion Unigol: 20
- Fforymau / Clystyrau Penaethiaid: 7
- Swyddogion PMG ALL: 12
- Swyddogion ALL (ADY / Seicolegwyr Addysg / Lles / Ysgolion Iach / Blynyddoedd Cynnar): 15
- Panel Rhiantu Corfforaethol: 3
- Fforwm Llywodraethwyr ALL: 1

#### Dysgu proffesiynol i ysgolion unigol:

- Hyfforddi *Emotion Coaching* Ysgol Gyfan: 20 aelod o staff
- Ymlyniad a chefnogi staff LAC: 15
- Ymarfer Gwybodus am drawma: 24 aelod o staff
- Staff ADY: 17

### STRATEGAETH I GEFNOGI RHIENI/GOFALWYR

#### Data Rhanbarthol:

Wedi ei gyflwyno i:

- Cynradd: 6 x Fforwm Penaethiaid yr ALL
- Uwchradd: 6 x Fforwm Penaethiaid yr ALL
- Clystyrau: 29
- Ysgolion: 195

**AIL GYNNAU DYSGU****Data Rhanbarthol:**

Nifer ysgolion sy'n cymryd rhan yn y gwahanoo brosiectau:

- *Remote Instruction of Language and Literacy (RILL) – PHASE 2:* 26
- *Precision Teaching a SAFMEDS:* 7
- *Improving fluency in Oral Reading (iFOR):* 42
- Llythrennedd Uwchradd: 10

**AMCAN 5- CEFNOGI SYSTEM SY'N HUNAN WELLA**

cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r cyfrwng i ddysgu a gwella'u harferion yn barhaus.

**YMGYSYLLTU Â CHYMHEIRIAID****Data Rhanbarthol :**

- Nifer ysgolion / clystyrau sy'n cymryd rhan: 72/12
- Adolygwyr cymheiriaid wedi'u hyfforddi: 97
- Hwyluswyr gwella wedi'u hyfforddi: 92

**YSGOLION SY'N ACHOSI PRYDER****Data Rhanbarthol:**

- Nifer YAC uwchradd rhanbarthol: 11
- Nifer YAC cynradd rhanbarthol : 2
- Nifer ysgolion uwchradd sy'n cymryd rhan yn peilot cenedlaethol YAC [mesurau arbennig]: 4
- Nifer YAC uwchradd rhanbarthol sy'n cymryd rhan yn y rhaglen bartneriaeth ysgolion: 5
- Nifer YAC cynradd rhanbarthol sy'n cymryd rhan yn y rhaglen bartneriaeth ysgolion: 0
- Nifer YAC uwchradd rhanbarthol sy'n cymryd rhan mewn cynghrair cydweithredol: 11
- Nifer YAC cynradd rhanbarthol sy'n rhan o gydweithio clwstwr: 2
- Nifer YAC uwchradd rhanbarthol sydd wedi cymryd rhan mewn gweithdai CiG a thrafodaethau dilynol: 11
- Nifer YAC cynradd rhanbarthol sydd wedi cymryd rhan mewn gweithdai CiG a thrafodaethau dilynol: 2
- Nifer YAC uwchradd rhanbarthol sy'n rhan o'r Tim Rhanbarthol CiG [Dylunio Cwricwlwm, Asesu, MDaPhx6]: i'w gadarnhau
- Nifer YAC cynradd rhanbarthol sy'n rhan o'r Tim Rhanbarthol CiG [Dylunio Cwricwlwm, Asesu, MDaPhx6]: i'w gadarnhau

- Nifer y swyddogion ac ymgynghorwyr sy'n cymryd rhan yn y Grŵp Tasg a Gorffen rhanbarthol: 16

### AMCAN 6 – BUSNES

**sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol  
effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian.**

#### Data rhanbarthol:

Systemau rhannu gwybodaeth:

- Canolfan Gefnogaeth GwE (Mehefin 2021)
  - Nifer sydd wedi ymweld â'r safle - 39,643
  - Nifer sydd wedi lawrlwytho - 7,807
- % o ysgolion sydd wedi cwblhau'r dashfwrdd grantiau: 74%
- Nifer sydd wedi cadarnhau lle drwy G6 ar gyfer DP sy'n cael ei gynnig gan GwE: 7819 (3735 yn 2019/20. 4104 yn 2018/19)





## ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

22 MEDI 2021

---

**Adroddiad gan:** Alwyn Jones - Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE

**Testun:** Cefnogi arweinwyr a staff mewn ysgolion ac UCD i arfarnu eu darpariaeth wrth ymateb i COVID-19 a gweld beth lwyddodd a pha feysydd sydd angen mwy o sylw

---

### 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno'r adroddiad 'Cefnogi arweinwyr a staff mewn ysgolion ac UCD i arfarnu eu darpariaeth wrth ymateb i COVID-19 a gweld beth lwyddodd a pha feysydd sydd angen mwy o sylw', i aelodau'r Cyd-bwyllgor.

### 2.0 Cefndir

2.1 Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o sut y mae ysgolion ac UCD yng Ngogledd Cymru wedi ymateb i COVID-19, ac mae'n seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd gan Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant GwE yn rhan o'u gwaith yn cefnogi ysgolion yn ystod tymor y Gwanwyn a'r Haf, 2021. Yn ystod y cyfnod hwn, canolbwyntiwyd yn bennaf ar weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion ac UCD i roi cymorth iddynt arfarnu ansawdd ac effaith eu darpariaeth yn ystod y cyfnodau clo.

2.2 Defnyddiwyd y templed a geir yn Atodiad 1 i 'brocio' trafodaeth efo'r ysgolion, ac hefyd i gofnodi a chasglu'r wybodaeth a gafwyd. Er hynny, nid oedd rheidrwydd i ysgolion ddefnyddio'r templed hwn. Pwysleisiwyd mai enghreifftiau yn unig oedd y cwestiynau a gyflwynwyd o feysydd ac agweddau i'w hystyried ac nad y bwriad oedd iddynt gael eu dehongli fel rhestr gynhwysfawr a therfynol. Adroddiad hunanarfarnu yr ysgol a'u prosesau casglu dystiolaeth oedd man cychwyn pob trafodaeth.

---

### 3.0 **Ystyriaethau**

3.1 Ar gyfer pob ysgol ac UCD, adroddodd yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant ar:

- Sut y mae'r ysgol wedi gwerthuso ei darpariaeth a'i heffaith yn ystod y cyfnod clo;
- Beth mae'r ysgol wedi'i adnabod yw cryfderau allweddol ei darpariaeth ar gyfer dysgu ac addysgu yn ystod y cyfnod clo;
- Sut y mae'r ysgol yn bwriadu datblygu ar ei llwyddiannau er mwyn datblygu'r cwricwlwm newydd;
- Pa welliannau mewn darpariaeth a safonau y mae'r ysgol wedi'u hadnabod yn sgil targedu ei gwariant grant;
- Tystiolaeth yr ysgol o effaith cymorth/ymwneud GwE ac adnabod cymorth ychwanegol wrth symud ymlaen;
- Meysydd sydd angen eu datblygu a'u cefnogi ymhellach.

3.2 Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r trafodaethau gyda'r ysgolion, ynghyd â'r meysydd sydd angen eu datblygu a'u cefnogi ymhellach.

3.3 Mae'r broses arfarnu wedi adnabod y blaenoriaethau rhanbarthol lefel uchel fel a ganlyn:

- Sefydlu strategaeth ranbarthol glir i weithredu cynllun adfer COVID-19 Llywodraeth Cymru: Adnewyddu a diwygio i gefnogi lles a chynnydd dysgwyr (cyhoeddwyd yn gyntaf 16 Mehefin 2021).
- Sefydlu rhwydweithiau datblygu i bob Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) ar lefel ranbarthol a lleol fel bod arweinwyr ysgol ac ymarferwyr yn gallu cydweithio i ddatgloi potensial pob Maes drwy fodelu, dylunio a rhannu arferion cwricwlwm.
- Sicrhau bod cyswllt uniongyrchol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, yn parhau er mwyn cefnogi dysgwyr i bontio waeth beth yw'r amserlen weithredu a ddefnyddir gan yr ysgol uwchradd.
- Datblygu fframwaith ansoddol rhanbarthol er mwyn dangos ac arfarnu cynnydd ysgol/clwstwr mewn dull cyfannol.
- Adolygu prosesau i roi sylw i ysgolion sy'n destun pryder a gweithio gydag Awdurdodau Lleol i sefydlu a gweithredu strwythurau a phrotocolau rhanbarthol ar gyfer adnabod, cefnogi a herio Ysgolion sy'n Destun Pryder.

- Cryfhau ymhellach y diwylliant, yr ymddygiad, y systemau a'r prosesau er mwyn cymell arweinwyr ac athrawon i gyd-ymdrechu er sicrhau gwelliant ysgol.

#### **4.0 Argymhellion**

- 4.1 Gofynnir i'r Cydbwyllgor dderbyn a chymeradwyo cynnwys yr adroddiad ynghyd â'r blaenoriaethau rhanbarthol lefel uchel a amlinellir uchod.

#### **5.0 Goblygiadau Ariannol**

- 5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

#### **6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

- 6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

#### **7.0 Goblygiadau Personél**

- 7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

#### **8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

- 8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE.

#### **9.0 Atodiadau**

- 9.1 Atodiad 1 – Cefnogi arweinwyr a staff mewn ysgolion ac UCD i arfarnu eu darpariaeth wrth ymateb i COVID-19 a gweld beth lwyddodd a pha feysydd sydd angen mwy o sylw

---

### **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

#### **Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

#### **Swyddog Cyllid Statudol:**

Nodaf fod rhan 5.1 o'r adroddiad blaen yn cadarnhau nad oes unrhyw ymhlygiadau ariannol yn codi o'r penderfyniad a geisir yma.

## **Cefnogi arweinwyr a staff mewn ysgolion ac UCD i arfarnu eu darpariaeth wrth ymateb i COVID-19 a gweld beth lwyddodd a pha feysydd sydd angen mwy o sylw**

### **CEFNDIR A CHYD-DESTUN**

Mae'r ymateb i COVID-19 wedi newid ein bywydau yn aruthrol. Yn y cyd-destun heriol hwn, amharwyd yn sylweddol ar y system addysg ac ysgolion. Ar 23 Mawrth 2020, newidiwyd pwrpas ysgolion, i gefnogi plant gweithwyr allweddol a rhai dysgwyr bregus ar yr un pryd â chefnogi pob dysgwr i aros yn ddiogel a dal ati i ddysgu gartref.

Ar 3 Mehefin 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LIC) y byddai ysgolion yn ailagor yn raddol o 29 Mehefin, 2020 er mwyn rhoi cyfle i bob disgybl "ddod i'r ysgol, dal ati i ddysgu a pharatoi". Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chanllawiau Dysgu [<https://llyw.cymru/canllawiau-ar-ddysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-coronafeirws>] i gynnig cyngor ar y dysgu a'r addysgu a fyddai'n digwydd mewn ysgolion a lleoliadau am weddill tymor yr Haf ac i gefnogi ymarferwyr wrth iddynt baratoi ar gyfer tymor yr Hydref.

Ar 9 Gorffennaf, 2020 cadarnhaodd y Gweinidog Addysg y byddai pob disgybl yn dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi ac y byddai'n ofynnol i ysgolion dychwelyd yn llawn erbyn 14 Medi. Cyhoeddodd y Llywodraeth ragor o ganllawiau dysgu [<https://llyw.cymru/canllawiau-ar-ddysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-o-dymor-yr-hydref-covid-19>] ar gyfer tymor yr Hydref, oedd yn rhoi set gyffredin o flaenoriaethau ar gyfer dysgu i ysgolion a phartneriaid cefnogi, waeth beth oedd lefel y gweithredu mewn ymateb i COVID-19.

Yn ystod Tymor yr Hydref, roedd yr effaith ar ysgolion yn amrywio'n sylweddol ar draws y rhanbarth. Mewn rhai ysgolion, roedd blynyddoedd cyfan yn gorfod hunan-ynysu gartref yn rheolaidd am gyfnod estynedig, tra bo eraill yn gallu agor i bob disgybl drwy gydol y tymor.

Ar 4 Ionawr 2021, yn sgil cyflwyno ail gyfnod clo, parhaodd yr ysgolion ar gau i bob plentyn ar wahân i blant gweithwyr allweddol a rhai dysgwyr bregus, a gwelwyd ysgolion yn darparu dysgu o bell am ran fwyaf Tymor y Gwanwyn.

Yn yr wythnos yn cychwyn 22 Chwefror 2021, dechreuodd blant dan 7 oed yn y Cyfnod Sylfaen yn ôl yn yr ysgol, efo plant ysgolion cynradd eraill a myfyrwyr uwchradd hŷn (Blynyddoedd 11 ac 13) yn dychwelyd i'r ysgol ar 15 Mawrth 2021. O 12 Ebrill 2021, dychwelodd ysgolion cynradd, arbennig ac uwchradd a'r Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCD) i ddarparu darpariaeth ar y safle i bob dysgwr.

### **PWRPAS YR ADRODDIAD**

Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o sut y mae ysgolion ac UCD yng Ngogledd Cymru wedi ymateb i COVID-19 ac mae'n seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd gan Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant GwE yn rhan o'u gwaith yn cefnogi ysgolion yn ystod tymor y Gwanwyn a'r Haf, 2021. Yn ystod y cyfnod hwn, canolbwyntiwyd yn bennaf ar weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion ac UCD i roi cymorth iddynt arfarnu ansawdd ac effaith eu darpariaeth yn ystod y cyfnodau clo.

Defnyddiwyd y templed a geir yn Atodiad 1 i 'brocio' trafodaeth efo'r ysgolion, ac hefyd i gofnodi a chasglu'r wybodaeth a gafwyd. Er hynny, nid oedd rheidrwydd i ysgolion ddefnyddio'r templed hwn. Pwysleisiwyd mai enghreifftiau yn unig oedd y cwestiynau a gyflwynwyd o feysydd ac agweddau i'w hystyried ac nad y bwriad oedd iddynt gael eu dehongli fel rhestr gynhwysfawr a therfynol. Adroddiad hunanarfarnu yr ysgol a'u prosesau casglu tystiolaeth oedd man cychwyn pob trafodaeth.

Ar gyfer pob ysgol ac UCD, adroddodd yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant ar:

- Sut y mae'r ysgol wedi gwerthuso ei darpariaeth a'i heffaith yn ystod y cyfnod clo;
- Beth mae'r ysgol wedi'i adnabod yw cryfderau allweddol ei darpariaeth ar gyfer dysgu ac addysgu yn ystod y cyfnod clo;
- Sut y mae'r ysgol yn bwriadu datblygu ar ei llwyddiannau er mwyn datblygu'r cwricwlwm newydd;
- Pa welliannau mewn darpariaeth a safonau y mae'r ysgol wedi'u hadnabod yn sgil targedu ei gwariant grant;
- Tystiolaeth yr ysgol o effaith cymorth/ymwneud GwE ac adnabod cymorth ychwanegol wrth symud ymlaen;
- Meysydd sydd angen eu datblygu a'u cefnogi ymhellach.

## **PRIF GANFYDDIADAU**

### **SECTOR CYNRADD AC ARBENNIG**

#### **Sut mae ysgolion wedi gwerthuso eu darpariaeth a'i heffaith yn ystod y cyfnod clo?**

Ar y cyfan, mae ysgolion cynradd ac arbennig wedi defnyddio canllawiau cenedlaethol, rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn amserol ac yn bwrpasol drwy gydol pandemig COVID. Mae bron pob ysgol wedi llwyddo i werthuso ansawdd ei darpariaeth drwy'r cyfnod clo gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth a thystiolaeth defnyddiol, gan gynnwys trafodaethau rheolaidd ag ysgolion clwstwr eraill a swyddog cyswllt GwE. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi casglu barn rhanddeiliaid drwy holiaduron i ddisgyblion a rhieni, galwadau ffôn neu sgysiau ag unigolion. Mae llawer wedi addasu a gwella eu darpariaeth yn sylweddol ar sail y canfyddiadau hyn. Mae natur ymholiadau wedi amrywio ac wedi cynnwys ystod eang o gwestiynau yn ymwneud â holi am les, sicrhau bod gan ddisgyblion offer priodol i gwblhau eu gwaith, holi am gysylltiad digidol ac yn ymwneud ag amllder, priodoldeb ac ansawdd y ddarpariaeth ar draws pynciau.

Mae'r rhan fwyaf o benaethiaid ac uwch arweinwyr wedi cael mynediad at ddisbarthiadau digidol athrawon ac wedi bod yn craffu yn anffurfiol ar waith dysgwyr ac yn monitro ansawdd y ddarpariaeth dysgu o bell a dysgu cyfunol yn rheolaidd. Yn rhai o'r arferion gorau, gwelwyd dysgu ac addysgu byw neu gydamsol, yn ogystal â sesiynau lles o bell. Mae llawer o arweinwyr a staff wedi gwerthuso'r ddarpariaeth drwy fonitro gwaith disgyblion ar lwyfannau digidol fel Google Classrooms a SeeSaw. Mae hyn wedi cynnwys monitro asesiadau ffurfiannol ac ansawdd yr adborth i ddisgyblion. Mae rhai ysgolion wedi datblygu systemau fel bod modd trafod yn agored, yn onest ac yn gyson efo rhieni, monitro cysondeb y ddarpariaeth rhwng dosbarthiadau a monitro lles eu staff a chymuned yr ysgol.

Llwyddodd rai ysgolion cynradd wedi llwyddo i gynnal sesiynau craffu ar lyfrau mwy ffurfiol, teithiau dysgu ac arsylwi ambell wers (weithiau fel rhan o Reoli Perfformiad Staff).

Bu ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cefnogi lles disgyblion yn gryfder, gyda bron pob ysgol yn cysylltu â disgyblion a theuluoedd yn rheolaidd. Roedd trefniadau cadarn ar waith ar draws y rhan fwyaf o ysgolion i fonitro lefelau presenoldeb ac ymgysylltu yn ystod y cyfnodau clo. Adroddodd llawer o ysgolion bod lefelau ymgysylltu wedi gwella'n gyson yn yr ail gyfnod clo yn mis Ionawr 2021. Nododd rai ysgolion fod tarfu ar lefel isel pan ddychwelodd dysgwyr i'r ysgol a bod ychydig o ddisgyblion yn methu ail-gydio â bywyd ysgol.

Cafodd dysgu disgyblion ei olrhain drwy lu o wahanol ddulliau mewn ysgolion ar draws y rhanbarth, gyda llawer yn canolbwyntio ar ystod o sgiliau sylfaenol gan gynnwys defnyddio data llythrennedd a rhifedd. Mae ansawdd y systemau olrhain cynnydd disgyblion yn amrywio rhwng ysgolion. Er hynny, roedd bron pob arweinydd yn olrhain ymgysylltiad yn effeithiol yn

ystod y cyfnod clo a datblygodd rai systemau hynod effeithiol ar gyfer olrhain a thargedu darpariaeth i deuluoedd.

Rhoddodd llawer o ysgolion flaenoriaeth i weithio gydag unigolion a welwyd oedd yn fregus neu angen cymorth ychwanegol. Roedd y cymorth i ddisgyblion bregus yn aml yn amserol a chafodd teuluoedd amrywiaeth o ffyrdd o ddysgu gan gynnwys gweithgareddau ar bapur. Er hynny, gwelodd llawer o arweinwyr nad oedd y dysgwyr hyn wastad yn gwneud y cynnydd disgwylidig yn ystod y cyfnod clo a bod rhai dysgwyr ADY ac/neu ddysgwyr oedd yn arfer cael anhawster, wedi cymryd cam yn ôl yn safon eu sgiliau iaith a mathemateg. Mae llawer o ysgolion wedi gweithredu mesurau priodol i gefnogi a thargedu'r dysgwyr hyn. Mae bron pob ysgol wedi cynnal rhyw ffurf o asesiadau gwaelodlin wrth ddychwelyd i'r ysgol yn sgil y cyfnod clo er mwyn pennu lefel y cymorth a'r ymyrraeth angenrheidiol ac adnabod grwpiau targed o ddisgyblion. Nododd nifer o ysgolion fod safonau disgyblion wedi llithro yn sgil y cyfnod clo cyntaf a'u bod wedi gweithredu strategaethau ymyrraeth llwyddiannus i godi safonau wrth i ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol mis Medi 2020.

Nododd rai ysgolion ddirywiad yn sgiliau Cymraeg disgyblion gyda hyn yn dibynnu ar iaith yr aelwyd.

Llwyddodd Penaethiaid i gynnal cyfarfodydd staff a chyfarfodydd tîm rheolaidd ar lwyfan ddigidol drwy gydol y cyfnod clo, er mwyn trafod a monitro ymgysylltiad, cynnydd disgyblion ac addasrwydd tasgau, darpariaeth ADY a lles disgyblion. Mae bron pob ysgol wedi ystyried effaith eu darpariaeth a'i haddasu yn briodol wrth i'r cyfnod clo barhau.

Parhaodd llawer o ysgolion i gynnal cyfarfodydd rithiol i lywodraethwyr yn rheolaidd yn ystod y cyfnod clo, gan gynnwys cynnal Rheoli Perfformiad i Benaethiaid. Mae llawer hefyd wedi trafod canfyddiadau holiaduron/arfarniad gyda'r corff llywodraethu, ond prin fu'r cyfleoedd i lywodraethwyr ymweld ag ysgolion yn ffurfiol i gynnal gweithgareddau monitro ac arfarnu. Er hynny, roedd llywodraethwyr yn gynyddol ran o hunan arfarnu yn ystod tymor y Gwanwyn a'r Haf, 2021 mewn llawer o ysgolion. Mewn rhai ysgolion, mae hyn wedi cynnwys arfarnu adroddiadau monitro a chynnal gweithgareddau fel craffu ar waith disgyblion.

Nododd llawer o ysgolion cynradd ac arbennig fod eu harfarniadau wedi bod yn fodd iddynt barhau i ganolbwyntio ar gynllunio gwelliant drwy gydol y cyfnod ac y gwelsant fod angen gwella sgiliau allweddol a lles a pharhau i wella'r ddarpariaeth ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru a Thrawsnewid ADY.

### **Beth mae ysgolion wedi adnabod yw cryfderau allweddol eu darpariaeth ar gyfer dysgu ac addysgu yn ystod y cyfnod clo?**

Gwelwyd cryfder yng ngallu staff a disgyblion i addasu'n gyflym i newid, gyda llawer yn gwella eu sgiliau digidol a'u defnydd o wahanol feddalwedd ac apiau yn sylweddol. Dywedodd bron pob ysgol bod gallu staff i addasu a bod yn greadigol wrth ddatblygu dulliau dysgu o bell a chyfunol yn gryfder. Roedd gwahaniaeth amlwg yn ansawdd y ddarpariaeth rhwng y cyfnod clo cyntaf a'r ail, gyda'r rhan fwyaf o ysgolion yn darparu tasgau amrywiol ac ystyrion. Roedd llawer o athrawon yn gallu addasu eu darpariaeth i roi cynnig oedd cyn agosed â phosibl at eu harferion dosbarth arferol. Yn ôl llawer o ysgolion, maent wedi defnyddio llwyfannau digidol amrywiol yn effeithiol ar gyfer dysgu, gan gynnwys See Saw, Class Dojo, Teams a Google Classrooms, sydd yn gadael i uwch arweinwyr fonitro safon y ddarpariaeth yn rhwydd. Gwelwyd y ddarpariaeth ar gyfer ffrydio byw neu ddysgu cydamserol yn gwella'n sylweddol yn ystod yr ail gyfnod clo.

Gwelwyd ansawdd 'Asesu ar gyfer Dysgu' athrawon drwy gyfrwng dysgu o bell yn gwella ac yn datblygu i gynnwys rhoi adborth ar waith disgyblion ar ffurf recordiad llais yn ogystal â

syllwadau wedi'u hysgrifennu. Fel hyn, roedd yr athro a'r disgybl yn gallu siarad am y dysgu mewn llawer o ysgolion, oedd yn rhoi cyfle i ddisgyblion ymateb i adborth a gwella'u gwaith terfynol. Nododd lawer o ysgolion fod amrywiaeth gyfoethog o dasgau wedi'u darparu, gan gynnwys tasgau llythrennedd a rhifedd, gwaith thema yn ogystal â gweithgareddau corfforol, creadigol a lles. Magodd lawer o ddisgyblion hyder o ran asesu ansawdd eu gwaith eu hunain a dod yn fwy annibynnol yn eu dysgu.

Roedd bron i bob ysgol yn rhoi blaenoriaeth i'w trefniadau bugeiliol a lles ac yn rhoi lles disgyblion a staff wrth wraidd eu dulliau yn ystod y cyfnod clo. Bu ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cefnogi lles disgyblion yn gryfder, gyda bron pob ysgol yn cysylltu â disgyblion a theuluoedd yn rheolaidd. Codwyd pryderon i'r awdurdod lleol am deuluoedd nad oedd modd cysylltu â nhw.

Roedd llawer o ysgolion yn teimlo y bu mwy o ymdeimlad o gydweithio a gwaith tîm yn ystod y cyfnod hwn. Roedd hyn yn ymestyn i'w hysgolion clwstwr a thu hwnt. Drwy ddatblygu Canolfan Cefnogaeth GwE, roedd hyn yn annog i adnoddau ac arbenigedd gael eu rhannu ac yn cyfrannu at athrawon yn cael trafodaethau ystyrlon am ansawdd y ddarpariaeth. Drwy ddefnyddio llwyfannau digidol, roedd hyn yn gwneud y broses yn fwy effeithlon o ran amser ac yn paratoi'r ffordd i ysgolion fod yn gweithio a chydweithio maes o law.

Mae llawer o arweinwyr wedi gweld cyfle i adolygu'r drefn gyffredinol o gysylltu â rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod - gwnaed y drefn yn fwy effeithiol ac effeithlon ac fe'i defnyddiwyd i gefnogi'r dysgu, er enghraifft drwy newyddlenni rheolaidd, bwletinâu fideo, defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol ac ati. Yn sicr, gwelwyd y cyswllt â rhieni yn gwella dros y cyfnod clo. Er hynny, nododd lawer o ysgolion yr angen i gefnogi rhieni a gofalwyr yn fwy effeithiol i helpu eu plentyn i ddysgu.

Roedd y ddarpariaeth i blant gweithwyr allweddol mewn ysgolion yn gryf ac yn well dros y cyfnod, ac yn symud o fod yn ddarpariaeth gofal plant yn y rhan fwyaf o ysgolion i fod yn rhoi pwyslais ar ddysgu a lles. Mewn llawer o ysgolion yn ystod yr ail gyfnod clo, roedd y ddarpariaeth i blant gweithwyr yn cyd-fynd yn well â dysgu cyfunol o bell a arweiniodd at wella cysondeb a chefnogi disgyblion wrth iddynt drosglwyddo yn ôl i'r ysgol. Chwaraeodd cymorthyddion dysgu rôl amlwg wrth ddarparu'r cymorth hwn mewn llawer o ysgolion.

Mewn llawer o ysgolion cynradd, gwnaed defnydd da iawn o ystod o ddangosyddion perfformiad dibynadwy a defnyddiol, gan gynnwys data sillafu, darllen a rhifedd safonedig ac/neu asesiad athro i fesur effaith cyfnod clo COVID-19 ar gynnydd a safonau disgyblion. Yna aeth ysgolion i adnabod disgyblion oedd yn cael anhawster ac angen cymorth ychwanegol. Ar draws y clystyrau, mae disgyblion y mae arnynt angen cymorth ychwanegol yn cael amrywiaeth o strategaethau a rhaglenni effeithiol e.e. rhwyddineb rhifedd SAFMEDS, Headsprout, Reading Eggs, ELSA a'r rhaglen RILL newydd. Drwy ddefnyddio asesiadau diagnostig fel hyn, mae ysgolion wedi gallu monitro cynnydd disgyblion yn agos.

Yn sgil dychwelyd i'r ysgol yn llawn amser fis Mawrth 2021, mae llawer o ysgolion wedi cychwyn ystod gwerthfawr o ddarpariaethau lles ac academaidd sy'n seiliedig ar dystiolaeth, fel rhaglenni Seasons for Growth, Friends Resilience ac ELSA.

### **Sut y mae ysgolion yn bwriadu datblygu ar eu llwyddiant er mwyn datblygu'r cwricwlwm newydd?**

Un canlyniad cadarnhaol i'r pandemig yw bod cydweithio cryf wedi datblygu mewn ysgolion ac ar draws clystyrau. Mae hyn yn ddatblygiad cryf iawn i'r rhanbarth ar gyfer paratoi am y cwricwlwm newydd a'i weithredu. Mae pedair thema drawsliniol Sefydliadau sy'n Dysgu

(amser, ymddiriedaeth, meddwl gyda'n gilydd a thechnoleg) wedi bod yn amlwg iawn drwy gydol y cyfnodau clo. Mae defnyddio technoleg fwyfwy wedi rhoi rhwydd hynt i berthynas a chydweithio ddatblygu ymhellach gan roi sail gadarn i ysgolion a chlystyrau symud ymlaen gyda'u paratoadau am y cwricwlwm newydd.

Mae llawer o aelodau staff wedi gorfod uwch sgilio yn gyflym wrth i'r ddarpariaeth symud at lwyfan ddigidol. Mae'r rhan fwyaf o benaethiaid wedi gweld bod cymhwysedd digidol yn faes sydd wedi datblygu'n dda dros y deuddeg mis diwethaf ac maent yn awyddus iawn bod y cynnydd hwn yn nysgu digidol disgyblion a staff yn parhau. Mae ysgolion wedi manteisio ar ystod o ddysgu proffesiynol gan y consortia rhanbarthol ar ddefnyddio technoleg ddigidol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Bellach, mae mwy o ymarferwyr yn gallu defnyddio ystod o dechnoleg yn hyderus i gefnogi'r dysgu. Mae llawer o ysgolion cynradd wedi seilio eu darpariaeth dysgu o bell a chyfunol ar y 12 egwyddor addysgegol fel yr amlinellir yn *adroddiad Dyfodol Llwyddiannus*. Bwriad ysgolion yw datblygu ar eu pwyntiau twf yn ystod y cyfnodau clo i ddatblygu ymhellach ehangder profiadau a chynnydd dysgwyr. Enghraifft o hyn yw'r pwyslais cynyddol ar addysgeg cwestiynau mawr yn gysylltiedig â datganiadau o'r hyn sy'n bwysig/Meysydd Dysgu a Phrofiad. Nododd y mwyafrif o ysgolion eu bod wedi defnyddio'r amser hwn fel cyfle i arbrofi â dulliau addysgu, ac yn dewis parhau i rannu gwaith ar lwyfannau digidol o fewn y dosbarth, er mwyn datblygu sgiliau dysgu annibynnol dysgwyr.

Mae bron pob ysgol gynradd ac arbennig eisoes wedi dechrau ystyried eu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm newydd, yn ystyried beth sy'n berthnasol i'r ardal leol, Cymru a'r byd ehangach.

Roedd lles staff a disgyblion yn ystyriaeth allweddol i bob ysgol drwy gydol y pandemig a pharhaodd hyn wrth i ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi nodi y byddant yn datblygu ar y gwaith hwn i ddatblygu dull ysgol gyfan tuag at les. Mae bron pob ysgol wedi datblygu'r elfen les a dysgu yn yr awyr agored yn arw, gan weld sut mae'r meysydd hyn yn cyfrannu at gwricwlwm eang a chytbwys.

Drwy ddatblygu Canolfan Cefnogaeth GwE, mae hyn wedi annog ysgolion cynradd ac arbennig i rannu eu hadnoddau a'u cynlluniau. Bwriad penaethiaid yw dal ati i rannu gwaith ar ddatblygu'r cwricwlwm ar draws eu clwstwr a chydweithio i ddatblygu continwrm 3-16 ar gyfer eu cwricwlwm lleol. Mae llawer o ysgolion yn gwneud cynnydd da wrth gynllunio cwricwlwm lleol sydd yn cynnwys cynllunio ar gyfer llais y disgybl ac ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid yn y gymuned. Mae llawer o ysgolion cynradd yn datblygu ar yr arferion arloesol, creadigol a chydweithredol a ddatblygwyd yn ystod y pandemig i baratoi ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru newydd.

Mae'r gwaith cynllunio gan lawer o ysgolion cynradd ac arbennig bellach yn amlygu pedwar diben y cwricwlwm newydd a dyrannwyd amser i staff ddatblygu ymhellach eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth drwy gael dysgu proffesiynol pwrpasol. Mae llawer o ysgolion hefyd wedi datblygu dimensiynau Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu, drwy roi amser i staff weithio ar agweddau ar y Cwricwlwm i Gymru. Mae ysgolion wedi sefydlu prosesau er mwyn i staff allu rhannu gwybodaeth neu arferion da newydd. Mae ysgolion mewn rhai clystyrau yn cymryd rhan mewn ystod o fentrau clwstwr defnyddiol ac effeithiol e.e. gwaith adolygu cymheiriaid clwstwr (Rhaglen Partneriaeth Ysgolion) a phrosiectau yn seiliedig ar dystiolaeth gyda Phrifysgol Bangor e.e. y Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol.

### **Pa welliannau mewn darpariaeth a safonau y mae'r ysgolion wedi'u hadnabod yn sgil targedu eu gwariant grant?**

Yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd, mae cyllid Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau (RRRS) wedi targedu grwpiau o ddysgwyr i roi sylw i fylchau a welwyd yn eu dysgu. Targedwyd y grantiau



hefyd at ddisgyblion llai gwydn, â diffyg hyder ac ymgysylltiad gwael. Mae llawer o ysgolion wedi defnyddio'r grantiau i ddarparu cymorth ac ymyrraeth Sgiliau Sylfaenol yn sgil y cyfnod clo. Prynydwyd adnoddau a dyrannwyd staff cymorth i ddarparu ymyrraethau. Cafodd rai ysgolion anhawster yn cael staff ychwanegol i gyflawni'r rolau hyn felly defnyddiwyd y grant i ymestyn oriau gwaith rhai staff oedd eisoes ar eu llyfrau, gan sicrhau bod yr oriau ychwanegol yn cael eu treulio i gefnogi'r grwpiau o ddysgwyr sydd wedi'u hadnabod.

Targedwyd cynhaliaeth mewn llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol, ymyrraeth gynnar mewn ffoneg a datblygu sgiliau dysgu annibynnol. Ceir llawer o enghreifftiau o dargedu cynhaliaeth yn arwain at wella sgiliau TG disgyblion a'u hyder yn gyffredinol wrth ddefnyddio caledwedd a meddalwedd. Mae bron pob ysgol wedi cynnal rhyw ffurf o asesiadau gwaelodlin wrth ddychwelyd i'r ysgol yn sgil y cyfnod clo er mwyn adnabod grwpiau targed o ddisgyblion. Defnyddiwyd yr adnoddau dysgu carlam a ddatblygwyd gan GwE yn dda. Roedd y rhain yn seiliedig ar dystiolaeth o waith ymchwil i strategaethau ymyrraeth effeithiol. Yn ôl llawer o ysgolion, mae disgyblion sydd yn cael cymorth ychwanegol o ganlyniad i'r grant yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu o ganlyniad i'w darpariaeth grŵp bach. Mae ysgolion yn dra ymwybodol y gall yr effaith ar ddysgu a lles fod yn hirdymor, ac nad yw hyn i'w weld eto.

Bu llawer o ysgolion cynradd yn cynnig cymorth anogaeth i blant sydd yn cael trafferth ers y cyfnod clo. Cynyddwyd y ddarpariaeth les gan fod mwy o ddisgyblion yn cael trafferth addasu ers y cyfnod clo. Defnyddiwyd arolygon lles a chyfeiriadau gan athrawon a rhieni i adnabod disgyblion i gael ymyrraeth. Ymestynnwyd y ddarpariaeth les hefyd i gynnwys cymorth i deuluoedd i sicrhau bod disgyblion a rhieni yn gallu delio gyda'r sefyllfa hon sydd heb ei thebyg.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi defnyddio eu grant dysgu proffesiynol i ddatblygu cymhwysedd digidol eu staff i gyflwyno dysgu o bell a dysgu cyfunol effeithiol yn ogystal â defnyddio'r cyllid i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru.

### **Effaith cymorth/ymwneud GwE ac adnabod cymorth ychwanegol wrth symud ymlaen**

Mewn cyfnod o heriau llethol, nododd llawer o ysgolion cynradd ac arbennig eu bod wedi gwerthfawrogi ac elwa o'r cyswllt a'r cymorth rheolaidd gan swyddogion cyswllt GwE, yn enwedig o ran eu helpu i gadw'n bositif. Mae penaethiaid wedi gwerthfawrogi'r cysur a'r cymorth bugeiliol gan eu Hymgyngorydd Cefnogi Gwelliant (YCG) a'r holi cyson ynghylch eu lles. Gwnaeth llawer o ysgolion sylw ar y cyngor a'r cymorth cyffredinol gan GwE a'r awdurdod lleol a fu'n fuddiol drwy gydol y flwyddyn heriol, er enghraifft, roedd y dangosfwrdd asesu risg a grëwyd ar y cyd gan GwE a'r ALI yn arbennig o fuddiol ac amserol. Nododd ysgolion fod cydbwysedd da rhwng her a chymorth gyda phwyslais cryf ar les a diogelwch. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi gwerthfawrogi'r pryder gwirioneddol am eu lles ac hefyd y cymorth ymarferol gan GwE gyda materion gweithredol e.e. asesiadau risg, adroddiadau hunan arfarnu, canllawiau ar ddysgu o bell a dysgu cyfunol a'r llyfrgell adnoddau (Canolfan Cefnogaeth GwE). Croesawyd hefyd yr hyfforddi a'r mentora gan YCG, felly hefyd y cymorth unigryw i ysgolion unigol.

Roedd Penaethiaid yn gwerthfawrogi rôl yr Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant (YCG) o ran darparu cymorth ac arweiniad cychwynnol i ysgolion a chlystyrau i ddatblygu eu darpariaeth dysgu o bell a dysgu cyfunol. Nododd llawer bod hwyluso cyfarfodydd clwstwr yn allweddol, ar y cychwyn, i rannu syniadau ac arferion da ar gyfer datblygu eu darpariaeth dysgu o bell ac, yn fwy diweddar, cynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd. Nododd llawer fod y cyfarfodydd clwstwr yn llawn cefnogaeth a gwybodaeth ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd meddwl a'u lles.

Yn ogystal â'r cymorth ar gyfer dysgu ac addysgu a materion gweithredol, mae penaethiaid wedi mynegi gwerthfawrogiad o'r cymorth a gafwyd i gynllunio'n strategol ac yn enwedig ar gyfer paratoi am y cwricwlwm newydd e.e. creu gweledigaeth, rheoli newid a gweithdai dylunio cwricwlwm. Maent wedi gallu rheoli materion gweithredu dyddiol a chanolbwyntio ar eu cynlluniau hirdymor ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd yr un pryd. Roedd llawer o benaethiaid yn gwerthfawrogi cysondeb y gweithredu ar y draws y rhanbarth. Mae'r anogaeth a'r cydweithio y mae GwE wedi'i hwyluso wedi annog mwy o gysondeb ar draws clystyrau ac arwain at rannu arbenigedd ac adnoddau. Bu modd hefyd cyd-gynllunio a chydweithio i weithredu'r daith ddiwygio.

Mae deialog broffesiynol rhwng ysgolion a'r YCG cyswllt wedi helpu i sicrhau bod eu gwariant grant arfaethedig yn cael ei dargedu'n briodol. Ar y cyfan, mae ysgolion wedi gwerthfawrogi manteision a defnyddioldeb y dangosfwrdd grantiau o ran arbed amser a monitro gwariant. Mae llawer o ysgolion hefyd wedi gwerthfawrogi amrywiaeth y cynnig dysgu proffesiynol ar gael a'r hyblygrwydd o ran cyflwyno ac amseru. Gwnaeth llawer o ysgolion sylw hefyd ar yr amrywiaeth o hyfforddiant a weminarau ar lein oedd ar gael drwy Ganolfan Cefnogaeth GwE a nodwyd bod y rhain wedi cael effaith bositif ar ansawdd eu darpariaeth dysgu cyfunol ac o bell.

## **SECTOR UWCHRADD A'R YSGOLION ARBENNIG AC UCD PERTHNASOL**

### **Sut mae ysgolion wedi gwerthuso eu darpariaeth a'i heffaith yn ystod y cyfnod clo?**

Er mwyn ymateb i ganllawiau gweithredu a dysgu Llywodraeth Cymru, mae ysgolion uwchradd wedi gorfod addasu eu prosesau a'u systemau sicrhau ansawdd. Bu pwyslais cryf ac ymrwymiad cryf ar draws bron pob ysgol uwchradd ac unedau cyfeirio i fod yn myfyrio, yn adolygu ac yn datblygu ymhellach ar arferion yn gyson ym mhob cyfnod yn ystod y pandemig.

Ym mron pob ysgol, mae arweinwyr canol ac/neu uwch arweinwyr wedi monitro ansawdd y ddarpariaeth yn rheolaidd drwy Google Classrooms (neu lwyfannau digidol eraill), neu drwy samplu gwaith disgyblion pob hyn a hyn. Ym mron pob ysgol, mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol wedi tracio ymgysylltiad disgyblion ac wedi cynnal cyfarfodydd i drafod, er enghraifft, ansawdd y ddarpariaeth, her yn lefel y dysgu, ansawdd yr adborth ac adborth llais y disgybl. Mewn un enghraifft o arfer dda, gwelwyd ysgol yn defnyddio Google Meet i recordio sesiynau byw ac yna'n defnyddio'r sesiynau hyn ar gyfer dysgu proffesiynol i ddibenion gwella a chyfoethogi'r cyflwyno. Mewn enghreifftiau eraill, gwelwyd uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn trefnu o flaen llaw i 'alw heibio' yn anffurfiol mewn sesiynau dysgu byw.

Bu llawer o ysgolion yn cynnal sesiynau i adrannau rannu arferion gorau ac effeithiol, oedd yn arwain at godi hyder staff i rannu gwaith a dulliau a chydweithio â chydweithwyr eraill. Mae gan arweinwyr canol yn y rhan fwyaf o ysgolion fynediad at Teams/Google Classrooms yn eu pynciau/grwpiau blwyddyn. Mae hyn wedi rhoi trosolwg a chyfle i sicrhau ansawdd y dysgu a'r addysgu yn eu meysydd cwricwlwm eu hunain ac arweinwyr bugeiliol yn eu grwpiau blwyddyn. Trafodwyd canfyddiadau â'r uwch dimau arwain i roi gwybod am unrhyw ddatblygiadau neu addasiadau pellach oedd yn angenrheidiol. Mewn un enghraifft, ble roedd dysgwyr a rhieni wedi nodi bod dysgu o bell yn ystod y cyfnod clo wedi bod yn llethol ar brydiau, ymatebodd un ysgol drwy gynnig egwyl rhwng gwersi ar-lein, ymestyn amser cinio, a chynnig hanner diwrnod ar les i annog amser i ffwrdd o'r sgrin. Nododd riant mewn holiadur adborth i un ysgol bod y sesiynau llesiant wedi rhoi cyfle i "ail gysylltu â fy mhlentyn" yn ystod dwyster y cyfnod clo.

Bu sylwadau rhieni ac athrawon yn bwysig o ran gwerthuso effaith, ond byddai'n deg casglu bod y rhan fwyaf o ysgolion wedi gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth yn fwy effeithiol drwy lais rhanddeiliaid a disgyblion, ac wrth ddadansoddi lefel ymgysylltu a lles yn hytrach nag wrth graffu ar sgiliau a safonau, fel ag y buasant wedi'i wneud cyn hyn. Er hynny, mae gwerthuso ar gyfer gofynion gwella wedi bod yn fwy dadansoddol ers Pasg 2021 yn y mwyafrif o ysgolion.

Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr bugeiliol a'u timau ym mhob ysgol uwchradd wedi monitro ymgysylltiad disgyblion â dysgu o bell a dysgu cyfunol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio meddalwedd tracio i olrhain ymgysylltiad disgyblion, sydd ar gael i bob aelod o gymuned yr ysgol. Mae llawer wedi blaenoriaethu ymgysylltiad a chynnydd y dysgwyr mwyaf bregus, gan roi cymorth ychwanegol ble mae angen ac yn gwneud pob ymdrech i sicrhau eu bod yn cael cymorth wyneb yn wyneb yn yr Hybiau ar y safle yn ystod cyfnodau clo. Rhoddwyd strwythurau cryf ar waith yn y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd i gysylltu â dysgwyr a rhieni/gofalwyr i drafod pryderon a chynnig cymorth. Uwch gyfeiriwyd pryderon i sylw'r Awdurdodau Lleol, pan yn briodol.

Mae ysgolion ac UCD wedi defnyddio arolygon a holiaduron i werthuso effaith newid arferion gwaith ar staff ac ar ddsygwyr. Ym mron pob achos, mae ysgolion wedi defnyddio adborth gan rieni mewn holiaduron i gyfoethogi'r ddarpariaeth addysgol. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys lleihau nifer y gwahanol bynciau yn cael sylw mewn un diwrnod hyd at ddatblygu gwaith prosiect dros fwy o amser, er mwyn i waith y disgybl allu cyd-fynd yn well â gallu TG y teulu.

Bu deialog broffesiynol rhwng uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn nodwedd o'r gwerthuso wrth i ddisgyblion gwblhau gwaith mewn llyfrau, ac ar-lein, gyda llawer o ffeirio rhwng y ddwy ffordd o weithio oherwydd cyfnodau ynysu er enghraifft. Bu nosweithiau rhieni rhithiol hefyd yn ffynhonnell bwysig er mwyn cael adborth arfarnol. Mae llawer o ysgolion wedi gwneud y sylw bod nosweithiau i rieni wedi'u cynnal yn llwyddiannus - gyda defnydd o meddalwedd newydd yn cael ei defnyddio i amserlennu apwyntiadau ar-lein. Mae ysgolion wedi arfarnu'r systemau o'r adborth gan athrawon a rhieni, a dywed rhai eu bod yn debygol o barhau â'r system wrth symud ymlaen.

Aeth rhai ysgolion ati i arfarnu sgiliau digidol eu dysgwyr er mwyn canolbwyntio'r hyfforddiant ar y dulliau, y llwyfannau a'r adnoddau digidol mwyaf hwylus i'w defnyddio ac a fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar addysgu ar-lein. Mae ysgolion hefyd wedi defnyddio canlyniadau arolygon staff i gynllunio ar gyfer anghenion proffesiynol staff. Er enghraifft, buddsoddodd un ysgol mewn hyfforddiant i'r holl staff fod yn 'Google Educators' ar Lefel 1.

Mewn llawer o ysgolion uwchradd, mae uwch arweinwyr wedi rhoi blaenoriaeth i fonitro asesiadau yng Nghyfnodau Allweddol 4 a 5, gan gynnwys y rheiny i fwydo i'r Graddau a Bennir gan Ganolfan, i wirio eu bod yn gadarn a thrylwyr. Bu dyfarnu Graddau a Bennir gan Ganolfan yn dreth fawr ar amser athrawon pwnc ac arweinwyr ar bob lefel yn ystod tymor y Gwanwyn a'r Haf 2021.

Mewn rhai ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog, rhoddwyd pwyslais cryf ar arfarnu sgiliau Cymraeg disgyblion yn gyson, yn enwedig y disgyblion hynny sydd o gartrefi di-Gymraeg neu wedi bod yn rhan o raglenni trochi. Mae hyn wedi helpu rhai ysgolion i gynnal a gwella sgiliau Cymraeg dysgwyr.

Yn dilyn peilot amlasiantaethol yn ystod 2019-2020 efo nifer bach o ysgolion, bu Llywodraeth Cymru ac Estyn yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn ystod Gwanwyn/Haf 2021 i gynig y cyfle i bob ysgol uwchradd sydd mewn mesurau arbennig i fod yn rhan o'r gweithio aml-asiantaethol hwn. Ar y cychwyn, canolbwyntiodd y dull gweithredu hwn ar drafod lles ac ansawdd y ddarpariaeth dysgu o bell a dysgu cyfunol. Bydd monitro a chraffu mwy ffurfiol yn cychwyn yn nhymor yr Hydref, 2021.

Bu rhai o'r cynghreiriau uwchradd yn canolbwyntio ar ddatblygu dulliau sicrhau ansawdd newydd, gydag arweinwyr yn rhannu arferion ac yn datblygu prosesau newydd. Er enghraifft, mewn dwy ysgol, cwblhaodd staff archwiliad o sgiliau digidol ac mae arweinwyr ysgol wedi cynllunio cyfleoedd dysgu proffesiynol ac HMS i staff ar sail y canfyddiadau. Adolygwyd cynnydd yn erbyn yr archwiliad dros y flwyddyn i fesur effaith.

### **Beth mae ysgolion wedi adnabod yw cryfderau allweddol eu darpariaeth ar gyfer dysgu ac addysgu yn ystod y cyfnod clo?**

Gwelwyd bod uwch sgilio mewn technoleg ddigidol yn gryfder allweddol ar draws pob ysgol yn ystod y pandemig. Dangosodd arweinwyr ac athrawon gryn hyblygrwydd proffesiynol o ran ennill gwybodaeth a sgiliau newydd i ddarparu dysgu ar-lein. Bu'r dulliau dysgu proffesiynol arloesol a'r rhannu arferion effeithiol o fewn ysgolion, ac ar draws ysgolion, yn gymorth yn hyn o beth. Mae'r cydweithio ag ysgolion, a rhwng ysgolion, wedi bod yn gryfder amlwg, gyda chydweithio ar bolisïau, adnoddau a chyfathrebu yn allweddol, er enghraifft, drwy'r Cynghreiriau y mae GwE wedi'u hwyluso. Mae pob ysgol wedi rhannu adnoddau ac arferion effeithiol drwy eu cynghreiriau a Chanolfan Cefnogaeth GwE.

Yn ôl llawer o ysgolion, bu mwy o greadigedd yn y dysgu a'r addysgu. Mae arweinwyr ysgolion, ar bob lefel, wedi defnyddio canllawiau rhanbarthol a chenedlaethol yn amserol ac yn bwrsasol i lywio ac addasu eu dulliau gweithredu, ac maent wedi rhoi canllawiau a disgwyliadau manwl i staff. Mae'r canllawiau a'r dulliau gweithredu a ddefnyddir hefyd yn seiliedig ar waith ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol i arferion effeithiol.

Bu'r pwyslais ar les yn gryf ar draws pob ysgol a'r unedau cyfeirio. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi bod yn gweithredu cyswllt wythnosol, neu ddyddiol weithiau, â dysgwyr bregus a rhieni/gofalwyr. Fel arfer, mae hyn wedi golygu rhwydwaith helaeth o arweinwyr/staff bugeiliol/staff gweinyddol ac eraill yn cychwyn neu'n ymateb i wahanol anghenion. Ble codwyd pryderon, bu'r ysgolion yn gweithio ar y cyd â'r awdurdod lleol ac asiantaethau allanol i gefnogi'r dysgwyr hynny a'u teuluoedd, a daeth llawer i'r ddarpariaeth Hwb i gael cymorth wyneb yn wyneb.

Parhaodd y rhan fwyaf o ysgolion i ganolbwyntio ar ddysgu 'cyfunol' yn ystod y cyfnod clo gan lwyddo i sicrhau bod cyfran o'u gwersi wedi cael eu cyflwyno'n 'fyw'. Gwelwyd mwy o ffrydio gwersi byw yn digwydd yn ystod yr ail gyfnod clo yn sgil newidiadau yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru. Cyflwynwyd rhai gwersi yn fwy effeithiol mewn ffordd anghydamserol, fel bod modd i ddysgwyr fynd at wersi ac adnoddau ar adegau gwahanol a mwy cyfleus. Mae enghreifftiau o sesiynau cofrestru boreol a gwasanaethau ysgol yn cael eu cyflwyno'n effeithiol yn fyw ar-lein hefyd.

Bu arweiniad a chyfathrebu efo rhieni/gofalwyr yn nodwedd gyson gref o'r ddarpariaeth ar draws yr ysgolion uwchradd. Nododd lawer o ysgolion fod y cyfathrebu â rhieni a rhanddeiliaid eraill ynghylch y dysgu ac addysgu wedi newid a gwella'n sylweddol yn ystod y cyfnod hwn. Bu'n rhaid addasu'r cyfathrebu a chyfathrebu'n amlach ac mae ysgolion wedi datblygu dulliau rhithiol, fel defnyddio cyfarfodydd Teams ac apiau nosweithiau rhieni ar-lein i ddatblygu eu systemau cyfathrebu. Yn ôl llawer o ysgolion, roeddent yn defnyddio holiaduron yn bwrsasol i gasglu barn rhanddeiliaid, sydd wedi arwain at addasu a gwella'r ddarpariaeth mewn llawer o achosion. Gwelwyd bod rhannu protocolau a disgwyliadau ynghylch dysgu o bell efo rhieni/gofalwyr yn agwedd a oedd wedi gwella'n sylweddol erbyn yr ail gyfnod clo. Er enghraifft, mae un ysgol wedi datblygu gwefan i rieni i rannu gwybodaeth a chanllawiau ar sut i gefnogi eu plentyn, gyda fideos yn dangos 'sut i...' Er hynny, dyma agwedd y gellir ei datblygu ymhellach mewn llawer o ysgolion i helpu rhieni a gofalwyr i gefnogi eu plentyn i ddysgu.

## **Sut y mae ysgolion yn bwriadu datblygu ar eu llwyddiant er mwyn datblygu'r cwricwlwm newydd?**

Gwelwyd bod cydweithio a rhannu arferion effeithiol wedi datblygu'n dda ar draws yr ysgolion. Er mwyn cefnogi'r dysgu o fewn y cwricwlwm newydd, gellir datblygu ymhellach dysgu gyda thechnoleg newydd, addysgeg ddigidol ac addasiadau i strwythur diwrnod yr ysgol. Bydd y cynnydd a wnaed mewn cymhwysedd digidol hefyd yn helpu i sicrhau manau cychwyn rhagorol ar gyfer sicrhau bod arloesi gyda'r cwricwlwm a hyder ymhlith staff a disgyblion wrth ddefnyddio technolegau newydd. Mae ysgolion wrthi'n adnabod manau cychwyn i fanteisio ar y datblygiadau a welwyd mewn dysgu digidol, gweithio'n annibynnol a dysgu creadigol. Bydd dysgu ar-lein yn cynnig ffyrdd pwysig ac arloesol i gyflwyno'r cwricwlwm newydd a datblygu dysgu annibynnol ymhellach. Bydd y dechnoleg newydd hefyd yn cefnogi cydweithio 3 i 16 a chyfathrebu gwell â rhanddeiliaid. Bu llawer o ysgolion yn arbrofi â ffyrdd newydd o gynllunio sydd wedi golygu rhywfaint o integreiddio ar draws pynciau a rhai unedau gwaith hirach, gyda mwy o annibyniaeth a dewis i ddisgyblion. Bydd yn ddefnyddiol arfarnu newidiadau fel hyn yn fanwl i ysgolion wrth iddynt ddatblygu eu cynllun cwricwlwm.

Mae ysgolion wedi cryfhau'r berthynas rhwng y cartref a'r ysgol ymhellach gan fod rhieni wedi ymwneud mwy o ran deall ac yn cefnogi'r cynnig cwricwlwm i ddysgwyr yn ystod y cyfnod hwn. Mae llais y disgybl wedi cynyddu gan fod dysgwyr wedi gallu cael mwy o ddewis a llais yn eu gwaith. Mae ysgolion wedi ymateb i sylwadau i addasu'r ddarpariaeth ble bo'n briodol. Bu llais y dysgwr yn arbennig o bwysig yn ystod y pandemig er mwyn mesur yr effaith ar ymgysylltu a lles. Gwêl lawer o ysgolion bod hyn yn agwedd hanfodol ar eu gwaith cynllunio wrth symud ymlaen.

Yn ystod y cyfnod clo, cafodd ysgolion ac unedau cyfeirio gyfleoedd i weithio fel sefydliadau sy'n dysgu er mwyn cryfhau a datblygu'r 4 thema drawsliniol sef Amser, Meddwl Gyda'n Gilydd, Ymddiriedaeth a Thechnoleg. Yn fwy nag erioed, mae ysgolion wedi gorfod sicrhau cyfleoedd dysgu parhaus i bob aelod staff i ddarparu dysgu o bell effeithiol a gwneud defnyddio priodol o dechnoleg.

Mae nifer cynyddol o ysgolion uwchradd wedi datblygu eu perthynas ag ysgolion cynradd y dalgylch ac wedi dechrau cyfarfod i drafod datblygiadau'r Cwricwlwm i Gymru. Bu llawer o uwch arweinwyr mewn sesiynau hyfforddiant gan GwE ar reoli newid, yn creu gweledigaeth gyffredin ac yn cyd-gynllunio. Mae YCG yn datblygu ar y cyswllt cychwynnol hwn gyda mwy o gymorth unigryw ar lefel ysgol a chlwstwr.

Dangosodd y cyfnod COVID fod ysgolion yn gallu bod yn gryf yn wyneb newid sy'n digwydd yn aml, yn sydyn ac sy'n tarfu. Mae'r pwyslais ar les a gwydnwch disgyblion yn faes sydd hefyd wedi datblygu'n dda yn ystod y pandemig. Mae llawer o staff wedi dechrau ystyried goblygiadau iechyd a lles ar gyfleoedd dysgu a phrofiadau i'w dysgwyr. Ar adeg pan ataliwyd y cwricwlwm cenedlaethol dros dro, cafodd staff y cyfle i adnabod blaenoriaethau dysgu i'w hysgol ac, o ganlyniad, cynllunio dysgu a phrofiadau i fodloni anghenion dysgwyr, yn unol â phedwar diben y Cwricwlwm i Gymru.

Daeth cadarnhad gan y Gweinidog Addysg y parheir i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion cynradd, ysgolion meithrin a gynhelir ac UauCD meithrin nas cynhelir o fis Medi 2022. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd y rhoddir rhywfaint o hyblygrwydd ychwanegol i ysgolion uwchradd. Yn 2022, bydd ysgolion sy'n barod i gyflwyno'r cwricwlwm i flwyddyn 7 yn gallu bwrw ymlaen gyda hynny. Er hynny, ni fydd hi'n statudol i weithredu'r cwricwlwm newydd yn ffurfiol tan 2023, gyda'r cyflwyno yn digwydd yn y flwyddyn honno i flynyddoedd 7 ac 8 efo'i gilydd. Dyma fydd yr achos hefyd mewn ysgolion arbennig ac ysgolion 3 i 16 oed.

Bydd GwE yn annog ysgolion uwchradd ac arbennig sy'n gallu bwrw ymlaen i weithredu'r cwricwlwm newydd efo Blwyddyn 7 o fis Medi 2022. Rydym hefyd yn sylweddoli y bydd rhai ysgolion uwchradd yn dewis i barhau ar eu llwybr tuag at ddiwygio'r cwricwlwm o fis Medi 2022, ac y byddant yn gweithredu'r cwricwlwm newydd o fis Medi 2023 pan ddaw'n statudol i flynyddoedd 7 ac 8. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod gwaith diwygio'r cwricwlwm, ac yn enwedig y cyswllt uniongyrchol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, yn parhau er mwyn cefnogi dysgwyr i bontio waeth beth yw'r amserlen weithredu a ddefnyddir gan yr ysgol uwchradd.

### **Pa welliannau mewn darpariaeth a safonau y mae'r ysgolion wedi'u hadnabod yn sgil targedu eu gwariant grant?**

Ar y cyfan, mae llawer o ysgolion uwchradd wedi rhoi blaenoriaethu cyllid i garfanau o ddisgyblion penodol fel disgyblion sydd yn paratoi am 'arholiadau' (Blynyddoedd 11, 12 ac 13), disgyblion bregus a difreintiedig, Blwyddyn 7 ac unrhyw grwpiau neu unigolion penodol all fod angen cymorth. Targedwyd cynhaliaeth mewn llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol, datblygu sgiliau dysgu annibynnol ac ymgysylltu drwy hyfforddiant.

Bu ysgolion yn greadigol gyda'r datrysiadau a fabwysiadwyd, er enghraifft:

- cyflogi mentoriaid i yrru ymyraethau gyda disgyblion penodol
- cyflogi anogwyr dysgu i roi sylw i rwystrau dysgu a gwella cynhwysiant
- darparu gwersi ychwanegol i ddisgyblion
- rhyddhau aelodau staff i arwain ar lythrennedd a rhifedd neu benodi athro ychwanegol i gynnal sesiynau llythrennedd a rhifedd gyda grwpiau penodol o ddisgyblion yr oedd arnynt angen cymorth ychwanegol yn ystod y cyfnod clo
- penodi arweinydd ar gyfer Rhaglen Cyflymu Dysgu ysgol gyfan er mwyn cynllunio cymorth ychwanegol i ddisgyblion

Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys penodi cymorthyddion addysgu ychwanegol/mentoriaid neu gynyddu amser cymorthyddion dysgu ac anogwyr sydd eisoes mewn swydd i gynnal sesiynau dal fyny ac annog. Blaenoriaethod lawer o ysgolion eu cyllid i sicrhau cymorth priodol i ddisgyblion oedd wedi datgysylltu o'u haddysg yn ystod y cyfnod clo.

Trwy'r Grant Dysgu Proffesiynol, dywed ysgolion uwchradd bod staff wedi ymgymryd yn dda â dysgu proffesiynol perthnasol ac amserol yn ystod y cyfnod clo er mwyn sicrhau dealltwriaeth gadarn o'r hyn yw dysgu o bell a dysgu cyfunol effeithiol. Yn ddi-os, cafodd hyn effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth.

Defnyddiodd ysgolion y grantiau GDD i gefnogi disgyblion difreintiedig. Er enghraifft, defnyddiwyd y grant yn effeithiol i gefnogi disgyblion PYD i gael gwersi cerddoriaeth, cael mynediad i ddyfeisiau digidol ble roedd angen ac i sicrhau parhad y dysgu. Defnyddiodd y rhan fwyaf o ysgolion y grant i sicrhau bod dysgwyr PYD yn cael cymorth ychwanegol mewn grwpiau llai, neu gymorth gan fentoriaid a chwmselwyr.

### **Effaith cymorth/ymwneud GwE ac adnabod cymorth ychwanegol wrth symud ymlaen**

Roedd bron pob ysgol uwchradd a'r unedau cyfeirio yn croesawu'r cymorth aml ac addasol gan yr YCG yn ystod y cyfnod clo. Roedd hyn yn cynnwys galwadau ac ymweliadau bugeiliol aml yn ogystal â chyfarfodydd rhwng YCG ac arweinwyr canol ac uwch arweinwyr eraill ar gais Penaethiaid.

Bu ysgolion yn gadarnhaol iawn am gyfraniadau GwE at fforymau lleol penaethiaid uwchradd a fu'n cyfarfod yn rheolaidd ers mis Mawrth 2020. Mynegodd y Penaethiaid hefyd eu bod yn ddiolchgar o'r cyfarfodydd Penaethiaid rhanbarthol, yn enwedig y cymorth ar gyfer y broses dyfarnu Graddau a Bennir gan Ganolfan. Noda ysgolion hefyd eu bod yn gwerthfawrogi'r cymorth gan YCG gyda'r broses ddyfarnu (gan gynnwys cymorth ychwanegol gan yr ymgynghorwyr pynciau craidd).

Croesawyd yn fawr yr arweiniad a'r cymorth ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol. Mae rhai ysgolion wedi addasu eu dulliau o gynllunio a darparu ar sail eu defnydd o adnoddau a rannwyd drwy Ganolfan Cefnogaeth GwE. Ar y cyfan, roedd ysgolion yn siarad yn gadarnhaol am y cynghreiriau a bod GwE yn hwyluso'r cyfle hwn i gydweithio ag ysgolion eraill.

Croesawyd dangosfwrdd Asesu Risg COVID a'r dangosfwrdd grantiau yn fawr iawn hefyd.

Mynegodd lawer o ysgolion eu gwerthfawrogiad o'r Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth a addaswyd i gael eu cyflwyno ar-lein.

Cafwyd ymateb cadarnhaol i Gynlluniau Cymorth pwrpasol tymhorol GwE ac yn enwedig y dull hyblyg sydd wedi caniatáu lle i ymateb i anghenion sy'n newid.

### **Arfarnu Deilliannau yn CA4 a CA5**

Yn ei ddatganiad ysgrifenedig (dyddiedig 21 Mehefin 2021), cadarnhaodd y Gweinidog Addysg 'y bydd y penderfyniad i atal mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 a'r chweched dosbarth yn ymestyn i flwyddyn academiaidd 2021/22. *Ni fydd data dyfarniadau cymwysterau yn cael ei ddefnyddio i adrodd ar ddeilliannau cyrhaeddiad ar lefel ysgol, awdurdod lleol na chonsortïwm rhanbarthol ac ni ddylid ei ddefnyddio i ddwyn ysgolion i gyfrif am ddeilliannau dysgwyr.'*

Cadarnhaodd hefyd '*bydd yn ofynnol i bob ysgol a darparwr ôl-16 barhau i gynnal hunanwerthusiad effeithiol ar gyfer gwella'n barhaus. Mae ein trefniadau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd ni'n gofyn iddynt ystyried ystod eang o wybodaeth sy'n berthnasol i gyd-destun yr ysgol ei hun wrth hunanwerthuso a nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Golyga hyn y bydd ysgolion, gyda chymorth yr awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol, yn defnyddio'r gwybodaeth sydd ganddynt ar lefel disgyblion am gyrhaeddiad a deilliannau eraill i fyfyrion ar eu trefniadau presennol a'u gwella.'*

Felly, yn Nhymor yr Hydref 2021, bydd GwE yn cefnogi ysgolion i werthuso eu Graddau a Bennir gan y Ganolfan a'r gwersi a ddysgwyd yn ystod y broses eleni.

Dylai ysgolion ystyried yr agweddau isod wrth werthuso:

- Pa wersi a ddysgwyd am ba mor gadarn yw gweithdrefnau safoni a chymedroli mewn ysgolion? I ba raddau y bydd prosesau yn cael eu miniogi ymhellach?
- A ydych chi'n hyderus y bydd pob arweinydd ar draws yr ysgol wedi adnabod eu blaenoriaethau gweithredu ar gyfer 2021-22 yn gadarn ac yn bwrpasol? Pa gynlluniau a fabwysiadwyd i gefnogi arweinwyr pwnc gyda'r gwaith hwn os codwyd pryderon?
- I ba raddau ydych chi'n hyderus bod pob adran [ble'n berthnasol] wedi darparu arweiniad, cymorth ac adborth effeithiol i gynyddu cyfraniad 'gwaith cwrs' cymaint â phosibl? Pa gynlluniau a fabwysiadwyd i gefnogi arweinwyr adran ble codwyd pryderon?
- Beth welwyd oedd eich cryfderau allweddol? Pa gynlluniau a fabwysiadwyd i rannu'r rhain ar draws yr ysgol?

- A ydych chi wedi adnabod unrhyw feysydd/pynciau ble mae angen miniogi cywirdeb y tracio a'r asesu? Pa gynlluniau a fabwysiadwyd i gefnogi arweinwyr pwnc/athrawon gyda'r gwaith hwn fel y gellir targedu amrywiant mewn ysgol yn effeithiol?
- I ba raddau y bydd canfyddiadau yn cael effaith ar brosesau a gweithdrefnau asesu, targedu, tracio ac ymyrraeth?
- I ba raddau y bydd canfyddiadau yn cael effaith ar eich blaenoriaethau CiG i'w gweithredu eleni a thu hwnt?
- I ba raddau y bydd canfyddiadau yn cael effaith ar eich cynlluniau i ddatblygu ymhellach y ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn CA3?
- I ba raddau y bydd canfyddiadau yn cael effaith ar eich cynlluniau i ddatblygu ymhellach lles, presenoldeb a chynhwysiant?
- I ba raddau y bydd canfyddiadau yn cael effaith ar gynlluniau i ategu'r cymorth i grwpiau o ddisgyblion bregus?
- Pa gynlluniau sydd i gydweithio ag ysgolion eraill y rhanbarth i gefnogi a chynorthwyo rhagor o welliannau? I ba raddau y bydd cydweithio yn cynnwys cyfraniad uwch arweinwyr a staff addysgu?

### **MEYSYDD SYDD ANGEN EU DATBLYGU A'U CEFNOGI YMHELLACH.**

Mae ysgolion ar draws pob sector wedi nodi'r angen am gymorth yn y meysydd canlynol:

- Gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru - yn enwedig dylunio a chynllunio'r cwricwlwm i gyflwyno'r Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPh).
- Dulliau asesu a'r cysyniad o gynnydd i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd
- Tracio cynnydd disgyblion
- Cysylltiadau â'r diwygio ehangach fel ADY a'r Gymraeg.
- Corffori dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant.
- Cael grwpiau o ddysgwyr i ail-gydio ym Mis Medi, dysgwyr nad oedd wedi ymdopi yn rhy dda yn ystod y cyfnod clo.
- Gwella dysgu ac addysgu, gwahaniaethu, asesu ffurfiannol ac adborth i ddysgwyr.
- Gwella sgiliau'r Gymraeg, llafaredd yn enwedig
- Cryfhau'r trefniadau a'r ddarpariaeth ar gyfer pontio rhwng y cynradd a'r uwchradd/arbennig a datblygu continwmm 3 i 16
- Gweithredu ar y camau mewn cynlluniau cymorth amlasiantaethol 360 (yn benodol mewn ysgolion sy'n achosi pryder)
- Miniogi prosesau sicrhau ansawdd ymhellach ac arfarnu ansawdd y ddarpariaeth a chynnydd disgyblion
- Datblygu gwella ansawdd yn unol â phedwar diben y cwricwlwm newydd
- Defnyddio data dibynadwy fel tystiolaeth ar gyfer gwella
- Gwella ymgysylltiad rhieni i gefnogi'r dysgu  
Datblygu adolygu gan gymheiriaid ymhellach drwy'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion
- Datblygu cydweithio ar lefel strategol ehangach er mwyn symud at system sy'n hunan wella
- Rhaglenni Dysgu Carlam i roi sylw i effaith y cyfnod clo ar sgiliau sylfaenol
- Paratoi ar gyfer arholiadau Haf 2022
- Gwerthuso effaith gwariant grant

Mae'r canfyddiadau uchod hefyd yn berthnasol i ysgolion arbennig ac UCD. Fodd bynnag mae'r agweddau canlynol hefyd wedi'u nodi fel meysydd i'w datblygu a'u cefnogi ymhellach:

- Ymgorffori'r prosiectau cydweithredu presennol a rhannu'r dysgu ar draws y sector;



- Parhau i gynnig cyfleoedd arweiniol i reolwyr canol i roi cyfleoedd iddynt ddatblygu eu sgiliau arwain ymhellach;
- Cydweithio i ddadansoddi effeithiolrwydd y gwaith a wnaethpwyd ar y cyd;
- Parhau i ddylunio a chynllunio profiadau dysgu cyfoethog o amgylch y pedwar diben a nodi'r ffyrdd gorau o asesu cynnydd ar draws yr ystod o anghenion dysgwyr.

## **BLAENORIAETHAU RHANBARTHOL**

Mae'r broses arfarnu wedi adnabod y blaenoriaethau rhanbarthol lefel uchel hyn:

- Sefydlu strategaeth ranbarthol glir i weithredu cynllun adfer COVID-19 Llywodraeth Cymru: Adnewyddu a diwygio i gefnogi lles a chynnydd dysgwyr (cyhoeddwyd yn gyntaf 16 Mehefin 2021)
- Sefydlu rhwydweithiau datblygu i bob Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) ar lefel ranbarthol a lleol fel bod arweinwyr ysgol ac ymarferwyr yn gallu cydweithio i ddatgloi potensial pob Maes drwy fodelu, dylunio a rhannu arferion cwricwlwm.
- Sicrhau bod cyswllt uniongyrchol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, yn parhau er mwyn cefnogi dysgwyr i bontio waeth beth yw'r amserlen weithredu a ddefnyddir gan yr ysgol uwchradd.
- Datblygu fframwaith ansoddol rhanbarthol er mwyn dangos ac arfarnu cynnydd ysgol/clwstwr mewn dull cyfannol.
- Adolygu prosesau i roi sylw i ysgolion sy'n destun pryder a gweithio gydag Awdurdodau Lleol i sefydlu a gweithredu strwythurau a phrotocolau rhanbarthol ar gyfer adnabod, cefnogi a herio Ysgolion sy'n Destun Pryder.
- Cryfhau ymhellach y diwylliant, yr ymddygiad, y systemau a'r prosesau er mwyn cymell arweinwyr ac athrawon i gyd-ymdrechu er sicrhau gwelliant ysgol.

## Atodiad 1

**Arfarniad ysgol.** Nid oes rheidrwydd i ysgolion ddefnyddio hwn, ond gellir ei ddefnyddio:

- i ysgolion ei gwblhau eu hunain
- i ysgolion wirio yn erbyn eu prosesau hunan arfarnu eu hunain
- gan glystyrau neu grwpiau cydweithio fel sail i'w harfarniadau ar y cyd.

Ysgol	YCG Cyswllt
<b>Am Dymor y Gwanwyn/Haf 2021</b>	
Prif gryfderau	
<ul style="list-style-type: none"> <li>•</li> <li>•</li> <li>•</li> </ul>	
Meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach	
<ul style="list-style-type: none"> <li>•</li> <li>•</li> <li>•</li> </ul>	
<b>Gweithredu a Chynnydd</b>	
<b>Sut mae ein hysgol wedi gwerthuso ei darpariaeth a'i heffaith yn ystod y cyfnod clo?</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sut mae ein hysgol wedi crynhoi canfyddiadau er mwyn nodi cryfderau, meysydd i'w gwella, ac wedi cynllunio ar gyfer gwella ymhellach? A oes gennym enghreifftiau sy'n dangos tystiolaeth o hyn?</li> <li>• Os nad yw ein hysgol wedi gallu cynnal prosesau hyd yma oherwydd cyfyngiadau Covid, beth yw'r bwriad ar gyfer y tymor hwn?</li> </ul>	
<b>Beth yw ansawdd ein darpariaeth ar gyfer dysgu ac addysgu yn ystod y cyfnod clo?</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Beth mae ein tystiolaeth yn ei amlygu am gynnydd dysgwyr yn ystod y cyfnod clo? A yw hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer dysgwyr bregus?</li> <li>• Sut mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu ac asesu wedi esblygu yn ein hysgol yn ystod y cyfnod hwn?</li> <li>• Beth yw'r prif gryfderau yn ein dulliau addysgu ac asesu, cyflawniad a chynnydd?</li> <li>• Pa agweddau sydd eu angen eu cryfhau ymhellach o ran addysgu, asesu, cyflawniad a chynnydd?</li> <li>• Pa heriau ydym ni wedi'u hadnabod o ran dysgu ac addysgu wrth symud ymlaen, a sut ydym ni'n bwriadu ymateb i'r rhain?</li> </ul>	
<b>Sut y mae'r ysgol yn bwriadu meithrin ei llwyddiannau er mwyn datblygu'r cwricwlwm newydd?</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sut ydym wedi mesur cynnydd mewn perthynas â'r daith ddiwygio?</li> <li>• Sut ydym wedi cyfrannu fel partner at waith clwstwr?</li> <li>• Sut mae ein hysgol wedi datblygu dimensiynau Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu yn ystod y cyfnod hwn?</li> <li>• Sut ydym wedi manteisio ar waith cymheiriaid i ddilysu ein harfarniadau a'n cefnogi ar ein taith wella? A ydym yn chwarae rhan gyfatebol gyda'n hysgolion partner?</li> </ul>	
<b>Sut mae'r ysgol wedi monitro a gwerthuso'r defnydd o'r amrywiol grantiau sydd ar gael, a'i effaith, a pha negeseuon allweddol sydd wedi codi hyd yma?</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sut ydym wedi targedu gwariant grant a beth yw effaith hynny ar ddarpariaeth a safonau?</li> <li>• Pa negeseuon sydd ar gyfer gwariant grantiau pellach?</li> </ul>	
<b>Beth yw ansawdd ein darpariaeth ar gyfer llesiant dysgwyr yn ystod y cyfnod clo?</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Beth mae ein tystiolaeth yn ei amlygu am gynnydd dysgwyr yn ystod y cyfnod clo?</li> <li>• Beth yw ein prif gryfderau o ran y ddarpariaeth les?</li> <li>• Pa agweddau sydd angen eu cryfhau ymhellach o ran y ddarpariaeth les?</li> </ul>	

- Pa heriau ydym-wedi eu hadnabod o ran lles wrth symud ymlaen, a sut ydym yn bwriadu ymateb i'r rhain?

**Sut mae arweinyddiaeth ar draws ein hysgol wedi datblygu dros y cyfnod clo?**

- Beth fu'r heriau mwyaf?
- A ydym wedi cael cyfleoedd i ddatblygu neu arloesi?
- A oes gennym arferion arwain y gellid eu rhannu gydag ysgolion eraill?
- A ydym wedi adnabod agweddau arweinyddiaeth sydd angen cefnogaeth?



## ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

22 Medi 2021

---

**Adroddiad gan:** Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Testun:** Esblygu strwythurau a phrosesau rhanbarthol i gefnogi ysgolion sy'n destun pryder

---

### 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Rhannu gwybodaeth ag aelodau'r Cyd Bwyllgor am esblygu strwythurau a phrosesau rhanbarthol i gefnogi ysgolion sy'n destun pryder.

### 2.0 Cefndir

2.1 Yn ystod 2019/20, bu Llywodraeth Cymru ac Estyn yn cynnal peilot o ddull cefnogi amlasiantaethol gyda deg ysgol uwchradd ar draws Cymru. Roedd yr ysgolion yn gymysgedd o ysgolion mewn categori statudol Estyn (mesurau arbennig neu welliant sylweddol) a'r rheiny a nodwyd gan awdurdodau lleol a rhanbarthau oedd mewn perygl o achosi pryder. Gofynnwyd i ddwy ysgol ranbarthol gymryd rhan yn y peilot. Ar gyfer pob ysgol, ffurfiwyd panel amlasiantaethol i gydweithio i gefnogi'r ysgol, yn adnabod a chytuno ar y materion a'r anghenion yna llunio cynllun cymorth unigryw i'r ysgol, monitro effaith y cymorth hwnnw a phennu sut ddylai gwelliant edrych dros gyfnod penodol o amser. Oherwydd heriau pandemig Covid, rhoddwyd y gorau i'r peilot ganol tymor. Er hynny, roedd Llywodraeth Cymru ac Estyn yn ystyried bod digon o dystiolaeth i ddangos bod y dull gweithredu amlasiantaethol yn debygol o fod yn ffordd effeithiol i gefnogi cynnydd gwelliant ysgolion yn y tymor hwy. O ganlyniad, penderfynwyd y byddai'n fuddiol ymestyn y dull gweithredu

---

amlasiantaethol i'r ysgolion hynny sydd fwyaf angen cymorth arnynt - yn benodol, ysgolion uwchradd mewn mesurau arbennig. O ganlyniad, bydd pedair ysgol ranbarthol bellach yn cymryd rhan yn y dull gweithredu diwygiedig.

2.2 Wrth ymateb i'r dull gweithredu cenedlaethol a grybwyllir uchod, barnodd Fwrdd Rheoli GwE ei bod hi'n amserol adolygu prosesau ranbarthol ar gyfer cefnogi, monitro a herio pob ysgol sy'n achosi pryder neu sy'n dangos arwyddion cynnar o ddirywio.

2.3 Y nod yw sicrhau bod pob ysgol a adnabyddir yn symud ar hyd y trywydd 'dymunol' ar y cyflymdra gofynnol a bod dull cyson i herio a chefnogi yn cael ei weithredu ar draws y ranbarth. Er hynny, cydnabyddir na fydd cynnydd, mewn rhai ysgolion, wastad yn cael ei weld ar ffurf cynnydd llinol syml.

### **3.0 Ystyriaethau**

3.1 Mae'r adroddiad yn amlinellu y prif gamau gweithredu a'r datblygiadau gan y *Grŵp Gorchwyl a Gorffen ranbarthol* a sefydlwyd gan Fwrdd Rheoli GwE i oruchwyllo'r gwaith.

3.2 Er mwyn sicrhau ein bod yn symud oddi wrth stigma a therminoleg y system gategoreiddio genedlaethol sydd bellach wedi'i diddymu, penderfynwyd diffinio bod pob sefydliad ar gontinwwm annibyniaeth tuag at ddod yn ysgolion sy'n hunan wella. Bydd y mwyafrif helaeth o'n hysgolion ranbarthol yn ysgolion sydd naill ai'n gyson gryf efo mân agweddau sydd angen eu gwella, neu'n gyffredinol gryf efo rhai agweddau sydd angen eu gwella. Gwelir bod yr ysgolion hyn yn rhai sy'n perfformio gryfaf neu'n gwella'n raddol ar hyd y model trywydd [Atodiad 1 - Model Trywydd]. Nid oes angen targedu cynhaliaeth ddwys, arbenigol i'r ysgolion hyn - fel arfer, rhoddir sylw i welliannau drwy gydweithio â chymheiriaid, drwy Raglen Dysgu Proffesiynol gyffredinol GwE/ALI, camau gweithredu a rhaglenni dysgu proffesiynol a nodir yn y Cynllun Datblygu Ysgol a thrwy gyfrwng Cynlluniau Cefnogaeth unigryw GwE.

3.3 Ar gyfer canran lai o ysgolion, bydd angen targedu cynhaliaeth ar hyd eu taith hunan wella. Dyma'r ysgolion a fydd yn cael eu cefnogi gan y dull gweithredu amlasiantaethol wrth iddynt gychwyn a datblygu ar eu taith tuag at ddod yn sefydliadau sy'n hunan wella. Efallai bydd rhai o'r ysgolion hyn yn dangos rhai elfennau cryf ond bod agweddau sylweddol eraill angen

- eu gwella. Mewn rhai ysgolion, bydd nifer o agweddau sydd angen eu gwella. Yn y model trywydd, gwelir bod yr ysgolion hyn fel arfer yn dirywio'n gyflym, yn dirywio'n araf neu'n ysgolion sy'n gwella o'r dirywiad. Adnabyddir lleiafrif fel rhai sy'n perfformio wannaf yn y system a bydd y rhan fwyaf mewn categori statudol Estyn.
- 3.4 O fewn y strwythur rhanbarthol diwygiedig [Atodiad 2], sefydlir grŵp amlasiantaethol ym mhob awdurdod lleol. Bydd yr aelodau yn cynnwys uwch swyddogion, swyddogion arweiniol o'r gwasanaethau perthnasol ac Arweinydd Craidd GwE.
- 3.5 Er mwyn sicrhau bod pob grŵp yn gweithredu'n gyson, trafodwyd a chytunwyd ar ymddygiad a gwerthoedd, yn ogystal â set ranbarthol o drothwyon a sbardunau a ddefnyddir wrth adnabod a chynllunio cymorth i'r ysgolion hynny sy'n achosi pryder [Atodiad 3 Gwerthoedd ac Ymddygiad]. Trefnir a darperir hyfforddiant i'r holl swyddogion ac ymgynghorwyr i sicrhau dealltwriaeth gytun o werthoedd, ymddygiad a sut i weithredu trothwyon yn gyson.
- 3.6 Ble gwelir bod ysgol yn 'achosi pryder', bydd y swyddog arweiniol a'r Arweinydd Craidd yn gweithio gyda'r tîm arweinyddiaeth i ddatblygu cynllun cefnogaeth holistaidd 360 i'r ysgol. Bydd y cynllun yn sicrhau bod yr ymdrech i yrru gwelliannau, ar y cyflymdra angenrheidiol, yn fwy cynhwysfawr.
- 3.7 Bydd y grŵp amlasiantaethol yn cymryd cyfrifoldeb am sicrhau bod y cynlluniau a'r broses fonitro yn cael eu gweithredu. Adolygir cynlluniau yn rheolaidd a'u haddasu i roi sylw i ofynion parhaus. Ble bydd pryderon yn codi am ddiffyg cynnydd neu gyflymdra cynnydd, gweithredir i uwch gyfeirio'r mater i'r Bwrdd Ansawdd Lleol dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Addysg/Pennaeth Gwasanaeth [Atodiad 4 Uwch gyfeirio Pryderon]. Mater i'r Cyfarwyddwr Addysg/Pennaeth Gwasanaeth fydd penderfynu a fydd angen gweithredu pwerau statudol gweithredol pan fydd pryderon wedi'u huwch gyfeirio.
- 3.8 Gweithredir y strwythurau a'r prosesau a esblygwyd ar draws y rhanbarth o Dymor yr Hydref 2021 ymlaen i sicrhau bod dull mwy cynhwysfawr a holistaidd i gefnogi ysgolion sy'n achosi pryder. Bydd GwE a gwasanaethau'r ALI yn monitro a gwerthuso effeithiolrwydd y dull gweithredu diwygiedig ar y cyd.

#### **4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.

#### **5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

#### **6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

#### **7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

#### **8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE a bu uwch swyddogion o'r chwe awdurdod lleol wrthi'n cyfrannu at ddatblygu'r model. Ymgynghorir ymhellach â phenaethiaid ar lefel awdurdod lleol yn ystod hanner gyntaf Tymor yr Hydref.

#### **9.0 Atodiadau**

- Atodiad 1 - Model Trywydd
- Atodiad 2 - Strwythur Rhanbarthol Diwygiedig
- Atodiad 3 - Gwerthoedd ac ymddygiad
- Atodiad 4 - Uwch gyfeirio Pryderon

---


#### **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

##### **Swyddog Monitro:**


Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

##### **Swyddog Cyllid Statudol:**

Nodaf fod rhan 5.1 o'r adroddiad blaen yn cadarnhau nad oes unrhyw ymhlygiadau ariannol yn codi o'r penderfyniad a geisir yma, a bydd GwE yn gweithredu o fewn eu hadnoddau ariannol cyfredol.







### **GWERTHOEDD AC YMDDYGIAD**

- cysoni ein gwaith â'r Fframwaith Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd Cenedlaethol a'r dulliau gweithredu a fabwysiedir yn y cynllun peilot ar gyfer ysgolion sy'n achosi pryder.
- sicrhau synergedd drwy gyd-berchnogi problemau, cydweithio, cyd-lunio a chyd-feddwl.
- partneriaid sy'n gyd-gyfrifol am bob agwedd ar gymorth a her.
- sicrhau bod prosesau yn canolbwyntio ar gael datrysiad a bod camau gweithredu yn seiliedig ar dystiolaeth.
- bod yn onest, yn agored, yn dryloyw a dangos ffydd.
- bod yn bositif, yn wylaidd, yn ddyfeisgar, yn ddiffuant ac yn gywir.
- hyrwyddo mynd ati i ddysgu am ddulliau, strategaethau a thechnegau newydd drwy fod yn benagored ac edrych tuag at allan.
- sicrhau bod llinellau cyfathrebu clir.
- bod yn rhagweithiol a chrisialu'r hyn sy'n bwysig a bod yn ysgafn o ran yr elfen archwilio.
- sicrhau cyfrinachedd, cysondeb a phroffesiynoldeb rhwng pob partner.
- gallu addasu, bod yn bwrpasol ac yn drylwyr wrth weithredu.
- dathlu cyflawniad a chydabod llwyddiant unigolion, timau a'r sefydliad.

**CYNNYDD MEWN PRYDERON / ESCALATION OF CONCERNS**  
**ADRODDIAD GAN Y GRWP AML-ASIANTAETHOL I'R BWRDD ANSAWDD**  
**REPORT BY MULTI-AGENCY GROUP TO LOCAL QUALITY BOARD**

<b>Ysgol / School</b>		<b>ALI / LA</b>	
<b>Pennaeth / Headteacher</b>		<b>Dyddiad / Date</b>	
<b>YCG / SIA</b>		<b>Swyddog ALI / LA Officer</b>	
<b>Arweinydd Craidd / Core Lead</b>		<b>Cadeirydd GAA / Chair MAG</b>	

**Gwybodaeth cyd-testunol / Contextual information**

**Crynodeb o'r pryderon a'r dystiolaeth / Overview of concerns and supporting evidence**

Mae safonau perfformiad disgyblion yn yr ysgol yn annerbyniol o isel.  
*The standards of performance of pupils at the school are unacceptably low.*

Mae methiant wedi bod yn y ffordd y mae'r ysgol yn cael ei rheoli neu ei llywodraethu.  
*There has been a breakdown in the way the school is managed or governed.*

Mae ymddygiad disgyblion yn yr ysgol neu unrhyw gamau a gymerwyd gan y disgyblion hynny neu eu rhieni yn rhagfarnu'n ddifrifol, neu'n debyg o ragfarnu'n ddifrifol, addysg unrhyw ddisgyblion yn yr ysgol.  
*The behaviour of pupils at the school or any action taken by those pupils or their parents is severely prejudicing, or is likely to severely prejudice, the education of any pupils at the school.*

Mae diogelwch disgyblion neu staff yr ysgol o dan fygythiad (p'un ai drwy fethiant disgyblu neu fel arall).  
*The safety of pupils or staff at the school is threatened (whether by a breakdown of discipline or otherwise).*

Mae'r corff llywodraethu neu'r pennaeth wedi methu, neu'n debyg o fethu â chydymffurfio â dyletswydd o dan y Deddfau Addysg.  
*The governing body or head teacher has failed, or is likely to fail, to comply with a duty under the Education Acts.*

Mae'r corff llywodraethu neu'r pennaeth wedi gweithredu, neu'n bwriadu gweithredu, yn afresymol wrth arfer unrhyw rai o'i swyddogaethau o dan y Deddfau Addysg.  
*The governing body or head teacher has acted, or is proposing to act unreasonably in the exercise of any of its or his or her functions under the Education Acts.*

**Argymhellion Gweithredu i'r Bwrdd Ansawdd Lleol / Recommended Actions for Local Quality Board**

## RHAN 2 / SECTION 2

## YMATEB Y BWRDD ANSAWDD / LOCAL QUALITY BOARD RESPONSE

<b>Dwysau gweithredu : Penderfyniad dilynol gan y Bwrdd Ansawdd Lleol</b> <b>Escalation of action : Follow-up decision taken by Local Quality Board</b>	
	Dim gweithredu pellach ar hyn o bryd / <i>No further action at this point</i>
	Addasu Cynllun Cymorth 360 i ymateb i'r pryderon <i>Adapt 360 Support Plan to address identified concerns</i>
	Trefnu cyfarfod ffurfiol gyda'r Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr <i>Formal meeting with Head teacher and Chair of Governors</i>
	Cyflwyno Hysbysiad Rhybudd / <i>Issue warning notice:</i>
1	Gofyniad i sicrhau cyngor neu gydweithio <i>Require school to secure advice or collaborate in order to secure improvements</i>
2	Penodi llywodraethwyr ychwanegol <i>Appointment of additional governors</i>
3	Atal awdurdod dirprwyedig y corff llywodraethu i reoli cyllideb yr ysgol <i>Suspension of delegated authority for the governing body to manage a school's budget</i>
4	Penodi Bwrdd Gweithredol Interim <i>Appointment of an Interim Executive Board (IEB)</i>
<b>RATIONALE TU ÔL I'R PENDERFYNIAD / RATIONALE BEHIND DECISION</b>	
<b>Arwyddwyd / Signature</b> <b>Pennaeth Addysg / Head of Education</b>	<b>Dyddiad</b> <b>Date</b>



## ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

22 Medi 2021

---

**Adroddiad gan:** Arwyn Thomas - Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Pwnc:** Strategaeth ranbarthol - Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr

---

### 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno gwybodaeth, ac i aelodau'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo ein 'Strategaeth ranbarthol - Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr'.

### 2.0 Cefndir

2.1 Mae pandemig Covid-19 wedi dangos i ni bod newid, er gwell, yn bosibl hyd yn oed dan yr amgylchiadau mwyaf heriol. Yng ngogledd Cymru, manteisiodd GwE, yr Awdurdodau Lleol, Ysgolion ac UauCD ar y cyfle i edrych ar ffyrdd arloesol o weithio.

2.2 Wrth i ni fynd i'r afael â'r diwygio cenedlaethol, daw'n glir ein bod ni mewn lle gwahanol i'r hyn a ddychmygwyd pan gyhoeddwyd canllawiau Cwricwlwm i Gymru ddeunaw mis yn ôl. Rydym yn cydnabod y bydd rhywfaint o'r gwaith paratoi ar gyfer y cwricwlwm wedi'i neilltuo i reoli effaith y pandemig dros y flwyddyn ddiwethaf. Ar y llaw arall, gyda phwyslais cryfach fyth ar les a buddsoddiad sylweddol mewn dysgu ac addysgu, mae'r gwerthoedd sy'n sail i'r cwricwlwm wedi bod wrth wraidd y ffordd y bu ysgolion yn gweithio. Mae GwE wedi ymrwymo'n llawn i gefnogi ysgolion ac UauCD i gynnal y momentwm hwn i sicrhau bod pob dysgwr yng ngogledd Cymru yn cael darpariaeth o'r safon uchaf.

### 3.0 Ystyriaethau

3.1 Gweler ynghlwm (Atodiad 1) ein 'Strategaeth ranbarthol - Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr', sy'n gosod allan gyfeiriad strategol ein gwaith am y cyfnod nesaf. Drwy weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol a gwrando arnynt, rydym wedi

---

adnabod y themâu a ganlyn i gefnogi ein nod o sicrhau bod pob dysgwr yng ngogledd Cymru yn cael darpariaeth o'r safon uchaf. Nodir y themâu hyn yn ein Cynlluniau Busnes ac fe'u gweithredir drwy raglenni partneriaeth a chynnig o gymorth generig ac unigryw wedi'i wahaniaethu i'n hysgolion a'n UauCD.

- Y Daith Ddiwygio / Gwireddu Cwricwlwm
- Ailgydio mewn dysgu (Recrwtio, Adfer a Chodi Safonau)
- Strategaeth i gefnogi rhieni / gofalwyr i helpu eu plant i ddysgu
- Lles dysgwyr a lles ysgol gyfan
- Lles y gweithlu (GwE ac ysgolion)
- Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- Y Gymraeg
- Datblygu Arweinyddiaeth
- Digidol
- Dysgu Proffesiynol

3.2 Yn ogystal, amlinellir sut y byddwn yn esblygu'r model rhanbarthol, y datblygiadau o ran y cynllun partneriaeth ysgolion, adolygu gan gymheiriaid a chymorth ysgol i ysgol, ynghyd â'r strwythurau a'r prosesau fydd ar waith i adnabod a chefnogi ysgolion sy'n destun pryder.

3.3 Yng ngogledd Cymru, mae GwE a'r chwe Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth efo ysgolion i ddatblygu system atebolrwydd gadarn, system sydd gan randdeiliaid allweddol ffydd ynddi ac sydd yn dal bob partner yn gwbl atebol am ei rôl yn datblygu ein dysgwyr. Amlinellir y disgwyliadau system yng ngogledd Cymru yn glir a'r hyn rydym yn anelu i'w gyflawni erbyn mis Medi 2024.

#### **4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor dderbyn a chymeradwyo'r Strategaeth Ranbarthol

4.2 Penderfynu a oes unrhyw agweddau y dymunant eu trafod ymhellach mewn cyfarfod yn y dyfodol.

#### **5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

#### **6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

#### **7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

#### **8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghorwyd â'r Fforymau Strategol Penaethiaid rhanbarthol, cynrychiolwyr o'r Awdurdodau Lleol, y Tîm Llawn, y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor.

## **9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad 1 - Strategaeth ranbarthol - Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr

---

### **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

#### **Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

#### **Swyddog Cyllid Statudol:**

Nodaf fod rhan 5.1 o'r adroddiad blaen yn cadarnhau nad oes unrhyw ymhllygiadau ariannol yn codi o gymeradwyo'r Strategaeth ranbarthol, gan fydd GwE yn gweithredu o fewn eu hadnoddau ariannol cyfredol.

## STRATEGAETH RANBARTHOL

### Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr

#### CYD-DESTUN

Mae pandemig Covid-19 wedi dangos i ni bod newid, er gwell, yn bosibl hyd yn oed dan yr amgylchiadau mwyaf heriol. Yng ngogledd Cymru, manteisiodd GwE, yr Awdurdodau Lleol, Ysgolion ac UauCD ar y cyfle i edrych ar ffyrdd arloesol o weithio. Mae ysgolion wedi bod yn darparu profiadau dysgu ac addysgu pwrpasol trwy ddull dysgu cyfunol llawn creadigedd. Mae angen datblygu ar y profiadau hyn i osgoi llamu'n ôl, gan gynnal y dysgu cadarnhaol sydd wedi datblygu dros y cyfnod hwn a pharatoi am y dyfodol. Mae pedair thema drawsliniol Sefydliadau sy'n Dysgu, sef amser, ymddiriedaeth, meddwl gyda'n gilydd a thechnoleg wedi datblygu'n sylfeini cadarn dull cydweithredol o weithio wrth i ni symud ymlaen gyda'r agenda ddiwygio.

Wrth i ni fynd i'r afael â'r diwygio cenedlaethol, daw'n glir ein bod ni mewn lle gwahanol i'r hyn a ddychmygwyd pan gyhoeddwyd canllawiau Cwricwlwm i Gymru ddeunaw mis yn ôl. Rydym yn cydnabod y bydd rhywfaint o'r gwaith paratoi ar gyfer y cwricwlwm wedi'i neilltuo i reoli effaith y pandemig dros y flwyddyn ddiwethaf. Ar y llaw arall, gyda phwyslais cryfach fyth ar les a buddsoddiad sylweddol mewn dysgu ac addysgu, mae'r gwerthoedd sy'n sail i'r cwricwlwm wedi bod wrth wraidd y ffordd y bu ysgolion yn gweithio. Mae GwE wedi ymrwymo'n llawn i gefnogi ysgolion ac UauCD i gynnal y momentwm hwn i sicrhau bod pob dysgwr yng ngogledd Cymru yn cael darpariaeth o'r safon uchaf.

Byddwn yn sicrhau bod pob dysgwr yng ngogledd Cymru yn gallu dysgu yn effeithiol. Mae eu hiechyd meddyliol a'u lles emosiynol, eu perthnasau a'u hiechyd corfforol oll yn alluogwyr hanfodol dysgu da. Byddwn yn cefnogi ysgolion i ganolbwyntio ar y meysydd hyn yn ogystal â datblygu'r sgiliau galluogi allweddol sy'n cynnwys llafaredd, llythrennedd, rhifedd, cynllunio, trefnu a meddwl yn feirniadol.

Byddwn yn cefnogi ysgolion i sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd ystyrlon yn eu dysgu. Mae rhoi ffocws ar ddilyniant yn flaengar, gan bwysleisio'r hyn sydd ar ddysgwyr ei angen i gyflawni'r camau nesaf yn eu haddysg. Mae hyn yn osgoi model ar sail diffyg, sy'n canolbwyntio ar 'ddal i fyny'. Mae trefniadau asesu priodol yn sail i'r dilyniant hwn, gan ein helpu i adnabod, gweld a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser. Byddwn yn cefnogi ysgolion i ddatblygu asesu ffurfiannol a chrynodol wrth iddynt gynllunio ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd.

Daeth cadarnhad gan y Gweinidog Addysg y parheir i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion cynradd, ysgolion meithrin a gynhelir ac UauCD meithrin nas cynhelir o fis Medi 2022. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd y rhoddir rhywfaint o hyblygrwydd ychwanegol i ysgolion uwchradd. Yn 2022, bydd ysgolion sy'n barod i gyflwyno'r cwricwlwm i flwyddyn 7 yn gallu bwrw ymlaen gyda hynny. Er hynny, ni fydd hi'n statudol i weithredu'r cwricwlwm newydd yn ffurfiol tan 2023, gyda'r cyflwyno yn digwydd yn y flwyddyn honno i flynyddoedd 7 ac 8 efo'i gilydd. Dyma fydd yr achos hefyd mewn ysgolion arbennig ac ysgolion 3 i 16 oed.



Bydd GwE yn annog ysgolion uwchradd ac arbennig sy'n gallu bwrw ymlaen efo'u cynlluniau presennol i weithredu'r cwricwlwm newydd efo blwyddyn 7 o fis Medi 2022. Rydym hefyd yn sylweddoli y bydd rhai ysgolion uwchradd yn parhau ar eu llwybr tuag at ddiwygio'r cwricwlwm o fis Medi 2022, ac y byddant yn gweithredu'r cwricwlwm newydd o fis Medi 2023 pan ddaw'n statudol i flynyddoedd 7 ac 8. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod gwaith diwygio'r cwricwlwm, ac yn enwedig y cyswllt uniongyrchol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, yn parhau er mwyn cefnogi dysgwyr i bontio waeth beth yw'r amserlen weithredu a ddefnyddir gan yr ysgol uwchradd.

Y tu hwnt i 2023, cyflwynir y Cwricwlwm i Gymru fesul blwyddyn, a dyfernir y cymwysterau cyntaf sydd wedi'u llunio'n benodol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru yn y flwyddyn academaidd 2026-27, fel y bwriadwyd. Bydd diwygio cymwysterau yn chwarae rhan greiddiol yn llwyddiant y cwricwlwm, a bydd GwE yn cefnogi gwaith Cymwysterau Cymru dros y flwyddyn nesaf i helpu i siapia set o gymwysterau o'r safon uchaf sy'n cyd-fynd ag athroniaeth y cwricwlwm newydd.

Yng ngogledd Cymru, mae GwE a'r chwe Awdurdod Lleol yn credu'n gryf ei bod yn hynod bwysig bod arweinwyr a staff ym mhob sefydliad yn cael eu hannog a'u cefnogi i greu partneriaethau cryf ac effeithiol o fewn ac ar draws y system addysg. Mae ein dull gweithredu rhanbarthol eisoes wedi mabwysiadu model gweithio clwstwr/cynghrair i weithredu ar feysydd diwygio gweddnewidiol allweddol, megis datblygu'r cwricwlwm, ADY a'r Gymraeg. Fe'i defnyddiwyd yn effeithiol hefyd i rannu adnoddau ac arferion effeithiol yn ystod pandemig COVID-19. Mae GwE wedi ymrwymo'n llawn i barhau â'r gwaith hwn ac i ddatblygu a gwreiddio rhaglenni partneriaeth strwythuredig a threfnus, seiliedig ar dystiolaeth. Bydd GwE a'r chwe Awdurdod Lleol yn parhau i gefnogi ysgolion ac UauCD i sicrhau bod ymgysylltu â chymheiriaid a chydweithio yn greiddiol wrth i ni fynd ati i ddatblygu system hunan wella gadarn, gynaliadwy ac effeithiol.

Rydym yn llwyr gefnogi gweledigaeth y Gweinidog, fel yr amlinellir yn '*Cymraeg 2050: ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026*', sef creu dinasyddion dwyieithog sy'n hyderus i ddefnyddio Cymraeg ym mhob rhan o fywyd bob dydd. Bydd GwE yn gweithio mewn partneriaeth efo'r chwe Awdurdod Lleol i sicrhau bod ysgolion ac UauCD wedi'u cefnogi'n llawn i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu a'r dysgwyr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi diweddarau'r ddogfen '*Cwricwlwm i Gymru: y daith at 2022*', sy'n nodi'r disgwyliadau ar ysgolion i ddiwygio'r cwricwlwm. Bydd GwE yn cefnogi rhwydweithiau rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm o'r hydref ymlaen. Bydd ysgolion y rhanbarth yn gweithio mewn partneriaeth efo'r Athro Graham Donaldson, GwE a'r chwe Awdurdod Lleol i ddatblygu arferion effeithiol i ddatgloi potensial y chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) a datblygu dylunio ac asesu cwricwlwm ysgol gyfan.

Bydd strwythurau a phrosesau i adnabod a chefnogi ysgolion sy'n destun pryder yn sicrhau y bydd ymyrraeth yn amserol ac yn briodol i gyd-destun yr ysgol. Bydd pob ysgol a nodir yn ysgol sy'n destun pryder yn cael cynllun cefnogaeth 360 cyfannol yn nodi'n glir natur a dwyster y cymorth a roddir naill ai gan GwE neu'r gwasanaeth Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am ddarparu. Amlinellir y broses hon yn y Cytundeb Partneriaeth rhwng bob Awdurdod Lleol a'i

ysgolion. Bydd pob ysgol sy'n destun pryder yn rhan o weithio clwstwr/cynghrair a fydd hefyd yn cyfrannu tuag at eu taith wella.

Bydd GwE a'r chwe Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gyda phartneriaid allweddol fel Llywodraeth Cymru, Estyn a Cymwysterau Cymru i ddylanwadu ar bolisi, Fframwaith newydd Estyn a diwygio cymwysterau i sicrhau ein bod yn cyfrannu at weithredu blaenoriaethau'r Gweinidog.

## THEMÂU

Drwy weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol a gwranddo arnynt, rydym wedi adnabod y themâu canlynol i gefnogi ein nod o sicrhau bod pob dysgwr yng ngogledd Cymru yn cael darpariaeth o'r safon uchaf. Nodir y themâu hyn yn ein Cynlluniau Busnes ac fe'u gweithredir drwy raglenni partneriaeth a chynnig o gymorth generig ac unigryw wedi'i wahaniaethu i'n hysgolion a'n UauCD.

### Y Daith Ddiwygio / Gwireddu Cwricwlwm

- Sicrhau cymorth i ysgolion wrth iddynt ymateb i'r daith diwygio addysg, gyda phwyslais cryf ar addysgeg, addysgu effeithiol ac ymchwil weithredu.
- Defnyddio strategaethau asesu ffurfiannol yn dda, neu'n well, ym mhob ysgol
- Sicrhau cymorth i ysgolion wrth iddynt ymateb i'r daith diwygio addysg, gyda phwyslais cryf ar y 12 egwyddor addysgegol ac ymchwil weithredu.
- Sicrhau cysondeb yn nealltwriaeth ysgolion o egwyddorion allweddol y canllawiau asesu newydd.
- Sicrhau cymorth i ysgolion mewn perthynas â Dylunio'r Cwricwlwm ysgol gyfan ac o fewn MDaPh.

### Ailgydio mewn dysgu (Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau) [RRRS]

- Gweithredu rhaglenni sy'n ceisio lleihau effaith cau ysgolion ar gyrhaeddiad disgyblion yn eu darllen a'u hysgrifennu yn Gymraeg a Saesneg.
- Strategaeth addysgu yn seiliedig ar dystiolaeth a ddatblygwyd i helpu disgyblion i wella'u rhuglder a'u cynnydd mewn mathemateg.
- Datblygu adnoddau ar-lein sy'n addas i staff ysgolion a rhieni fel bod modd defnyddio'r ymyraethau hyn i helpu gyda datblygiad darllen plant.
- Parhau i ddatblygu a chynhyrchu cyfres o ddeunyddiau cymorth cyffredinol ar gyfer rhifedd a llythrennedd uwchradd

### Strategaeth i gefnogi rhieni / gofalwyr i helpu eu plant i ddysgu

- Datblygu pecyn cyfannol sydd yn cefnogi ac yn helpu rhieni a gofalwyr i drawsffurfio eu dealltwriaeth o'r dysgu, a'r hyn gallant ei wneud i helpu eu plentyn.
- Datblygu cwrs cynhwysfawr ar gyfer rhieni a gofalwyr, sy'n rhoi iddynt yr holl adnoddau, yr wybodaeth a'r hyder sydd eu hangen arnynt i helpu eu plant i ddysgu gartref.
- Rhoi canllawiau ysgrifenedig sydd yn cynnwys strategaethau a thechnegau y gall rhieni / gofalwyr eu defnyddio i gefnogi eu plentyn i ddysgu.
- Darparu strategaethau, gweithgareddau a thechnegau ymarferol y gall rhieni a gofalwyr eu defnyddio i helpu eu plant i ddysgu

- Datblygu ac addasu adnoddau yn briodol i fodloni anghenion grwpiau penodol o rieni a gofalwyr.
- Adolygu'r ddarpariaeth a gynigir ar draws y rhanbarth er mwyn sicrhau bod yr adnoddau presennol yn llwyr gefnogi a bodloni anghenion lleol a rhanbarthol yn effeithiol.

### Lles dysgwyr a lles ysgol gyfan

- Parhau i weithio'n agos mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol i ddarparu cymorth lles i ddysgwyr mewn ysgolion a lleoliadau.
- Parhau i roi cymorth i arweinwyr ysgolion ar adnabod, cefnogi ac ymgysylltiad grwpiau penodol o ddysgwyr bregus a difreintiedig, gan gynnwys y dysgwyr hynny ble cafodd cau'r ysgolion effaith anghymesur arnynt.
- Datblygu ymhellach a gweithredu'r strategaeth GDD genedlaethol ar draws y rhanbarth.
- Datblygu dull llesiant ysgol gyfan, gan hyrwyddo 'Dinasyddion Egwyddorol, Gwybodys yng Nghymru'.
- Cyd-greu adnoddau llesiant ysgol gyfan efo ysgolion ar draws y rhanbarth

### Lles y gweithlu (GwE ac ysgolion)

- Parhau i weithio'n agos mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol i ddarparu cymorth lles i ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau.
- Cynnal lles emosiynol yr unigolyn yng nghyd-destun ei rôl broffesiynol
- Rhoi iechyd a lles wrth wraidd popeth a wnawn.
- Defnyddio fframwaith hyfforddi (*coaching*) mewn sgysiau, cyfarfodydd ac arweinyddiaeth o ddydd i ddydd i ddatgloi potensial ac annog unigolion i ddatblygu.

### Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Ar y cyd â'r Awdurdodau Lleol:

- Cefnogi'r broses o adolygu ansawdd darpariaeth ADY
- Datblygu cynnig dysgu proffesiynol sy'n bodloni anghenion y gweithlu.
- Parhau i gefnogi clystyrau i ddatblygu cynlluniau arloesol i gyflawni nodau trawsnewid ADY.
- Parhau i gefnogi gyda darparu'r rhaglen gymorth a hyfforddiant i ysgolion

### Y Gymraeg

Ar y cyd â'r Awdurdodau Lleol byddwn yn gweithredu '*Cymraeg 2050: ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026*' Llywodraeth Cymru:

- Datblygu'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg trwy'r 'Siarter Iaith' a 'Cymraeg Campus'.
- Darparu cynnig proffesiynol ar gyfer yr iaith Gymraeg sy'n rhan o Strategaeth Dysgu Carlam y rhanbarth.
- Cynnig dysgu proffesiynol i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu.
- Hyrwyddo proffil y Gymraeg ymysg arweinwyr i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru a tharged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr erbyn 2050.
- Rhoi cymorth i ysgolion a lleoliadau sydd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fel iaith gyntaf i wella sgiliau Cymraeg iaith Gyntaf eu dysgwyr, ac yn enwedig y rheiny o gartrefi di-Gymraeg.

- Gweithio mewn partneriaeth i gefnogi pob Awdurdod Lleol gyda'i flaenoriaethau CSCA.

### **Datblygu arweinyddiaeth**

- Sicrhau bod gan bob sefydliad dysgu y gallu i arwain ar bob lefel er mwyn ysbrydoli, hyfforddi, cefnogi, rhannu arferion a chydweithio ar bob lefel er sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni ei botensial.
- Sicrhau bod egwyddorion arweinyddiaeth wasgaredig yn cael eu gwreiddio ym mhob sefydliad dysgu ar draws y rhanbarth.
- Parhau i gynnig ystod eang o gyfleoedd Dysgu Proffesiynol mewn perthynas â rhaglenni datblygu arweinyddiaeth i ddatblygu arweinwyr y presennol a'r dyfodol:
  - Arweinwyr Canol
  - Uwch Arweinwyr
  - Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP)
  - Penaethiaid Newydd a Phenathiaid Dros Dro
  - Penaethiaid Profiadol

### **Digidol**


- Sicrhau bod dealltwriaeth ysgolion y rhanbarth o gadernid digidol yn gyfredol, a bod dysgu ac addysgu am faterion diogelwch digidol yn bwrpasol ac yn effeithiol.
- Datblygu arweinyddiaeth ddigidol effeithiol yn ysgolion y rhanbarth i gryfhau dulliau strategol o gynllunio gwelliant, rheoli newid a monitro effaith.
- Sicrhau bod cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gael i holl staff ysgolion i'w hyfforddi ar sut i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael drwy Hwb, a sut i ddefnyddio'r adnoddau yn effeithiol i wella ansawdd y dysgu.

### **Dysgu Proffesiynol**

- Darparu dysgu proffesiynol, cymorth ac arweiniad pwrpasol i ysgolion a lleoliadau i'w helpu i gyflawni'r Daith Ddiwygio, a pharatoi at y cwricwlwm newydd.
- Rhoi mynediad at ystod o ddysgu proffesiynol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i bob ymarferydd addysg mewn ysgolion a lleoliadau, sy'n briodol i'w rôl a'u cyfrifoldeb yn unol â safonau proffesiynol, gan gynnwys mynediad at hyfforddi a mentora.

### **ESBLYGU'R MODEL RHANBARTHOL**


Mae rôl yr Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant (YCG) yn dal i esblygu wrth i ni barhau i fodloni anghenion a disgwyliadau ein holl randdeiliaid. Bydd ein dull gweithredu yn cefnogi lles a chynnydd dysgwyr drwy weithio mewn partneriaeth ar draws y system er mwyn galluogi adnewyddu a diwygio. Gyda'r dysgwr wrth wraidd popeth a wnawn, bydd ymgynghorwyr yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gefnogi Llywodraeth Cymru i adnewyddu addysg ar ôl y pandemig a sicrhau bod y daith ddiwygio yn aros ar drac.



Yn sail i'r ddwy agwedd graidd ar ein gwaith wrth symud ymlaen, sef y daith ddiwygio a gwella ysgol, y mae pum maes gwaith:

- Cydweithredu
- Data Cyfoethog i lywio Hunan Arfarnu
- Cymorth Dwys pan fydd angen
- Dysgu Proffesiynol
- Cyfathrebu

Bydd Swyddogaeth Graidd y gwaith yn cynnwys dull partneriaeth rhanbarthol, gydag ysgolion yn cydweithio ac ysgolion yn gweithio'n unigol. Rhydd hyn hyblygrwydd lleol o ran y model darparu.



Er mwyn sicrhau ein bod yn dal i fodloni gofynion a disgwyliadau rhanddeiliaid, bydd angen i'n model partneriaeth ysgol esblygu ymhellach. Gydag ysgolion, clystyrau a chynghreiriau ar wahanol bwyntiau ar y continwmm hunan wella, bydd angen defnyddio dull fwy gofalus.

Y prif ffocws yw galluogi ysgolion i wella trwy ddatblygu system hunan wella o safon uchel, sy'n sicrhau'r gorau i bob plentyn.

Bydd y trefniadau ar bob lefel yn drylwyr, cadarn a chydlynol. Yn sail i'r trefniadau hyn y mae'r egwyddor o annog a chefnogi ysgolion, clystyrau a chynghreiriau i gymryd perchenogaeth ac atebolrwydd cynyddol am eu taith wella.

Byddwn yn sicrhau bod y dull rhanbarthol ar gyfer partneriaeth ysgol yn:

- Deg: ble byddwn yn hyrwyddo tegwch a chynhwysiant, a byth yn colli golwg ar y dysgwr.
- Cydlynol: ble bydd ysgolion a GwE yn gweithio gyda'i gilydd gyda dyletswyddau craidd, rolau a disgwyliadau a bennir yn lleol.
- Cymesur: ble byddwn yn sicrhau bod gennym ni fodel hylaw sy'n gwneud gwahaniaeth i bob ysgol. Bydd ein dull yn cefnogi mwy o ymreolaeth i'r ysgolion, y clystyrau a'r cynghreiriau hynny sydd â'r gallu i hunan wella, ar yr un pryd â chytuno ar becyn cymorth mwy cynhwysfawr a dwys i ysgolion sy'n wynebu heriau penodol ar adeg benodol, ac am gyfnod penodol.
- Ar y cyd: ble nad oes yr un ysgol yn gweld ei hunan fel ynys. Trwy weithio gyda'i gilydd mewn dull strwythuredig, gall ysgolion wella'n gynt ac yn fwy cynaliadwy. Bydd cydweithio â chymheiriaid ac ymgysylltu â chymheiriaid yn nodwedd ganolog o'n model. Bydd pob partner allweddol yn mynd ati i ddatblygu cyd-ffeithiolrwydd yn seiliedig ar dryloywder, gonestrwydd, bod yn agored ac ymddiriedaeth uchel. Mae a wnelo â phartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i greu capasiti yn y system drwy brosesau a gweithgareddau cyfoethogi ansawdd.
- Tryloyw: ble byddwn yn cydnabod ehanger profiadau dysgu ar draws y rhanbarth a gwerth ychwanegol ysgolion, arweinwyr, athrawon, staff cymorth ac ymgynghorwyr, sy'n gweithio gyda'i gilydd at ddiben cyffredin cytûn.

Wrth i ni symud ymlaen gyda chynllunio a chyflwyno'r daith ddiwygio, bydd ein dull partneriaeth ysgol yn creu hyblygrwydd i ysgolion, clystyrau a chynghreiriau i gytuno ar ddyletswyddau craidd ar gyfer:

- gwaith datblygiadol ar y cyd
- dulliau o gefnogi gwelliannau mewn ysgolion unigol o fewn eu clwstwr / cynghrair
- prosesau adrodd ac atebolrwydd

Rhoddir hyblygrwydd hefyd i gystyrau a chynghreiriau gytuno ar swyddogaeth graidd a chyfraniad GwE i'r tair agwedd a nodwyd uchod. Ble bydd clwstwr / cynghrair yn pennu bod ganddo'r gallu i gyflawni nifer o'r swyddogaethau craidd, darperir adnoddau i gefnogi gyda'r gwaith hwn a bydd cyfraniad GwE yn gymesur. Ble bydd clwstwr / cynghrair yn pennu bod angen i GwE gyflawni cyfran uwch o'r swyddogaethau craidd, bydd lefel yr adnoddau a neilltuir yn gymesur. Gallai cyfraniad GwE gynnwys:

- Arwain neu gymryd rhan mewn cyfleoedd sicrhau ansawdd neu gyfoethogi ansawdd
- Arwain neu gyfrannu i waith datblygiadol
- Hyfforddi neu fentora grwpiau neu unigolion
- Hwyluso gweithgareddau cydweithredol clystyrau / cynghreiriau
- Arwain ar ddatblygiad proffesiynol ysgol gyfan neu glwstwr / cynghrair
- Darparu pecyn cymorth fwy dwys ar gyfer ysgolion unigol o fewn clwstwr / cynghrair
- Cyfraniadau rôl arbenigol
- Cefnogi datblygiad proffesiynol y gweithlu
- Cyfeirio a rhannu arferion gorau

Diffinnir rolau a chyfraniadau o fewn 'cytundeb partneriaeth' clwstwr / cynghrair, a fydd yn cael ei adolygu a'i werthuso ar ddiwedd y flwyddyn (gweler y Ffeithlun isod).

### CYNLLUN PARTNERIAETH YSGOLION

Diben Craidd	Cyd-ddatblygu		Cefnogi Gwelliant		Atebolrwydd ac Adrodd	
	Be?	Sut?	Be?	Sut?	Be?	Sut?
Clwstwr						
Ysgolion Unigol						
GwE						

DEILLIANNAU DISGWYLIEDIG SYDD WEDI EU HADNABOD GAN Y BARTNERIAETH

### ADNODD CYTUNEDIG GWE AR GYFER Y BARTNERIAETH

£xxxx


Er mwyn cryfhau datblygiad y cwricwlwm newydd, fe sefydlir rhwydweithiau datblygu MDaPh yn rhanbarthol ac yn lleol. Bydd arweinwyr ysgolion ac ymarferwyr yn cydweithio i ddatgloi potensial bob MDaPh drwy fodelu, cynllunio a rhannu arferion cwricwlwm.

Bydd rhwydweithiau cydweithredol yn gweithio ar y meysydd a ganlyn:

- 1 Datgloi potensial un o'r MDaPh
  - Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (Cymraeg a Saesneg)
  - Mathemateg a Rhifedd
  - Gwyddoniaeth a Thechnoleg
  - Y Dyniaethau
  - Iechyd a Lles
  - Y Celfyddydau Mynegiannol

- 2 Asesu
- 3 Cynllunio Cwricwlwm Ysgol Gyfan

Bydd ymarferwyr mewn ysgolion a phartneriaid ehangach ar draws y rhanbarth yn cael cyfle i gydweithio â rhwydwaith o gymheiriaid, yn cefnogi cynllunio cwricwlwm a datblygu MDaPh yn lleol ac yn rhanbarthol. Bydd ymarferwyr yn cyfathrebu ac yn rhoadru dysgu ac arferion llwyddiannus ar draws ysgolion ym mhob awdurdod lleol, ac yn cyfrannu i ddatblygu modelau cynllunio i gefnogi ysgolion i dreialu, gwerthuso a pharatoi'r gweithlu ar gyfer addysgu am y tro cyntaf. Bydd egwyddor isreolaeth yn sicrhau cyd-destun lleol i'r gwaith hwn.



Fe sefydlir wyth rhwydwaith MDaPh lleol ym mhob Awdurdod Lleol, un ar gyfer bob un o'r meysydd a nodwyd uchod. Bydd unigolion o'r grwpiau lleol hyn yn cynrychioli'r ALI mewn wyth rhwydwaith MDaPh rhanbarthol, gan sicrhau dull gweithredu cyson ar draws y rhanbarth. Bydd grŵp strategol rhanbarthol, yn cynnwys cynrychiolwyr traws sector o'r wyth grŵp ALI, yn darparu cyfeiriad a throsolwg o'r gwaith.

Bydd gan rwydweithiau fynediad i Ddysgu Proffesiynol a byddant yn gweithio mewn partneriaeth efo'r Athro Graham Donaldson, GwE a'r chwe ALI yng ngogledd Cymru i ddatblygu arferion MDaPh effeithiol a fydd yn cefnogi ysgolion ar eu Taith Ddiwygio.

### Adolygu gan gymheiriaid a chymorth ysgol i ysgol

Credwn yn gryf yma yng ngogledd Cymru y dylai adolygu gan gymheiriaid a chymorth ysgol i ysgol fod yn sbardun allweddol ar gyfer gwelliant parhaus mewn ysgolion wrth iddynt gynllunio ar gyfer darparu'r cwricwlwm newydd a'r diwygio cenedlaethol. Byddwn yn gweithio gydag ysgolion ac UauCD i wreiddio rhaglen o adolygu gan gymheiriaid ar sail y prosesau a ganlyn:



- **Hunan adolygiad** : dylai adolygu effeithiol gan gymheiriaid ddechrau efo pa mor dda y mae'r ysgol yn adnabod ei hunan, a chael ei arwain gan yr ysgol sy'n cael ei hadolygu. Dylai hunan arfarnu ganolbwyntio ar y dysgwyr, eu cyflawniadau, eu cynnydd a'u profiadau yn yr ysgol, dysgu ac addysgu, arweinyddiaeth, datblygu diwylliant o sefydliad sy'n dysgu, lles disgyblion a staff, cydraddoldeb a chynhwysiant. Wrth symud ymlaen, dylai hunan arfarnu hefyd ganolbwyntio ar bedwar diben y cwricwlwm newydd ac arfarnu cynnydd yr ysgol tuag at wireddu'r cwricwlwm newydd. Dylai prosesau hunan arfarnu'r ysgol adael i'r ysgol adnabod cryfderau a blaenoriaethau gwella. Dylai hefyd nodi agweddau ar ei thaith wella ble mae angen cymorth gan gymheiriaid i gefnogi gwelliant.
- **Adolygiad gan gymheiriaid** : mae ffocws cyffredin i'r adolygiadau cymheiriaid mwyaf effeithiol. Rhaid mai pwrpas y cydweithio yw gwella deilliannau, a dylai unrhyw ffocws cyffredin fod yn seiliedig ar dystiolaeth gref o'r hyn sydd angen i wella, a pha deilliannau fyddai'n elwa'r ysgol fwyaf. Mae adolygwyr cymheiriaid sy'n gweithio fel tîm, neu driawd, yn gweithio orau ble gallant driongli tystiolaeth a dadansoddi eu canfyddiadau ar y cyd. Nid ydynt yno i farnu, ond yn hytrach chwilio am dystiolaeth a chytuno ar ganfyddiadau i'w rhannu â'r ysgol. Mae'n rhaid i'r bartneriaeth fod yn seiliedig ar bwrpas moesol eglur a rennir, ble mae tryloywder, ymddiriedaeth a gonestrwydd yn allweddol ac yn greiddiol i'r broses. Dylai'r adolygu gan gymheiriaid hefyd roi cyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol, a chynnwys arweinwyr ar bob lefel.
- **Cymorth Ysgol i Ysgol** : os yw'r adolygu gan gymheiriaid am fod yn gyfrwng ar gyfer gwelliant parhaus mewn systemau ysgolion, yna rhaid iddo fynd ymhellach na'r adolygiad ei hun, a chynnwys cymorth ysgol i ysgol neu gymorth clwstwr. Pan fo staff yn berchen ar y deilliannau, bydd yr effaith hirdymor a'r effaith gynaliadwy yn fwy. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu capasiti ymhellach a gwella gwydnwch o fewn system sy'n hunan wella. Dylai'r partneriaethau a ddatblygir felly fynd y tu hwnt i arweinwyr ysgolion ac ymgysylltu â disgyblion, athrawon, teuluoedd a chymunedau.

### Ysgolion sy'n Destun Pryder

Bydd strwythurau a phrosesau i adnabod a chefnogi ysgolion sy'n destun pryder yn sicrhau y bydd ymyrraeth yn amserol ac yn briodol i gyd-destun yr ysgol.

Bydd **Grŵp Amlasiantaethol** yn cyfarfod yn rheolaidd (yn fisol, neu fel bo'r angen) i:

- Adnabod yr ysgolion hynny sydd mewn perygl o achosi pryder
- Cytuno â'r ysgol ar y cynllun cymorth 360 unigryw. Bydd cynlluniau yn nodi'n glir pa wasanaeth a fydd yn darparu cymorth ac adnoddau yn erbyn camau gweithredu penodol.
- Cytuno ar drefniadau monitro'r cynlluniau 360.
- Arfarnu effeithiolrwydd y cynlluniau cymorth 360 a gweithio efo ysgolion i fonitro cynnydd ac effaith
- Rhannu unrhyw arferion effeithiol o fewn ac ar draws awdurdodau lleol y rhanbarth
- Pan fo pryderon yn dwysáu, bydd y Grŵp Amlasiantaethol yn adrodd i'r Bwrdd Ansawdd fel y gall y Cyfarwyddwyr/Penaethiaid Gwasanaeth wneud penderfyniad gwybodus ac amserol ynghylch defnyddio pwerau ymyrraeth statudol.

Bydd **Bwrdd Ansawdd yr ALI** yn cyfarfod bob hanner tymor, a'r Prif Swyddog Addysg fydd y Cadeirydd. Dylid cofnodi penderfyniadau gweithredu'r Bwrdd a'u rhannu â'r Grŵp Amlasiantaethol neu'r gwasanaeth cefnogi fel y bo'n berthnasol.

Bydd y Bwrdd yn canolbwyntio fwyaf ar:


- Asesu cynnydd yr ysgolion hynny sy'n destun pryder a gafodd eu hadnabod gan Estyn neu brosesau lleol.
- Asesu ansawdd y cynllunio cymorth ar gyfer ysgolion sy'n destun pryder a wneir gan y Grŵp Amlasiantaethol
- Sicrhau bod y Grŵp Amlasiantaethol yn cyflawni ei ddyletswyddau monitro yn effeithiol.
- Gweithredu'n briodol pan fydd y Grŵp Amlasiantaethol yn rhannu bod pryderon wedi'u huwchgwyfeirio, ac yn benodol am allu arweinyddiaeth a llywodraethiant ysgol i wella ar gyflymder digonol.
- Ystyried defnyddio pwerau ymyrraeth statudol pan fo pryderon am gynnydd, neu gyflymder cynnydd
- Adnabod yr arferion gorau i'w rhannu o fewn ac ar draws awdurdodau lleol

Lle mae angen, gallai'r awdurdod lleol hefyd sefydlu **Bwrdd Gwella Carlam** i gefnogi ysgolion unigol ar eu taith wella. Bydd yr aelodau yn cynnwys cynrychiolwyr o'r awdurdod lleol, GwE, y pennaeth a chorff llywodraethu'r ysgol. Pwrpas y BGC fydd:

- Darparu cymorth ar gyfer gwella ysgolion
- Darparu fforwm her, mewnol ac allanol
- Adnabod unrhyw bryderon
- Adnabod unrhyw weithredu i'w flaenoriaethu
- Hysbysu'r Pennaeth Addysg ymhellach a oes angen i'r ALI ddefnyddio ei bwerau ymyrraeth

Ceir crynodeb isod o'r strwythurau a'r prosesau rhanbarthol ar gyfer cefnogi a herio ysgolion sy'n destun pryder:

#### Strwythurau a phrosesau rhanbarthol ar gyfer cefnogi YAC.



## Dyletswyddau Statudol ac Atebolrwydd

Bydd Arweinydd Craidd GwE a'r Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn gweithio mewn partneriaeth efo swyddogion Awdurdod Lleol i weithredu'r *Cytundeb Partneriaeth Awdurdod Lleol-Ysgol*. Arweinydd Craidd GwE ac Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant fydd yn monitro ac arfarnu safonau cyffredinol ac ansawdd dysgu, addysgu ac arweinyddiaeth, gan weithio mewn partneriaeth efo ysgolion a chlystyrau. Fodd bynnag, bydd GwE a'r chwe Awdurdod Lleol yn gweithio efo ysgolion i esblygu'r system atebolrwydd bresennol er mwyn galluogi ysgolion a chlystyrau i gael mwy o ymreolaeth. Bydd adolygu gan gymheiriaid yn elfen allweddol wrth gefnogi ysgolion i arfarnu eu cryfderau a'u meysydd ar gyfer gwelliant, a'u helpu i ganolbwyntio ar feysydd gwelliant penodol wrth iddynt gynllunio'r cwricwlwm newydd a'i ddarparu.

Wrth symud tuag at system sy'n hunan wella, bydd mwy o bwyslais ar atebolrwydd moesol a phroffesiynol. Bydd perthnasau atebolrwydd ysgol yn cynnwys y rheiny gyda disgyblion, rhieni, cyd-weithwyr a'r gymuned leol. Yr her i ni dros y blynyddoedd nesaf fydd creu diwylliant ble mae ysgolion yn teimlo bod ganddynt fwy o berchenogaeth ar atebolrwydd, a newid y syniad bod atebolrwydd yn seiliedig ar ddata ac arolygiad yn unig a'i fod yn cael ei weithredu gan rywun uwch eu pen.

Yng ngogledd Cymru, mae GwE a'r chwe Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth efo ysgolion i ddatblygu system atebolrwydd gadarn, system sydd gan randdeiliaid allweddol ffydd ynnddi ac sydd yn dal bob partner yn gwbl atebol am ei rôl yn datblygu ein dysgwyr i ddod yn:

- Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sydd yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- Cyfranwyr mentrus, creadigol sydd yn barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus sydd yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd; ac
- Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

## Disgwyliadau system yng ngogledd Cymru

Erbyn mis Medi 2024:

- Bydd bob ysgol yn bodloni gofynion statudol *Cwricwlwm i Gymru*, a bydd gan bob ysgol berthynas gref efo'i chymuned ac yn datblygu ystod eang o sgiliau dysgwr a fydd yn eu gwneud yn barod ar gyfer addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth.
- Bydd cynllunio ar sail pedwar diben y cwricwlwm newydd yn darparu cynnig cytbwys i fodloni anghenion pob dysgwr.
- Bydd strategaeth sgiliau sylfaenol sydd yn cynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn sail i gwricwlwm bob ysgol.

- Bydd strategaeth i blant bregus i ddysgu yn weithredol, sy'n canolbwyntio ar gynhwysiant, eu lles emosiynol, presenoldeb ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol, a bydd y strategaeth hon yn cael effaith gadarnhaol ar eu cynnydd a'u lles.
- Byddwn wedi cydweithio gyda ysgolion ac awdurdodau lleol i fabwysiadu model atebolrwydd newydd, a fydd yn cynnwys prosesau grymus i sicrhau ansawdd, er mwyn sicrhau bod llinellau atebolrwydd clir a phriodol ar bob lefel ar gyfer gwelliannau a datblygiadau ysgol rhanbarthol.
- Bydd strategaeth effeithiol ar waith ar gyfer ysgolion sy'n destun pryder, gyda'r capasiti priodol i adnabod a mynd i'r afael ag angen.
- Bydd gwella addysgu wrth wraidd pob gwelliant.
- Bydd cydweithio aeddfed rhwng ysgolion mewn clystyrau a chynghreiriau ar draws y rhanbarth, a byddant yn cymryd cyd-berchnogaeth dros wella ysgolion ei gilydd i sicrhau gwell deilliannau i ddysgwyr.
- Bydd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg grymus ar waith i lwyr gefnogi blaenoriaethau lleol a chenedlaethol ar gyfer gwella sgiliau iaith Gymraeg dysgwyr a'r gweithlu.
- Bydd cynllun dysgu proffesiynol cadarn mewn lle sy'n bodloni anghenion arweinwyr a staff addysgu, a hynny er mwyn helpu ysgolion i weithredu bob agwedd ar y daith ddiwygio a galluogi eu dysgwyr i ddatblygu tuag at bedwar diben y cwricwlwm newydd.
- Bydd GwE yn gweithredu'n effeithiol fel sefydliad sy'n dysgu, yn unol â'r saith dimensiwn 'gweithredu' fel y nodir gan Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd [OECD], a bydd gennym bartneriaethau cryf ac aeddfed gyda'n randdeiliaid allweddol, a fydd yn cynnwys strategaeth gyfathrebu glir.



Cydweithio · Dysgu · Llwyddo  
Collaborating · Learning · Succeeding

## ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

22 MEDI 2021

---

**Adroddiad gan:** Alwyn Jones – Cyfarwyddwr Cynorthwyol

**Pwnc:** Y Gymraeg - Cynlluniau Clwstwr a Phrosiect Llafaredd 'Ein Llais Ni'

---

### 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Rhannu gwybodaeth am y trefniadau a'r cynlluniau ar gyfer dau brif ffrwd gwaith y cynllun busnes ar gyfer y Gymraeg eleni – trefniadau ar gyfer y Cynlluniau Clwstwr a Phrosiect Llafaredd 'Ein Llais Ni'

### 2.0 Cefndir

2.1 **Cynlluniau Clwstwr** - Yn dilyn trafodaethau gyda Swyddogion yr Awdurdodau, cytunwyd fod angen ail-ystyried y trefniadau ar gyfer annog cyd-weithio clwstwr a'r dull o rannu cyllid i gefnogi'r amcanion sef Datblygu Sgiliau Iaith y Gweithlu a chefnogi gweithgareddau'r Siarter Iaith a Chymraeg Campus.

2.2 **Ein Llais Ni** - Cyflwynwyd cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru yn fuan yn 2021 am gyllid i'n cefnogi i weithredu prosiect Llafaredd 'Ein Llais Ni'. Nod y prosiect yw:

- Gwella agweddau a pharodwydd dysgwyr i gyfathrebu trwy'r Gymraeg a chyfrannu'n hyderus at eu cymunedau dwyieithog y tu fewn a thu allan i furiau eu hysgolion
- Cyflwyno rhaglen o strategaethau Ein Llais Ni sy'n gyfuniad o'r traddodiadol, y digidol a'r byw; sy'n berthnasol i gyd destun Cymru a Chymreictod.
- Meithrin a datblygu dysgwyr tuag at y Pedwar Diben, sy'n falch o'u Cymreictod ac yn gyfathrebwyr dwyieithog hyderus.

### 3.0 Ystyriaethau

3.1 **Cynlluniau Clwstwr** – o ran y cynlluniau yma, bwriedir adolygu'r dull cynllunio, gweithredu ac adrodd ar gynnydd i sicrhau effeithiolrwydd gwariant y grant a chasglu gwybodaeth am lwyddiannau a dulliau effeithiol i'w rhannu i'r dyfodol. Drwy gydweithio â'r Awdurdodau Lleol, byddwn yn:

- Datblygu'r defnydd o 'dashfwrdd' i rannu gwybodaeth/y cynllun/cyllid ac adrodd ar gynnydd. Bydd mynediad gan YCG y Gymraeg, Swyddogion yr Awdurdodau a'r Cydlynwyr Iaith Dalgylch iddo.
  - Sicrhau fod y cynllunio yn cyd-fynd â deilliannau'r CSGA ac fod ymwybyddiaeth gynyddol o'r targedau hynny gan y cydlynwyr iaith dalgylch.
-

- Sicrhau dyraniad cyllid i bob clwstwr – mewn trafodaeth gyda Swyddogion yr Awdurdodau, ystyried nifer ysgolion ac anghenion penodol i'w targedu.
- Sicrhau fod trafodaethau parhaus am effaith unrhyw weithredu a chamau nesaf.
- Annog cyfarfodydd rheolaidd gydag ysgolion y clwstwr, gwneud defnydd o Gyfrifiad y Gweithlu wrth gynllunio ar gyfer anghenion, defnydd strategol o'r Cynlluniau Sabothol ac egwyddorion y Fframwaith Siarter Iaith a Chymraeg Campus.
- Rhannu arferion effeithiol a llwyddiannau'r cynlluniau clwstwr drwy wefan Canolfan Gefnogaeth GwE ac mewn rhwydweithiau cenedlaethol e.e. Siarter Iaith.

3.2 **Ein Llais Ni** (Gweler Atodiad 1) – nod y prosiect yma yw meithrin a chryfhau'r model ar gyfer addysgu a gwella sgiliau llafaredd o fewn ysgolion yng nghyd-destun Cwricwlwm i Gymru (addysgeg neilltuol/*signature pedagogy*). Mae'r prif flaenoriaethau fel a ganlyn:

- Yr angen i fagu hyder ac ail-danio brwdfrydedd tuag at ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu naturiol a phlethu hyn gyda'r angen i wella lles a llesiant drwy ddatblygu medrau cyfathrebu pob dysgwr.
- Ymateb i adroddiad yr Athro Neil Mercer a Dr James Mannion 'Llafaredd ar draws Cwricwlwm Cymru' yn 2018, a gweithredu ar yr argymhellion.
- Mae angen trawsnewid addysgu a dysgu sgiliau llafaredd Cymraeg ar gyfer cwrdd â nod Llywodraeth Cymru '2050 Miliwn o Siaradwyr' a Cwricwlwm i Gymru.
- Yr angen i blethu egwyddorion y model â chynlluniau trochi hwyr ysgolion ac adeiladu ar eu strategaethau dysgu carlam
- Mae tystiolaeth i awgrymu bod cau ysgolion oherwydd COVID-19 wedi ehangu'r bwlch cyrhaeddiad rhwng dysgwyr o drawstoriad eang o gefndiroedd ieithyddol ac yn arbennig rhai o gefndiroedd llai breintiedig.
- Mae nifer o athrawon yn cydnabod diffyg hyder a gwybodaeth pwnc arbenigol wrth addysgu ac asesu llafaredd ar draws y cwricwlwm.
- Yr angen i sicrhau bod iaith ac arbenigedd meysydd a phynciau penodol yn cyfrannu tuag at y prosiect.

#### 4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo cynnwys yr adroddiad a'r cynlluniau i ddatblygu'r prosiect yn unol â'r targedau a osodwyd gan Llywodraeth Cymru.

#### 5.0 Goblygiadau ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi fewn yr adnoddau ariannol cyfredol.

5.2 Prosiect 'Ein Llais Ni' - cyflwynwyd cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru yn 2021 am gyllid i cefnogi'r prosiect ymchwil gweithredol ar gyfer codi safonau llafaredd Cymraeg.

#### 6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn

#### 7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Prosiect 'Ein Llais Ni' - penodi Swyddog Prosiect dros dro i gydlynu'r gwaith, ochr yn ochr â Swyddog Ymchwil o Adran Addysg Prifysgol Bangor.

**8.0 Ymgynghori a wnaed**

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE a Swyddogion yr Awdurdodau Lleol.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad 1 – Prosiect ‘Ein Llais Ni’.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Cadarnhaf bod llythyr wedi ei dderbyn yn cynnig grant £210,900 ar gyfer prosiect ‘Ein Llais Ni’. Fel mae'r adroddiad blaen yn nodi yn rhan 5.1, disgwylir bydd GwE yn gweithredu'r cynlluniau oddi fewn ei adnoddau ariannol cyfredol, gan gynnwys y grant yma.

## Prosiect Llafaredd GwE

Cyflwynwyd cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru yn fuan yn 2021 am gyllid i'n cefnogi i gynnal prosiect ymchwil gweithredol ar gyfer codi safonau llafaredd Cymraeg.

### Nod y prosiect yw:

- Gwella agweddau a pharodrwydd dysgwyr i gyfathrebu trwy'r Gymraeg a chyfrannu'n hyderus at eu cymunedau dwyieithog y tu fewn a thu allan i furiau eu hysgolion
- Cyflwyno rhaglen o strategaethau 'Ein Llais Ni' sy'n gyfuniad o'r traddodiadol, y digidol a'r byw; a'u datblygu ymhellach sy'n berthnasol i gyd-destun Cymru a Chymreictod
- Meithrin a datblygu dysgwyr tuag at y Pedwar Diben sy'n falch o'u Cymreictod ac yn gyfathrebu dwyieithog hyderus.

### Blaenoriaethau:

- Mapio rhaglen sydd yn cynnwys elfennau traddodiadol, digidol a byw mewn cyfuniad ag adnoddau Voice 21/Trysorfa Llais 21 yn erbyn ymchwil gyfredol ar ddatblygu dwyieithrwydd mewn ysgolion, gan gynnwys addasiadau i'r rhaglen sy'n ei osod mewn cyd-destun lleol a Chymreig
- Sefydlu Bwrdd Llywio i oruchwylio a chyfrannu tuag at y prosiect
- Penodi Swyddog Prosiect i gydlynu gwaith ochr yn ochr â Swyddog Ymchwil o Adran Addysg Prifysgol Bangor (o dan oruchwyliaeth Athro Enlli Thomas)
- Cynllunio a chyflwyno strategaethau ac addysgeg effeithiol i'w rhannu efo'r ysgolion
- Gweithio gydag amrediad o ysgolion er mwyn rhoi'r strategaethau ar waith a derbyn adborth ar yr effaith ar gynnydd a mwynhâd y dysgwyr
- Perthnasu'r rhaglen i gyd-destun Cymreig, cyfoes ac amrywiol gan gynnig awgrymiadau, syniadau ymarferol yn ogystal ag arferion llwyddiannus sy'n seiliedig ar egwyddorion ag argymhellion gwreiddiol Mercer a Mannion
- Ymestyn y prosiect i rannau eraill o Gymru er mwyn ei gyfoethogi a'i werthuso.
- Gwerthuso effaith y strategaethau a'r addasiadau ar hyder a chyrhaeddiad y dysgwyr
- Datblygu a chynhyrchu adroddiad digidol mewn ymateb ac yn ddilynant i adroddiad Mercer a Mannion – 'Llafaredd ar draws y Cwricwlwm i Gymru'
- Cynnal Cynhadledd Genedlaethol i lansio'r gwaith ymchwil, yr adnoddau cefnogol, ac i godi ymwybyddiaeth o ganfyddiadau'r prosiect 'Ein Llais Ni'.

### Deilliannau:


- Strategaeth eglur ar gyfer addysgu llafaredd sy'n bwrpasol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, wedi'u cynllunio'n dda a'i chefnogi gan becyn cymorth ar gyfer dysgu proffesiynol ar gael i ysgolion.
- Bydd gan athrawon ddealltwriaeth gadarn o sut i ddefnyddio ac addasu iaith yn effeithiol mewn sefyllfaoedd amrywiol ac i gynulleidfaoedd gwahanol yn ogystal a manteision dwyieithrwydd.
- Bydd gan athrawon ddealltwriaeth gadarn o'r amrywiol ffyrdd o ddefnyddio ystod o apiau a rhaglenni digidol i gyfoethogi addysgu llafaredd ac yn cynllunio profiadau ysgogol, byw sy'n berthnasol i fywyd go iawn ac sy'n tanio brwdfrydedd i gyfathrebu
- Effaith gadarnhaol ar sgiliau llafaredd dysgwyr a'u parodrwydd a'u brwdfrydedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol ac yn eu cymuned
- Cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg i fynegi eu hunain a chyfathrebu eu meddyliau a'u syniadau yn yr ysgol ac yn eu cymuned.
- Lleihad yn yr amrywiad ansawdd addysgu llafaredd o fewn ysgol a rhwng ysgolion
- Bydd yn cyfrannu yn effeithiol tuag at wella llesiant y dysgwyr wrth iddynt fynegi eu hunain a chyrchu pob rhan o'r cwricwlwm a bywyd ysgol
- Creu canolfannau arbenigedd a datblygu rhwydweithiau ar gyfer rhannu strategaethau addysgu a dysgu llafaredd a fydd yn ganolbwynt ar gyfer gwaith lledaenu yn y dyfodol.
- Llwyfan hylaw i'r adnoddau a'r deunyddiau cefnogol – creu pecyn hyfforddiant digidol i gyd-fynd â'r adnoddau i'w rannu ar wefan Cefnogaeth GwE – Hwb yn Genedlaethol



### Effaith a budd y prosiect ar y rhan-ddeiliaid:

- **Dysgwyr** - bydd eu hyder a medrau siarad, gwranddo a chyfathrebu yn datblygu a chryfhau; bydd eu medrau yn trosglwyddo yn llwyddiannus i feysydd a phynciau eraill ar draws y cwricwlwm ac yn eu harfogi i gyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg tu hwnt i furiau'r ysgol.
- **Athrawon a chymorthyddion** – byddant yn datblygu hinsawdd ddysgu sy'n rhoi lle blaenllaw i ddatblygu medrau llafar ar bob cyfle posib er mwyn meithrin cyfathrebwyr naturiol yn y Gymraeg; bydd ganddynt ddealltwriaeth glir o'r amrywiol elfennau sydd ynghlwm âg addysgu llafaredd yn effeithiol ac yn cynllunio yn fwriadus ar gyfer hynny.
- **Arweinwyr ysgolion** – bydd y Gymraeg yn rhan o weledigaeth yr ysgol gan weithredu ethos ac awyrgylch Gymraeg a Chymreig drwy blethu'r Fframwaith Siarter Iaith gyda Phedwar Diben y cwricwlwm newydd. Bydd ymwybyddiaeth o'r darlun mawr a phwysigrwydd datblygu'r Gymraeg ar gyfer creu dinasyddion dwyieithog sy'n hyderus i ddefnyddio Cymraeg ym mhob rhan o fywyd bob dydd (Strategaeth Cymraeg 2050 Ll.C) ac o'r cyfrifoldeb strategol sydd gan yr Awdurdodau Addysg drwy'r CSGA.
- **Rhieni** – byddant yn dyfnhau dealltwriaeth o fanteision bod yn ddwyieithog ac yn gefnogol i'r dulliau addysgu Cymraeg; byddant yn dangos diddordeb ym medrau llafar Cymraeg eu plant ac yn ymroi i gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg eu hunain.
- **Awdurdodau lleol** – byddant yn bartneriaid allweddol yn y broses o gefnogi ysgolion drwy'r CSGA ac yn gweld budd o'r cydweithio er mwyn cefnogi'r targedau. Byddant yn gweld y prosiect yn gyfle i wreiddio ac ymestyn y Gymraeg i feysydd eraill y cwricwlwm ac i ddatblygu dulliau newydd a chyfoes wrth gynllunio tuag at y Cwricwlwm i Gymru.
- **Consortia Addysg** – byddant yn ymwybodol a chilir o'r prosiect a'r dull gweithredu ac yn derbyn diweddariadau cyson o'r datblygiadau gan gyfrannu tuag at ei ddatblygu a'i hyrwyddo a chyfathrebu yn genedlaethol ac yn lleol drwy Hwb.

### Amserlen:



Llywodraethiant:



Cyfrifoldeb dros sicrhau fod y prosiect yn cael ei gwblhau yn unol a'r cynllun



## ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

22 MEDI 2021

---

**Adroddiad gan:** Alwyn Jones - Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE

**Testun:** Dysgu Digidol

---

### 1.0 Pwrpas yr adroddiad

1.1 Rhannu gwybodaeth ag aelodau'r Cyd-bwyllgor ynglŷn â'r maes gwaith 'Dysgu Digidol'.

### 2.0 Cefndir

2.1 Mae datblygiadau parhaus trwy raglen Hwb / EdTech wedi arwain at well seilwaith craidd a mwy o ddyfeisiau defnyddwyr yn cael eu cyflwyno ar draws ysgolion y rhanbarth gyda'r nod o wella'r ymwneud â chyfres o strategaethau/blaenoriaethau cenedlaethol.

2.2 Er mwyn sicrhau cyfeiriad strategol clir ar gyfer gweithredu'r strategaethau a blaenoriaethau yma, bwriedir sefydlu Grŵp Dysgu Digidol Rhanbarthol i gynllunio a goruchwyllo agweddau penodol o'r gwaith.

### 3.0 Ystyriaethau

3.1 Ynghlwm (Atodiad 1) amlinellir cylch gwaith ar gyfer y Grŵp Dysgu Digidol Rhanbarthol.

### 3.2 Prif bwrpas y grŵp fydd:

- Gosod cyfeiriad strategol i gefnogi GwE, yr Awdurdodau Lleol ac Ysgolion i weithredu'r strategaethau penodol.
- Gwneud pob rhanddeiliad yn ymwybodol o ddatblygiadau mewn perthynas â'r strategaethau / blaenoriaethau.
- Rhoi lle i AauLL drafod a rhannu profiadau yng nghyd-destun y rhaglen EdTech.
- Sicrhau bod ysgolion yn ymwybodol o ddatblygiadau a chyfleoedd sy'n codi yn sgil yr agenda ddysgu digidol ehangach.
- Rhannu arferion effeithiol yn lleol ac yn rhanbarthol .
- Rhoi mewnbwn strategol i raglenni dysgu proffesiynol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.
- Archwilio a hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio technoleg ddigidol i gefnogi'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ym mhob ffrwd ddysgu digidol.
- Archwilio sut gall technoleg ddigidol gefnogi datblygiad pob agwedd ar y daith ddiwygio.

## 4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor dderbyn a chymeradwyo cylch gwaith y Grŵp Rhanbarthol Dysgu Digidol fydd yn gosod y cyfeiriad strategol i gefnogi GwE, yr Awdurdodau Lleol ac ysgolion i weithredu strategaethau a blaenoriaethau cenedlaethol.

## 5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

## 6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

## **7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

## **8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE.

## **9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad 1 - Cylch gwaith y Grŵp Dysgu Digidol Rhanbarthol

---

### **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

#### **Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

#### **Swyddog Cyllid Statudol:**

Nodaf fod rhan 5.1 o'r adroddiad blaen yn cadarnhau nad oes unrhyw ymhlygiadau ariannol yn codi o gymeradwyo cylch gwaith y Grŵp Rhanbarthol Dysgu Digidol. Felly, does gen i ddim i'w ychwanegu at yr adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol



Cydweithio · Dysgu · Llwyddo  
Collaborating · Learning · Succeeding

## Cylch Gwaith

### Grŵp Dysgu Digidol Rhanbarthol

#### Cyd-destun

Mae datblygiadau parhaus trwy raglen Hwb / EdTech wedi arwain at well seilwaith craidd a mwy o ddyfeisiau defnyddwyr yn cael eu cyflwyno ar draws ysgolion y rhanbarth gyda'r nod o wella'r ymwneud â chyfres o strategaethau/blaenoriaethau cenedlaethol:

- Hybu ysgolion i ddefnyddio Hwb yn gyntaf, a chynnal hyn
- Rhaglen EdTech
- Bydd Cymhwysedd Digidol yn un o ofynion craidd Cwricwlwm i Gymru, yn un o'r sgiliau trawsgwricwlaidd ynghyd â Llythrennedd a Rhifedd
- Cyfoethogi gwytnwch digidol mewn cynllun gweithredu Addysg
- Taith Ddysgu Proffesiynol Ddigidol - wedi'i nodi yn Cenhadaeth ein Cenedl
- Adnodd cenedlaethol ar gyfer hunan arfarnu dysgu digidol
- Cynllunio Dysgu Anghydamserol o Bell / Cynllunio Dysgu Cydamserol o Bell
- Llinyn cyfrifiaduraeth Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg (MDaPh)
- Technoleg Ddigidol newydd TGAU / Safon Uwch
- E-sgol

#### Prif Bwrpas

- Gosod allan gyfeiriad strategol i gefnogi GWÉ, yr Awdurdodau Lleol ac Ysgolion i weithredu'r strategaethau uchod
- Gwneud pob rhanddeiliad yn ymwybodol o ddatblygiadau mewn perthynas â'r strategaethau / blaenoriaethau uchod
- Rhoi lle i AauLl drafod a rhannu profiadau yng nghyd-destun y rhaglen EdTech
- Sicrhau bod ysgolion yn ymwybodol o ddatblygiadau a chyfleoedd sy'n codi yn sgil yr agenda ddysgu digidol ehangach
- Rhannu arferion effeithiol yn lleol ac yn rhanbarthol
- Rhoi mewnbwn strategol i raglenni dysgu proffesiynol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol
- Archwilio a hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio technoleg ddigidol i gefnogi'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ym mhob ffrwd ddysgu digidol
- Archwilio sut gall technoleg ddigidol gefnogi datblygiad pob agwedd ar y daith ddiwygio



Cydweithio · Dysgu · Llwyddo  
Collaborating · Learning · Succeeding

## Dyletswyddau

Sicrhau cyfeiriad strategol clir ar gyfer gweithredu'r strategaethau / blaenoriaethau uchod yn effeithiol trwy gynllunio a goruchwyllo'r agweddau a ganlyn:

- Gwreiddio Cymhwysedd Digidol fel sgil trawsgwricwlaidd a ddefnyddir i wella'r dysgu ar draws amrywiol gyd-destunau
- Hyrwyddo ysgolion i ddefnyddio'r adnoddau ar lwyfan Hwb
- Codi ymwybyddiaeth o wytnwch digidol ac amrywiol strategaethau i gadw disgyblion ac ysgolion yn ddiogel, yn unol â strategaeth a chynllun gweithredu Llywodraeth Cymru
- Cynllunio'r ymwneud â'r Daith Ddysgu Proffesiynol Ddigidol pan fydd y canllawiau yn cael eu lansio
- Cynllunio'r ymwneud â'r adnodd cenedlaethol ar gyfer hunan arfarnu dysgu digidol
- Dadansoddi data'r adnodd hunan arfarnu er mwyn adnabod anghenion dysgu proffesiynol lleol a rhanbarthol
- Codi ymwybyddiaeth o'r prosiect cenedlaethol 'Cynllunio Dysgu Anghydamserol o Bell' er mwyn gwella profiadau dysgu yn ystod unrhyw weithgareddau dysgu cyfunol neu ddysgu o bell
- Rhannu arferion gorau ar draws y rhanbarth o ran Cymhwysedd Digidol, Gwytnwch Digidol, Dysgu Cyfunol, Dysgu o Bell neu unrhyw arferion arloesol
- Paratoi ysgolion i fod yn barod i weithredu llinyn cyfrifiaduraeth Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg (MDaPh)
- Archwilio sut gall technoleg ddigidol gefnogi CauSCA a blaenoriaethau eraill y daith ddiwygio

## Aelodaeth

Bydd aelodaeth graidd y grŵp yn cynnwys:

- Arweinydd Digidol GwE
- Y chwe Awdurdod Lleol - un cynrychiolydd o bob ALL

Yn achlysurol, gellir gwahodd aelodau yn unol â'r blaenoriaethau sydd wedi'u gosod a'r materion a drafodir.

## Adrodd

Bydd y grŵp hwn yn adrodd yn ffurfiol i'r bwrdd rheoli rhanbarthol bob hanner tymor gyda chofnodion cyfarfodydd, ac yn cyflwyno'r camau gweithredu a argymhellir i gael eu cymeradwyo.



## ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

22 MEDI 2021

---

**Adroddiad gan:** Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Testun:** Trefn ymdrîn â phryderon a chwynion GwE

---

### 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Derbyn a chymeradwyo'r drefn o ymdrîn â phryderon a chwynion GwE.

### 2.0 Cefndir

2.1 Mae GwE wedi ymrwymo i ddelio gydag unrhyw bryderon neu gwynion ynglŷn â'r gwasanaeth yn brydlon a thryloyw gan ddilyn polisiau a phrotocolau Cyngor Gwynedd fel yr awdurdod lletyol neu, lle'n briodol, bolisiau awdurdodau unigol.

2.2 Mae Atodiad 1 yn amlinellu'r drefn o drefn ymdrîn â phryderon a chwynion GwE. Amlinellir y gwahanol fathau o gwynion posib a phrotocolau delio gyda nhw.

### 3.0 Argymhellion

3.1 Gofynnir i'r Cydbwyllgor dderbyn a chymeradwyo'r drefn o ymdrîn â phryderon a chwynion GwE.

### 4.0 Goblygiadau Ariannol

4.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

### 5.0 Effaith ar Gydraddoldeb

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

### 6.0 Goblygiadau Personél

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

---



**7.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

7.1 Ymgynghori â'r Bwrdd Rheoli.

**8.0 Atodiadau**

8.1 Atodiad 1 - Trefn ymdrîn â Phryderon a Chwynion GwE

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Yn sgil Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2019 mae gofyn statudol ar ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i fabwysiadu trefniadau cwynion sy'n cyd-fynd gyda phroses enghreifftiol a gyhoeddir gan yr Ombwdsmon. Tra nad yw GwE ei hun yn dod o dan gofynion y Ddeddf bydd mabwysiadu'r trefniadau hyn yn sicrhau eglurder ynglŷn a sut i ymdrin ag unrhyw gŵyn a dderbynnir wrth aelod o'r cyhoedd tra bod materion eraill cael sylw o dan y gweithdrefnau priodol sydd mewn lle.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Nodaf fod rhan 4 o'r adroddiad blaen yn cadarnhau nad oes unrhyw ymhlygiadau ariannol yn codi o gymeradwyo'r drefn o ymdrîn â phryderon a chwynion. Felly, does gen i ddim i'w ychwanegu at yr adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol



### Trefn ymdrîn â Phryderon a Chwynion GwE

Mae GwE wedi ymrwymo i ddelio gydag unrhyw bryderon neu gwynion ynglŷn â'r gwasanaeth yn brydlon a thryloyw gan ddilyn polisiau a phrotocolau Cyngor Gwynedd fel yr awdurdod lletyol neu, lle'n briodol, bolisiau awdurdodau unigol.

Yn y lle cyntaf, anelir at ddelio gyda chwynion yn anffurfiol a cheisio datrysiaid mewn modd teg, trefnus, cyson a diduedd. Lle nad yw hyn yn bosib mae modd mynd drwy broses o gyflwyno cŵyn ffurfiol.

Isod amlinellir y gwahanol fathau o gwynion posib a phrotocolau delio gyda nhw.

Math o gŵyn	Polisi a phrotocol a ddilynir
Cŵyn gyffredinol am wasanaeth GwE gan aelod o'r cyhoedd	Polisi Pryderon a Chwynion Cyngor Gwynedd <b>( Atodiad 1 )</b>
Cŵyn gan aelod staff GwE am amodau gwaith, ymddygiad cydweithiwr.	Trefn gwyno Cyngor Gwynedd <b>(Atodiad 2)</b>
Cŵyn gan ysgol / unigolion o fewn ysgol am wasanaeth GwE	Trefn a pholisi delio gyda chwynion yr awdurdod perthnasol <b>(Atodiad 3 )</b>
Anfodlonrwydd gan Awdurdod Lleol am agwedd o wasanaeth GwE	Dilyn camau Trefniadau'r Cytundeb Rhyng Awdurdod

**POLISI PRYDERON A CHWYNION CYNGOR GWYNEDD**

Dolen - [POLISI PRYDERON A CHWYNION CYNGOR GWYNEDD](#)

**ADRAN CEFNOGAETH GORFFORAETHOL**



## 8.2 TREFN GWYNO

Os oes cwyn ynglŷn â'r gwaith, (ar wahân i gwynion ynglŷn â chyflog y mae trefn arbennig ar eu cyfer), mae hawl i leisio'r gwyn drwy'r drefn ganlynol:-

1. Dylid cysylltu â Phennaeth yr Adran gan mai ef/hi yw'r person, yn y rhan fwyaf o achosion, sy'n gallu trafod y gwyn orau.
2. Gall yr aelod o staff drafod y mater ei hunan, neu ofyn i gynrychiolydd fel diffiniwyd gan paragraff 10 o'r Deddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999\* ei drafod ar ei r/rhan neu gydag ef/hi.
3. Pe dymunir trafod y mater ymhellach ar ôl cyfarfod Pennaeth yr Adran, dylid cysylltu â'r cynrychiolydd gan ofyn am gyfarwyddyd, a phe dymunir, gellir trafod y mater ymhellach gyda Phennaeth yr Adran. Os oes anfodlonrwydd o hyd, gellir cyflwyno'r gwyn yn ysgrifenedig (gan yr aelod o staff neu ei g/chynrychiolydd).
4. Bydd Pennaeth Adran neu Uwch Swyddog a enwebir ganddo/ganddi yn ystyried y gŵyn.
5. Trafodir y gŵyn gyda'r aelod o staff a chynrychiolydd pe dymunir, a cheir ateb ysgrifenedig yr awdurdod o fewn 14 diwrnod.
6. Os yw'r aelod o staff yn dal yn anfodlon ar yr ateb a dderbynnir, yna bydd cyfle i gymodi trwy drafod gyda'r Pennaeth Adran a Chynrychiolydd o'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol a Chynrychiolydd y Gweithiwr.
7. Os oes anfodlonrwydd o hyd ar y mater, gellir ysgrifennu i'r perwyl hwnnw at y Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol fydd yn cyfeirio'r mater i'r Panel Apeliadau Lleol o fewn 10 diwrnod gwaith o dderbyn y cais.
8. Gwrandewir yr apêl gan y Pwyllgor Apêl Cyflogaeth.
9. Bydd yr Undeb perthnasol yn derbyn copi, er gwybodaeth, o benderfyniad pob Pwyllgor Apêl Cyflogaeth a bydd yn agored i ochr y gweithwyr ddwyn unrhyw fath o bolisi neu egwyddorion sy'n codi o unrhyw achos i sylw'r Cyd -Bwyllgor Lleol.

Mewn achosion lle honnir eu bod yn achosion brys gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y broses o weithredu'r drefn uchod yn cael ei chyflawni cyn gynted â phosib.

---

\* *Diffiniad o gynrychiolydd o'r Ddeddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999:*

**(a)** *swyddog sydd yn gyflogedig gan undeb llafur yn unol â rhannau 1 ac 119 o'r Ddeddf Undeb Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cyfnerthiad) 1992,*

**(b)** *swyddog o undeb llafur sydd gyda ardystiad ysgrifenedig gan yr undeb i ddangos mae gan y swyddog profiad o, neu wedi derbyn hyfforddiant mewn, cynrychioli gweithwyr mewn gwrandawriadau disgyblaeth neu gwyno.*

**(c)** *gweithiwr arall y cyflogwr*

Crynodeb camau gweithredu mewn achos o gŵyn gan ysgol / unigolion o fewn ysgol am wasanaeth GwE
<b>Cam 1</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Trafodaeth anffurfiol rhwng yr ysgol â swyddog GwE gan anelu at ddatrysiad prydlon a derbyniol</li> </ul>
<b>Cam 2</b> Os nad yw'r uchod yn llwyddiannus, yr ysgol i gyflwyno cŵyn i'r Awdurdod Addysg priodol e.e. Gwynedd, Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Flint, Wrecsam
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Pennaeth ysgol i ysgrifennu at y Pennaeth Addysg i amlinellu'r gŵyn</li> <li>• Trafodaeth rhwng y Pennaeth a'r Pennaeth Addysg i gael dealltwriaeth iawn o'r gŵyn a'r hyn y mae'r ysgol yn ei ddymuno fel datrysiad</li> <li>• Yr Awdurdod Addysg unigol i ymdrin â'r mater yn unol â pholisi perthnasol yr Awdurdod penodol sy'n priodol i'r amgylchiadau</li> <li>• Penderfyniad y Pennaeth Addysg yw os y dylid cyflwyno cŵyn i GwE ai peidio</li> </ul>
<b>Cam 3</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Pennaeth Addysg yn cyflwyno cŵyn i Reolwr Gyfarwyddwr GwE</li> <li>• Rheolwr Gyfarwyddwr GwE i drefnu i gynnal ymchwiliad</li> <li>• Ymateb ysgrifenedig gan GwE i'r Awdurdod wedi ei gymeradwyo gan y Rheolwr Gyfarwyddwr</li> </ul>